Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | | |
|---|---|---|
| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 13 MAWRTH 2013 am 2.00 o'r gloch** | | **WEDNESDAY, 13 MARCH, 2013 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752515** | **Committee Officer** |

**<u>Aelodau Annibynnol / Independent Members</u>**

Denise Harris Edwards
Islwyn Jones
Leslie Lord
Dilys Shaw
Michael Wilson

**<u>Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council</u>**

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Cynghorydd Ieuan Williams

**<u>Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils</u>**

William Raymond Evans
John Roberts

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

I gadarnhau Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2012.

3 **CYHOEDDI COFRESTRAU STATUDOL AR LEIN** (Tudalennau 7 - 8)

Adroddiad diweddaru gan Rheolwr We Corfforaethol ynglyn â chynnydd gweithrediad a hyfforddiant anwytho arfaethedig ar gyfer Aelodau sy'n dychwelyd a'r rhai newydd.

4 **CYNLLUN DATBLYGU AELODAU AC ADOLYGIADAU DATBLYGU PERSONOL**

I dderbyn adroddiad ar lafar gan y Prif Swyddog Datblygu ar yr uchod.

5 **PROSIECT RHEOLI CWYNION** (Tudalennau 9 - 26)

Adroddiad diweddaru gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar y Prosiect Rheoli cwynion er gwybodaeth.

6 **CWYNION AM YMDDYGIAD I'R OMBWDSMON- 6A** (Tudalennau 27 - 30)

6a Adroddiad gan y Swyddog Gofal Gwsmer ar ffurf matrics ar gyfer Cynghorwyr Sir wedi ei ddiweddaru yn cael ei ddarparu i sylw'r Pwyllgor. Er gwybodaeth a chwestiynau.

6b Adroddiad gan y Swyddog Gofal Gwsmer ar ffurf matrics ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned wedi ei ddiweddaru yn cael ei ddarparu i sylw'r Pwyllgor. Er gwybodaeth a chwestiynau.

7 **CRYNODEB O BENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 31 - 32)

Adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer.

8 **CYNHADLEDD CENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 33 - 36)

Cofnodion a Rhestr Enwebiadau ynghlwm er gwybodaeth.

9 **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD A GYMERADWYWYD GAN Y CYNGOR LLAWN AR 5 MAWRTH, 2013 - 9A** (Tudalennau 37 - 84)

9(a) Adroddiad ar y newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

9(b) Adroddiad ar y newidiadau i'r Polisi Indemniad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

**10** **NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD** (Tudalennau 85 - 114)

10(a) Adroddiad ar y 'Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Protocol Hunanreoliad Diwygiedig' ar gyfer sylwadau ac ymgynghoriad.

10(b) Adroddiad ar y 'Rheolau Gweithdrefn Cynllunio' ar gyfer sylwadau ac ymgynghoriad.

**11** **PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL DRAFFT** (Tudalennau 115 - 122)

Adroddiad gan y Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol ar y protocol uchod ar gyfer sylwadau ac ymghynghoriad.

**12** **RHAGLEN WAITH 2012/13** (Tudalennau 123 - 126)

Copi ynghlwm.

This page is intentionally left blank

PAPUR / ENCLOSURE
A

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2012

**YN BRESENNOL:** **Aelodau Annibynnol**

Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)
Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)

Ms. Denise Harris Edwards
Mr. Leslie Lord,
Mrs. Dilys Shaw

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**

Y Cynghorydd Raymond Evans
Y Cynghorydd John Roberts

**WRTH LAW**: Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth/Swyddog Monitro),
Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro (RMJ)(yn bresennol o eitem 5 ymlaen)
Swyddog Gofal Cwsmer (BJ)(ar gyfer eitemau 5(a)(b) a 6),
Uwch Swyddog Datblygu (MW)(ar gyfer eitemau 8(a)(b)),
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (yn bresennol ar gyfer eitemau 1 i 4).
Swyddog Pwyllgor (MEH)(yn bresennol o eitem 5 ymlaen)>

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorwyr T.Ll. Hughes, Ieuan Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**: Dim

---

Dywedodd y Cadeirydd y byddai Mr. Meirion Jones, y Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro, yn ymddeol ddiwedd y mis hwn. Roedd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dymuno diolch i Mr. Jones am ei waith i'r Pwyllgor Safonau dros y blynyddoedd. Dymunwyd yn dda i Mr. Jones am ymddeoliad iach a hapus.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorydd John Roberts ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 4 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arni

### 2. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd isod :-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2012
- Cofnodion y Gwrandawiad Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2012, yn amodol ar gywiro'r camgymeriad sillafu sef y gair 'speak' yn y fersiwn Saesneg dan eitem 3, trydydd paragraff.

### 3. CAU ALLAN Y WASG Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

DRAFT

## 4. CWYN YN ERBYN CYNGHORYDD CYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r uchod.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymchwilio i gŵyn y gall Cynghorydd Cymuned fod wedi methu glynu wrth y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau. O ganlyniad i'w ymchwiliad, canfu'r Ombwdsmon fethiant ar ran Cynghorydd i gydymffurfio gyda'i Gôd Ymddygiad a rhaid i'r Pwyllgor Safonau o'r herwydd wneud penderfyniad yn unol â pharagraff 2.1.b.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU: Trefnir gwrandawiad lleol lle bydd y Cynghorydd Cymuned yn cael cyfle i wneud sylwadau ynglŷn â chanfyddiadau'r ymchwiliad a'r honiadau iddo fethu cydymffurfio gyda'i Gôd Ymddygiad.**

**Dychwelodd y cyfarfod i sesiwn gyhoeddus.**

## 5. CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

5.1 Cyflwynwyd er gwybodaeth - adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cynghorwyr Sir. Dywedwyd nad oedd unrhyw achosion 'byw' ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau ar 13 Mawrth 2013.**

5.2 Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau ar 13 Mawrth 2013.**

## 6. PENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU

Cyflwynwyd a nodwyd - adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ynglŷn â'r uchod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau ar 13 Mawrth 2013.**

## 7. PENDERFYNIAD Y PANEL DYFARNU MEWN PERTHYNAS AG APÊL Y CYNGHORYDD HEFIN THOMAS

Rhoes Cadeirydd y Pwyllgor Safonau adroddiad llafar ar ei feddyliau ynghylch penderfyniad y Panel Dyfarnu a'i gyfarfod arfaethedig gydag Arweinwyr y Grwpiau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Trefnu cyfarfod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Arweinwyr y Grwpiau i drafod canfyddiadau'r Panel Dyfarnu.**

DRAFT

**8. (A) STATWS Y CYNLLUN DATBLYGU AELODAU**
**(B) CYFLWYNO ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL AR GYFER AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad o ddiweddariad gan yr Uwch Swyddog Datblygu ar faterion yn codi o'r Cynllun Datblygu Aelodau a'r Gweithgor Datblygu Aelodau ynghyd ag Adolygiadau Datblygiad Personol ar gyfer Aelodau.

Mynegwyd pryderon ynghylch diffyg presenoldeb Aelodau mewn Sesiynau Hyfforddi a'r angen i roi sylw i'r mater hwn. Awgrymwyd y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gael cyfarfod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a chyfarfod wedi hynny yn anffurfiol gydag Arweinwyr y Grwpiau.

Codwyd cwestiynau ynglŷn ag hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac i weld a fedrai'r hyfforddiant fod yn orfodol. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgorau Safonau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Gwneud trefniadau i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i drafod materion a godwyd o ran diffyg presenoldeb Aelodau mewn Sesiynau Hyfforddi.**

**9. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd - rhaglen ddrafft ar gyfer y Gynhadledd Genedlaethol a gynhelir yn Venue Cymru, Llandudno ar 19 Ebrill 2013.

Dywedodd y Cadeirydd - yn dilyn yr adroddiad beirniadol ar Lywodraethu Corfforaethol a gafwyd yn 2009 mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn ac awgrymiadau yn yr adroddiad hwnnw y dylai'r Pwyllgor Safonau fod yn rhagweithiol, awgrymodd y dylai cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau gael gwahoddiad i'r Fforwm i egluro'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan Awdurdodau Lleol o ran gweithgareddau Pwyllgorau Safonau.

**PENDERFYNWYD rhoddi eitem ar Raglen y Fforwm i wahodd cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Adran ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau i egluro'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan Awdurdodau Lleol o ran gweithgareddau Pwyllgorau Safonau.**

**GWEITHREDU:**

**(1) Rhoddi eitem ar Raglen y Fforwm fel a nodir uchod.**

**(2) Trafod enwebiadau i fynychu Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar 19 Ebrill 2013 yn y Pwyllgor Safonau nesaf a gynhelir ar 13 Mawrth 2013.**

**10. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD**

**(A) PROTOCOL AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION A WARDIAU AMLAELOD**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Panel o 3 Aelod gyda chynnig ynglŷn â'r 'Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion': Wardiau AmlAelod', a gynhwysir yn Adran 5.3.6 y Protocol Perthynas ar gyfer Aelodau a Swyddogion.

Cafodd copi o'r drafft newydd o'r Protocol Perthynas ar gyfer Aelodau a Swyddogion ei gylchredeg yn y cyfarfod ac roedd yn cynnwys:-

*Ychwanegiad i 5.3.17 i ddilyn o'r geiriau sydd eisoes yno fel bod 17.5 llawn yn darllen fel a ganlyn:-*

*'Os bydd Swyddog yn torri'r Protocol hwn mewn modd difrifol, gall hynny arwain at ymchwiliad dan* ***drefn disgyblu'r Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor.*** *Oni fedrir datrys y mater yn y modd a ddisgrifir yn 17.3 a 17.4 uchod gyda'r Swyddog dan sylw neu gyda Rheolwr y Swyddog neu'r*

DRAFFT

*Pennaeth Gwasanaeth priodol ac os yw'r Aelod yn dymuno parhau i wneud cwyn yn erbyn unrhyw Aelod, yna byddai unrhyw gwyn yn cael ei gwrthod oni bai ei bod ar bapur, wedi ei llofnodi a chyda thystiolaeth i'w chefnogi. Byddai disgwyl i unrhyw Aelod sydd hefyd yn Aelod o Grŵp fod wedi cael cymeradwyo'r gwyn ar bapur gan eu Harweinydd Grŵp'.*

Roedd yr Is-Gadeirydd yn pryderu rhywfaint ynghylch geiriad y Protocol uchod a chytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai gael cyfarfod gyda Swyddogion i gael geiriad priodol yn hyn o beth.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a rhoddi'r Awdurdod i'r Is-Gadeirydd gyfarfod gyda Swyddogion perthnasol i benderfynu ar eiriad priodol mewn perthynas â 17.5 uchod.**

**GWEITHREDU: Fel a nodwyd yn y penderfyniad ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau yn y cyfarfod a gynhelir ar 13 Mawrth 2013.**

**11. RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO (RHAN 4.6 Y CYFANSODDIAD), GWNEUD NEWIDIADAU YN RHAI PARHAOL**

Cyflwynwyd er gwybodaeth - adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol ynghylch gwneud newidiadau i Adran 4.6 y Cyfansoddiad sef Rheolau Gweithdrefn Cynllunio yn rhai parhaol yn dilyn cyfnod arbrofol o 12 mis. Roedd copi o benderfyniad y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2012 a phenderfyniad y Cyngor llawn a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2012 ynghlwm er gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau a nodwyd y byddai cyfnod arbrofol pellach o 12 mis yn cychwyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim.**

**MR. MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

DRAFT

This page is intentionally left blank

PAPUR / ENCLOSURE
B

CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | Pwyllgor Safonau |
| DYDDIAD: | 13 Mawrth 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Adrodd ar gyhoeddi Cofrestrau Statudol ar-lein |
| ADRODDIAD GAN: | Arweinydd Tîm Gwasanaethau Ar-linell |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor |

1. Cofrestr Safonol o Ddiddordebau a Chofrestr o Roddion a Lletygarwch

   Bydd y Gofrestr o Roddion a Lletygarwch ar gael ar-lein o 1 Mawrth 2013. Bydd yr holl eitemau a ychwanegir at y Gofrestr ysgrifenedig hefyd yn cael eu hychwanegu at y system Modern.Gov a byddant ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

   Mae'r Gofrestr Safonol o Ddiddordebau wedi bod ar gael ar-lein trwy'r system e-ddemocratiaeth Modern.Gov newydd ers dechrau Ionawr 2013. O fis Mai-Mehefin 2013, bydd yr holl aelodau etholedig newydd yn cael hyfforddiant ar sut i ddiweddaru'r fersiwn ar-lein. Bydd y cyfieithiad(Cymraeg neu'r Saesneg) yn cael ei roi i mewn gan y Cynorthwy-ydd Gweinyddol, Gwasanaethau Pwyllgor.

2. Cofrestr o Ddiddordebau a Ddatganwyd mewn Cyfarfodydd

   Mae'r elfennau rhaglen a phapurau pwyllgor o'r system Modern.Gov newydd wedi bod yn weithredol ers cychwyn mis Ionawr, ac maent wedi bod yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd ers hynny. Mae'r Gofrestr o Ddiddordebau a ddatgelir mewn Cyfarfodydd yn cael ei chyhoeddi trwy'r system Modern.Gov newydd fel y mae ar hyn o bryd h.y. mae nodyn yn cael ei ychwanegu at y cofnodion yn dweud bod datganiad o ddiddordeb wedi ei wneud a'i gofnodi.

   Yn ogystal, mae'r holl ddiddordebau sy'n cael eu datgan mewn cyfarfodydd yn cael eu rhoi i mewn i'r system Modern.Gov ar wahân fel bod modd i'r cyhoedd chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb a wnaed gan aelodau unigol mewn unrhyw Bwyllgor, ar unrhyw ddyddiad. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhoi i mewn gan y Swyddogion Pwyllgor, Gwasanaethau Pwyllgor.

3. Hyfforddiant i Aelodau

   Bydd y Gwasanaethau Adnoddau Dynol yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth TGCh i roi hyfforddiant, yn dibynnu ar yr adnoddau fydd ar gael, i bob aelod etholedig ar ôl etholiad llywodraeth leol Mai 2013 fel rhan o'u rhaglen hyfforddi ar gyfer 2012/13.

CC-013260-LB/123618

PAPUR / ENCLOSURE
C

# Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 13 Mawrth 2013 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Prosiect Rheoli Cwynion |
| **Adroddiad gan:** | Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor am statws cyfredol y Prosiect Rheoli Cwynion |

1. Cyflwynwyd y Polisi Pryderon a Chwynion i'r Pwyllgor Gwaith ar 19.11.12. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith fabwysiadu'r Polisi a'r Polisi Camau Annerbyniol gan Achwynydd a chymeradwywyd y dyddiad gweithredu o 1 Ebrill 2013.

2. Cyflwynir adroddiad i'r Cyngor Sir ar 5 Mawrth 2013 yn gofyn iddo gymeradwyo a mabwysiadu'r ddau Bolisi yn ffurfiol. Mae'r Adroddiad ynghlwm er gwybodaeth. **(Atodiad 1).**

3. Mae gwaith wedi ei gwblhau neu'n parhau er mwyn rhoi sylw i'r materion isod, a hynny er mwyn sicrhau bod popeth yn barod ar gyfer y dyddiad gweithredu:-

   - Mae'r staff perthnasol wedi eu nodi a threfnwyd sesiynau hyfforddi.
   - Mae'r gwasanaeth TG yn gweithio ar system gofnodi gyffredin ar gyfer y Cyngor cyfan.

4. Rhan olaf y cynllun prosiect yw mabwysiadu 'Polisi Cyfeirio' a fydd yn hwyluso mynediad i wybodaeth ar gyfer Aelodau mewn da bryd ar gyfer y Cyngor newydd ym Mai 2013.

5. Mae Gweithgor Swyddogion Cwynion Corfforaethol Cymru Gyfan hefyd wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf a bu'n gyfarfod buddiol a difyr gyda chynrychiolwyr o 13 o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn bresennol. Mae Cofnodion y cyfarfod hwnnw ynghlwm er gwybodaeth. **(Atodiad 2- saesneg yn unig).**

6. Cyflwynir adroddiad ar weithredu'r polisi newydd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.

# ATODIAD / APPENDIX 1

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad** | **19 TACHWEDD 2012 A 5 MAWRTH 2013** |
| **Pwnc** | **Polisi Pryderon a Chwynion** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y Cynghorydd John Chorlton** |
| **Swyddog Arweiniol** | **Lynn Ball – Pennaeth Adnoddau (Cyfreithiol a Gweinyddol – Swyddog Monitro)** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Beryl Jones, Swyddog Gofal Cwsmer (Ffôn 01248 752588 )** |
| **Natur a rheswm am adrodd:**<br><br>Gofynnir i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r argymhelliad gan y Pwyllgor Gwaith ar 19.11.12 bod y Polisi Pryderon a Chwynion a'r Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr yn cael eu mabwysiadu gyda'r dyddiad cychwyn o 1af Ebrill, 2013 | |

| **A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw** |
|---|
| Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith 19.11.12 ( Wedi ei atodi)<br><br>Cyflwynwyd y Polisi newydd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012 a bu i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu:-<br><br>" Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir:-<br><br>• Ei fod yn mabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion newydd ynghyd â'r Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr;<br><br>• Bod y dyddiad cychwyn sef 1 Ebrill 2013 yn cael ei gymeradwyo<br><br>Rheswm dros y Penderfyniad<br><br>Cydymffurfio gyda chynnig Llywodraeth Cymru i ddatblygu system gyffredin ar gyfer ymdrin â chwynion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. " |

| **B – Ystyriaethau** |
|---|
| Gweler yr adroddiad atodol |

| **C – Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae gweinyddiaeth gorfforaethol y Polisi wedi ei leoli o fewn yr Adain yma |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Trafodaethau wedi cychwyn o ran rhaglen hyfforddiant ar gyfer swyddogion perthnasol |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo** | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu(TGCh)** | Trafodaethau wedi cychwyn o ran system recordio gyffredin |
| 6 | **Cydraddoldeb** | Hyn wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** | |
| 8 | **Cyfathrebu** | Bydd cyhoeddusrwydd eang i'r polisi i gyd fynd a'r dyddiad cychwyn |
| 9 | **Ymgynghori** | Mae ymgynghoriad mewnol ar y ddau bolisi drafft wedi digwydd ac mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y dogfennau atodol |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol** | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

| **CH – Crynodeb** |
|---|
| Mae Llywodraeth Cymru yn annog yn gryf i bob darparwr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion er mwyn unioni profiad y cyhoedd o ddelio â chwynion |

| D – Argymhelliad |
|---|
| Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion, ynghyd a'r Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr, gyda dyddiad cychwyn o 1af Ebrill, 2013. |

**Enw awdur yr adroddiad: Beryl Jones**
**Swydd: Swyddog Gofal Cwsmer**
**Dyddiad: 11.02.13**

| Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Polisi Pryderon a Chwynion<br>Atodiad 2 - Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr. |

| Papurau cefndir |
|---|
| Dim |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Y Pwyllgor Gwaith |
| **DYDDIAD:** | 19 Tachwedd 2012 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Polisi Pryderon a Chwynion |
| **ADRODDIAD GAN:** | Beryl Jones<br>Swyddog Cwynion Corfforaethol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cymeradwyo Polisi Cwynion Corfforaethol newydd |

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Yn 2009, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru (LlC) Weithgor Cwynion Cymru yn cael ei gadeirio gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Gofynnwyd i'r Grŵp ddatblygu cynnig i sicrhau system gyffredin ar gyfer ymdrin â chwynion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2010 yn dweud bod Polisi wedi cael ei lunio ac wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a'i argymell i bob darparwr gwasanaeth cyhoeddus, ac a oedd yn eu hannog i ystyried ei ddefnyddio fel sail ar gyfer gweithdrefn gwynion: "yn agored ac ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth; wedi ei ddylunio i ddelio gyda chwynion yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, ac yn defnyddio'r canlyniadau, a'r hyn a ddysgwyd, o ddatrys cwynion i roi gwybodaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel yn seiliedig ar y dinesydd."

## 2. Y Polisi Newydd

2.1 Yng ngoleuni'r argymhelliad cryf hwn, gofynnir i'r Cyngor yn awr fabwysiadu Polisi newydd, yn seiliedig ar y model a awgrymir. Y prif wahaniaethau rhwng Polisi cyfredol y Cyngor a'r Polisi newydd arfaethedig yw :-

- Pwyslais ar ofal y cwsmer
- Cofnodi POB pryder yn systematig (ac nid ond cwynion yn unig)
- Datrysiad cynnar, yn cynnwys unioni (iawndal)
- Taflen Wybodaeth Safonol a Ffurflen Gwynion i'r cyhoedd
- Asesu a blaenoriaethu cwynion
- Gofynion ymchwilio newydd
- Adrodd ar lefel uchel i'r Pwyllgor Gwaith a'r TUA
- Yn dangos gwersi a ddysgwyd a gwelliannau a weithredwyd
- Dim proses apêl fewnol / dim rôl weithredol i Aelodau
- Yr angen i'r Cyngor fabwysiadu Polisi " Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr".

## 3. Ymgynghori Mewnol

3.1 Anfonwyd y Polisi drafft "Pryderon a Chwynion" a'r Polisi " Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr" i Gyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth ar gyfer ymgynghori ar 26.9.12 ac y mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y dogfennau yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yr Adroddiad hwn.

## 4. Y Polisi Newydd

**4.1 Mae'r Polisi newydd mewn 2 ran :-**

- Bydd **Rhan 1** yn cael ei ddosbarthu i'r cyhoedd, ac fe ddylai fod yn safonol ar draws Cymru gyfan, ac eithrio ei fod yn adlewyrchu natur y darparwr gwasanaeth.

- Mae **Rhan 2** yn gyfarwyddyd ac fe all pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus deilwra eu Polisi yn unol â maint a gofynion gweithredol y sefydliad ar yr amod na fydd hyn yn cael effaith ar brofiad y cyhoedd o

ddelio â chwynion - “fe ddylai elfennau fel y ffurflen, cyfnodau amser a nifer y cyfnodau fod yn gyson i bawb”.

## 4.2 Yr Agwedd Newydd

**Cam 1 – Datrysiad Anffurfiol**

- Mae’r cam hwn yn cynnig cyfle i gael ymgysylltiad anffurfiol yn y lle y mae’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu er mwyn ceisio datrys cwynion, naill ai ar yr amser y mae’r pryder yn codi neu’n fuan iawn wedi hynny. Fe ddylai’r cam hwn fod yn rhan o ddarparu gwasanaeth ar y rheng flaen fel na fydd yn cael ei weld fel cam ar wahân. Bydd y cam hwn fel arfer ar ffurf eglurhad neu gymryd camau priodol eraill i ddatrys pethau, gan staff rheng flaen.

- Fe ddylai’r cam datrysiad anffurfiol gael ei wneud mor fuan ag sy’n bosibl ac yn sicr ni ddylai gymryd mwy na 10 niwrnod gwaith. Os nad yw’n bosibl datrys y pryder o fewn y cyfnod amser hwnnw, yna fe ddylid mynd â’r mater i’r cam ymchwiliad ffurfiol.

**Cam 2 – Ymchwiliad Mewnol Ffurfiol**

- “Ymchwiliwch unwaith, ymchwiliwch yn dda” yw’r egwyddor ar gyfer y cam hwn o’r broses. Rhoddir pwyslais ar un ymchwiliad i ddelio’n drwyadl gyda’r pryderon a godwyd, yn hytrach na nifer o ymchwiliadau ar wahanol lefelau yn y sefydliad, all olygu ymchwiliadau hir ac, weithiau, pen agored.

- Fodd bynnag, bwriadwyd yr elfen Cam 2 o’r broses i fod yn hyblyg ac i ymateb yn briodol i’r gwyn. Mae “Ymchwilio’n dda” hefyd yn golygu cynnal ymchwiliad mewn dull sy’n gymesur â natur a gradd difrifoldeb y gŵyn. Mae cymesur yn golygu – yn achos cwynion llai difrifol - na fydd angen efallai i’r ymchwiliad fod mor fanwl / gynhwysfawr.

## 5. Y Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr

Cyfeiriwyd y Polisi tuag at yr achwynwyr y mae eu hymddygiad yn annerbyniol. Nid oes gan y Cyngor unrhyw bolisi cyfatebol ar hyn o bryd.

Mae'r polisi newydd hwn yn diffinio'r mathau o ymddygiad y bernir eu bod yn annerbyniol ac mae'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â sut y byddir yn rheoli'r ymddygiadau hyn.

## 6. Y Ffordd Ymlaen

Fel y gall y Polisi newydd gael ei gyflwyno'n effeithiol, rhaid i'r camau gweithredu canlynol gael eu cwblhau gan yr holl Wasanaethau :-

1. Nodi staff rheng flaen fydd angen derbyn hyfforddiant ar y Polisi newydd
2. Nodi'r aelodau staff fydd yn cael eu hyfforddi i fod yn ymchwilwyr.
3. Cysylltu gyda'r Swyddog Hyfforddi a Datblygu i drefnu hyfforddiant.
4. Cysylltu gyda'r Gwasanaeth TGCh er mwyn sicrhau bod yna system ddigonol yn ei lle i fedru cofnodi'r holl bryderon.
5. Sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer arwyddbostio fel bod aelodau'n gwybod pwy i gysylltu â nhw er mwyn cael cymorth gydag ymholiadau gan etholwyr.
6. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Polisi newydd (yn gorfforaethol).

## 7. Gweithredu

Er mwyn caniatáu amser i gwblhau camau 1 i 6, awgrymir y dylid nodi 1 Ebrill 2013 fel y dyddiad gweithredu.

**Argymhellion :-**

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell a bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion a hefyd y Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr.
2. Bod y dyddiad cychwyn, sef 1 Ebrill 2013 yn cael ei gymeradwyo.

ATODIAD / APPENDIX 2

**All Wales Corporate Complaints Officers Working Group**

**Minutes of meeting held on 19 November 2012**

**(Held at MRC, Llandrindod Wells)**

---

| Item | Action | By |
|---|---|---|
| 1. **Welcome and Introductions** | **13 Local Authorities attended, represented by 16 officers, as set out below:**<br><br>Anglesey – Beryl Jones<br>Ceredigion – Carys Hughes<br>Conwy – Jan Manley<br>Monmouthshire – Annette Evans<br>Neath Port Talbot – Karen Jackson and Catherine Gadd<br>Newport – Kit Wilson<br>Pembrokeshire – Emily Sheen<br>Powys – Julie Nicholas-Humphreys<br>Rhondda Cynon Taff – Sarah Jones and Chris Macey<br>Swansea – Andrew Taylor and Huw Evans<br>Torfaen – Caron Davies<br>Vale of Glamorgan – Eira Carroll<br>Wrexham – Ian Downward<br><br>As it was the first meeting of the Working Group everyone introduced themselves. | |
| 2. **Apologies for absence** | **Apologies:**<br><br>Blaenau Gwent – Angela O'Leary and Audra Williams<br>Bridgend – Charlotte Branford<br>Caerphilly – Karen Williams and Gail Williams<br>Cardiff – Clare Taggart<br>Carmarthenshire - Catherine Evans<br>Conwy – David Smith<br>Denbighshire – John Ll Williams and Steve Goodrum<br>Flintshire – Jenni Griffiths<br>Gwynedd – Sion Huws<br>Merthyr – Bernadette Jenkins<br>Pembrokeshire – John Roberts<br>Vale of Glamorgan – Tony Curliss<br>Wrexham – Lisa Vaughan | |
| 3. **Appointment of Chair and Vice-Chair until April 2013** | **The Working Group agreed to the following appointments until April 2013:**<br><br>**Eira Carroll (Vale of Glamorgan) – Chair**<br>**Julie Nicholas-Humphreys (Powys) – Vice Chair** | |

| | | |
|---|---|---|
| **4. Background – Customer Focus Wales and setting up of this Sub Group** | EC (Chair/VOG) tabled the Terms of Reference for the Customer Focus Wales Group (CFWG), as some members of the Working Group had not heard of CFWG, and questioned its remit.<br><br>CFWG decided to set up this Working Group as one of its sub groups as Corporate Complaints was falling under the remit of some (not all) Customer Services areas and it was identified as part of the work programme in March 2012.<br><br>KW (Newport) and JNH (Vice Chair/Powys) were also members of the CFWG and they spoke briefly about the remit of the CFWG, which met on a quarterly basis. Two Sub Groups, in addition to this Working Group, had already been established and they were Web Group Wales and an Operations Group. SJ (RCT) also attended the CFWG.<br><br>JNH said that she would arrange for a list of representatives on the CFWG to be circulated.<br><br>It was noted that other Working Groups existed which had complaints/maladministration within their remit, eg Monitoring Officers Group and Social Care Complaints Group. It was agreed it would be helpful to make contact with the Chairs of these Groups to advise them of the work that this Working Group would be doing. | **JNH to provide a list of LA representatives on CFWG to all members**<br><br>**EC to make contact with Chairs** |
| **5. Draft Terms of Reference – for approval** | EC (Chair/VOG) submitted the draft Terms of Reference for this Working Group. A detailed discussion was held suggesting amendments. **The revised document is attached at Appendix 1 to these Minutes.**<br><br>It was noted that a North Wales Complaints Officers Group already existed.<br><br>AT and HE (Swansea); KW (Newport) and JNH (Vice Chair/Powys) said that they supported the setting up of a South Wales Corporate Complaints Officers' Working Group. EC mentioned that a number of South Wales Local Authorities were not present – however she would make contact with them to see if they would like to join.<br><br>**It was agreed that it would be useful to share certain documents (eg Letter Templates; Staff Guidance; Policies) between members of the Working Group. JNH (Vice Chair/Powys) said she could establish a shared site on the Knowledge Hub, where members of the Working Group could have access.** | **EC to update TOR and circulate to members for final approval**<br><br>**EC to make contact with South Wales LA contacts regarding a South Wales Group**<br><br>**JNH to look into establishing a shared site on the Knowledge Hub for this Working Group** |
| **6. Model Concerns and Complaints Policy and Guidance for** | EC (Chair/VOG) tabled a sheet which summarised which Local Authorities had adopted the Model Concerns and Complaints Policy and Guidance. Members who were present gave an update as to when they were due to adopt the Model Policy. **A revised sheet is attached at Appendix 2 to these Minutes.** | **EC to update sheet and circulate with Minutes** |

| | | |
|---|---|---|
| **Public Service Wales** | KW (Newport) updated the Working Group on the work he did in Newport when they adopted the 2 Stage All Wales Model Concerns Policy and Guidance in April 2011. (This was prior to the Welsh Government publishing the Policy/Guidance in July/August 2011.)<br><br>KW said that they had kept the Policy very short and put more detail in the Staff Guidance. There is central recording of all complaints using the Oracle CRM system. There were 2/3 complaint coordinators in each service who were trained in putting complaints on the CRM system. There were no hard copy complaint letters/documents – everything was electronically stored on CRM. In the first quarter (April to June 2011) there were hardly any complaints recorded however the numbers increased as people became aware of the Policy and their responsibilities to record complaints.<br><br>KW wrote a report to Cabinet in April 2012 which analysed the complaints over the previous year, it also included lessons learned.<br><br>KW said that Newport had been one of the highest local authorities in Wales for complainants to make contact with the Ombudsman. In 2011/12 it was the second lowest for Ombudsman contacts. This improvement was, in KW's view, down to the adoption of the new Model Concerns Policy.<br><br>KW explained the process followed at Stage 1 and Stage 2. In the first 6 months only 9 complaints went to Stage 2. All Stage 2 complaints go via KW and he decides who will investigate. Usually it is the Head of Service however if it is very serious and relates to eg fraud or harassment; or the complainant did not wish the service to be involved and KW supported this position it would be an independent manager of the service or a Director.<br><br>KW said that Complaints are monitored and managed correctly in Newport. Letter templates are also used. KW said that compliments had also been included in his Policy and this had been welcomed by services, such as Registrars.<br><br>**KW said he would circulate his Policy and Staff Guidance to members of the Working Group.**<br><br>EC thanked KW for his update.<br><br>AE (Monmouthshire) said that they included comments as part of their All Wales Model Policy.<br><br>CD (Torfaen) said they had established a Corporate Complaints e-mail box.<br><br>It was noted that some members of the Working Group did not use electronic systems to record complaints – some used excel spreadsheets.<br><br>**Some Local Authorities had included Vexatious Complaints in their All Wales Model Policy. It was agreed that members who had done so would share them with members of the Working Group.** | **KW to circulate his Policy and Staff Guidance**<br><br>**Members who had included Vexatious Complaints in their Model Policy – to circulate to all** |

| | | |
|---|---|---|
| | JNH (Vice Chair/Powys) asked whether actions had been taken under the Vexatious Complaints Policy. It was also raised in respect of FOI requests.<br><br>From discussions it appeared that there was inconsistency in legal advice. Some had said it was OK to implement the Vexatious Policy against people who submitted excessive FOI requests – others had said no – it should not be implemented.<br><br>AT (Swansea) said that his authority had been found guilty by the ICO concerning an FOI request.<br><br>**It was agreed that representatives from the Information Commissioner's Office and the Public Services Ombudsman for Wales should be invited to a future meeting of the Working Group to discuss Vexatious Policies and FOI requests.**<br><br>A discussion was held on the categories/subjects of complaints referred to in the Model Concerns and Complaints Policy and Guidance. One person said it was difficult to comply with it given their in-house database which used their internal categorisation – another said it used the Local Government Service list and that was replicated on their website. One person said they used both – her own Local Authority categorisation and the All Wales Model categories.<br><br>**It was agreed that the categories/subjects of complaints referred to in the Model Concerns and Complaints Policy and Guidance should be discussed at a future meeting and that more information should be obtained as to the timescale for reporting on the categories.** | **on Working Group**<br><br>**EC to make contact with the PSOW and ICO to invite them to a future meeting to discuss Vexatious complaints**<br><br>**EC to make contact with a representative at the Welsh Government and to include as an agenda item at a future meeting** |
| **7. Learning from Complaints and Quarterly Casebook from Public Services Ombudsman for Wales** | EC (Chair/VOG) tabled (for information) the report that Tony Curliss, Vale of Glamorgan Council (VOG), had drafted for that Council's Customer Relations Project Board. The report included the Dashboard; the Executive Summary; Statistical Commentary; What was learnt from complaints; How the service has changed and an Action Plan.<br><br>The issue of auditing when Lessons Learnt reports were produced was discussed. AT (Swansea) said that they were looking at including actions in Internal Audit Plans so that they could be monitored through this process. KW (Newport) said that Service | |

| | | |
|---|---|---|
| | Plans included information on complaints.<br><br>EC referred to the Quarterly Casebook which was produced by the Public Services Ombudsman for Wales' Office. As she was the VOG contact officer for the Ombudsman's Office she was sent a link to this document. She then circulated it to Heads of Service and Operational Managers at the VOG. The Casebook included complaints about specific service areas – however more general things such as complaints handling had been included in the most recent Casebook (Issue 10). | |
| **8. Survey of Complainants and collection of information eg Protected Characteristics** | EC (Chair/VOG) asked whether any local authorities surveyed complainants.<br><br>Those present said that they did not currently. However AT and HE (Swansea) said that they had previously but had stopped because people found it difficult to distinguish between the outcome and the way their complaint had been dealt with. EC said that this had been found in VOG when surveys had been sent out in the past.<br><br>CD (Torfaen) said that Social Care in her local authority did not survey complainants anymore as there was no value in it.<br><br>It was reported that the North Wales Complaints Officers Group had considered at their last meeting whether to survey complainants and to do the exercise jointly. However when it was looked in to they had decided not to do so as the benefit did not outweigh the cost. However JM (Conwy) said that their Local Authority was looking to Customer Service Excellence as a whole rather than concentrating solely on complainants.<br><br>EC asked whether members obtained Equality information on Protected Characteristics, ie Age, Disability, Gender Reassignment, Pregnancy and Maternity, Race, Religion or Belief, Sex and Sexual Orientation in respect of complainants.<br><br>JNH (Vice Chair/Powys) said that Powys included Equality Monitoring Information as part of their Customer Satisfaction Survey of people who telephoned or had face to face contact. (However information on Protected Characteristics was not asked.) 150 people per month were contacted by post.<br><br>ID (Wrexham) said that a questionnaire requesting details of Protected Characteristics was sent out to complainants at the beginning of the Stage 1 process by letter. (It was sent with the acknowledgment letter.) In addition the letter also asked them to identify any specific needs.<br><br>KJ and CG (Neath Port Talbot) said that Equality Monitoring forms were sent out by complaints officers at Stage 2. It was available in hard copy and a return envelope was provided. The return rate was approximately 15%. | |
| **9. Remedies and Compensation** | EC (Chair/VOG) asked whether any local authorities paid complainants money or offered gifts for "time and trouble".<br><br>HE (Swansea) recalled a letter from the Public Services Ombudsman | |

| | | |
|---|---|---|
| | for Wales which referred to payment of £50 per month of delay. He also mentioned flowers being given. In Swansea it was the Head of Service who decided whether the payment should be made – this was based on clear rationale; detriment was also considered.<br><br>ES (Pembrokeshire) said that a payment of £150 for goodwill had been made.<br><br>EC referred to payment of £300 for time and trouble and upset to a complainant recently.<br><br>(It was noted that Compensation is different from goodwill.)<br><br>HE suggested that Remedies and Compensation be discussed at the next meeting of the Working Group in April 2013. **It was agreed that everyone should bring examples of when payment was made for time and trouble. In addition examples when compensation was paid. The Ombudsman's representative could be asked to attend to give a view and guidance.**<br><br>**EC said that she would check whether the Ombudsman published any guidance on the payment of remedies**.<br><br>It was noted that the Public Services Ombudsman for Wales published a document "Principles for Remedy" but it did not include monetary amounts. | **EC to include item on next agenda on Remedies and Compensation**<br><br>**All to bring examples**<br><br>**EC to invite a representative of the PSOW to attend to discuss**<br><br>**EC to check whether guidance published** |
| **10. Benchmarking and Best Practice** | EC (Chair/VOG) asked for suggestions on what information could be used for Benchmarking.<br><br>JM (Conwy) said that the North Wales Complaints Officers Group already collated benchmarking information. However some Local Authorities were not able to provide information on all of them, due to for example, the way complaints were recorded.<br><br>JM reported that in 2011/12 Conwy had received 575 complaints; Flintshire 617 and Anglesey 72. (These figures excluded Social Services Complaints.)<br><br>**JM agreed to circulate the Benchmarking form which was used by the North Wales Complaints Officers to members of the Working Group.**<br><br>**It was agreed that Benchmarking information should be considered at the next meeting in April 2013.** | **JM to circulate Benchmarking information**<br><br>**EC to add item to agenda for meeting in April 2013** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **11. Roles and Responsibilities of Corporate Complaints Officers** | EC (Chair/VOG) asked whether those present would be willing to share information on the roles and responsibilities of Corporate Complaints Officers. This could include salaries and grades. This would be for information purposes only.<br><br>HE (Swansea) said that it would be helpful to exchange information on Job Descriptions and Person Specifications. Management Structures would also be helpful. He was not sure that salaries and grades would be as useful.<br><br>**It was agreed that information would be exchanged on Job Descriptions and Person Specifications. If people wanted to include grades/salaries – this was voluntary.** | **All to share Job Descriptions and Person Specifications** |
| **12. Meeting Review** | EC (Chair/VOG) asked for feedback on the meeting and whether it had been useful and worthwhile in attending.<br><br>Overall those present thought that the meeting had been worthwhile and that it would be useful to have a more consistent approach to Corporate Complaints in Wales. It was also important to share best practice and establish benchmarking, provide support and have a forum at which to network | |
| **13. Any other Business** | None were raised. | |
| **14. Date of next Meetings** | April 2013 and September 2013<br><br>Venue to be MRC – Llandrindod Wells | **EC to book – on a Tuesday or Wednesday if possible**<br><br>**EC to confirm dates once booked** |

PAPUR / ENCLOSURE
CH

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN – MAI 2008 YMLAEN**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – MAY 2008 ONWARDS**

**DIWEDDARIAD / UPDATED– 22 Chwefror 2013 /22 February 2013**

**(diweddariad diwethaf / last update 30.11.12)**

**Pwyllgor Safonau – 13.03.13 – Standards Committee**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Short Description of Complaint** | **Adrannau'r Côd**<br><br>**Sections of the Code** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** | **Datblygiad Pellach**<br>**Further Development** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Sir / County Councillor<br><br>Newydd/New | Cyngor Tref / Town Council | (i) 016628<br>(ii) 201203508 | 19.12.12 | Trafod cais cynllunio gyda cwmni ac yn mynychu cyfarfod o'r pwyllgor cynllunio / Discussing a planning application and being present in the planning committee meeting | Ni adnabuwyd unrhyw adran o'r cod / no section of the code identified | 28.01.13 – ddim yn ymchwilio/ not investigating | Wedi cau / Closed |
| 2. Cynghorydd Sir / County Councillor<br><br>Newydd/New | Aelod o'r cyhoedd/ Member of the public | (i) 016671<br>(ii) 4020/201203920 | 15.01.13 | Camarwain, anwybyddu barn a theimladau'r etholaeth / misleading, ignoring the feelings and opinions of constituents | 1.3 o'r Cyfansoddiad / 1.3 of the Constitution | 12.02.13 – ddim yn ymchwilio/ not investigating | Wedi cau / Closed |
| 3. Cynghorydd Sir / County Councillor<br><br>Newydd/New | Aelod o'r cyhoedd/ Member of the public | (i) 016752<br>(ii) 201204406 | 13.02.13 | Peidio dangos parch ar eraill ac ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod / Failing to show respect for other and conduct likely to bring office or authority into disrepute | Rhan / section 4(b),6(1a) | 21.02.13 – yr "O" am ymchwilio/ the "O" to investigate | |

PAPUR / ENCLOSURE D

## CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF

## COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS
**Diweddariad – Chwefror 2013 / Update February 2013**

### Pwyllgor Safonau- 13.3.13.– Standards Committee

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference (i) Un ni/Ours (ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Short Description of Complaint** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** | **Datblygiad Pellach**<br>**Further Development** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymunedol / Community Councillor<br><br>Penmynydd & Star | Aelodau o'r Cyhoedd x 5 /<br><br>Members of the Public x 5 | 015776- RMJ<br>201102856<br><br>015775 – RMJ<br>201102868<br><br>015777-RMJ<br>201102860<br>201103060<br>201103282 | 29.12.11<br><br>29.12.11<br><br>30.12.11<br>09.01.12<br>26.01.12 | Methiant i ddatgan diddordeb mewn cais cynllunio ac wedi cymryd rhan yn y drafodaeth.<br><br>Failure to declare an interest in a planning application and actively took part in the discussion | Cyfarfod arbennig o'r Pwllgor Safonau 7.3.13<br><br>Special meeting of the Standards Committee 7.3.13 | |
| Cynghorydd Cymunedol / Community Councillor<br><br>Llanfaelog | Aelod o'r Cyngor Cymunedol x 5 / Member of the Community Council x 5 | 016435 – BJ<br>201201908<br>016436 – BJ<br>201201909<br>014647 – BJ<br>201201910<br>016438 – BJ<br>201201911<br>016439 – BJ<br>201201913 | 18.09.12 | Defnyddio iaith ddifrïol ac ymddygiad ymosodol mewn cyfarfod o'r cyngor<br><br>Abusive language and aggressive behaviour in a council meeting | **11.10.12 –** llythyr gan yr "O" – ym mynd I ymchwilio.<br><br>**11.10.12** – letter from the "O" – going to investigate | Parhaus / Ongoing |

PAPUR / ENCLOSURE
DD

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 13 Mawrth 2013 |
| **Teitl yr Adroddiad** | Canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru 1 Ebrill 2011 i 21 Chwefror 2013 |
| **Adroddiad Gan** | Swyddog Gofal Cwsmer |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | Rhoi gwybodaeth am rai o'r materion y deliodd Panel Dyfarnu Cymru â hwy |

**1.0 Cyflwyniad a Chefndir**

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac y mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu achosion dros dro i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio gyda chôd ymddygiad ei awdurdod; ac
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdod lleol eu bod wedi torri'r côd ymddygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r penderfyniadau wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 1 Ebrill 2011 a 21 Chwefror 2013 ac fe'i bwriadwyd fel crynodeb ffeithiol o'r materion sy'n dod gerbron y Panel Dyfarnu. Ni fydd yn cymryd lle'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor pan fydd cwyn yn ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn wedi bod gerbron y Panel Dyfarnu.

**2.0 Penderfyniadau wnaed rhwng 1.4.11 a dyddiad yr adroddiad hwn**

Dim materion newydd wedi ymddangos ar y Wefan ac felly, does dim i'w ychwanegu at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr.

PAPUR / ENCLOSURE E

# CYNHADLEDD SAFONAU 2013

## Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau

### Rhaglen y Gynhadledd

**VENUE CYMRU LLANDUDNO – 19 EBRILL 2013**

| | |
|---|---|
| 10.00 – 10.30 | Cofrestru a Tê/Coffi |
| 10.30 – 10.45 | Croeso a chyflwyno – Dilys Phillips. Cadeirydd ACSeS |
| 10.45 – 11.30 | Sesiwn lawn 1 – Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| 11.30 – 11.45 | Tê/Coffi |
| 11.45 – 12.45 | Sesiwn Gweithdy 1:<br>1A. Hyrwyddo safonau yn rhagweithiol - Gwynedd<br>1B. Cynnal gwrandawiadau a chosbau –Dinbych a Conwy<br>1C. Cofrestru buddiannau a gollyngiadau – Ynys Môn a Fflint |
| 12.45 – 13.45 | Cinio. |
| 13.45 – 14.30 | Sesiwn lawn 2 – Trefn Datrys Leol<br>Daniel Hurford, CLILC<br>Dilys Phillips, Gwynedd<br>Rod Jones, Abertawe |
| 14.30 – 14.45 | Tê/Coffi |
| 14.45 – 15.45 | Sesiwn Gweithdy 2:<br>2A. Hyrwyddo safonau yn rhagweithiol - Gwynedd<br>2B. Cynnal gwrandawiadau a chosbau –Dinbych a Conwy<br>2C. Safonau i gynghorau tref a chymuned ac awdurdodau pwrpas sengl - Wrexham a Pharc Cenedlaethol Eryri |
| 15.45 – 16.00 | Sylwadau i gloi – Howie Roberts,<br>Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru |

Cynhadledd Safonau Cymru 2013 / Standards Conference Wales 2013

19/4/2013

Rhestr Enwebedig / Nominee List

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council

Lynn Ball, Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol/Swyddog Monitro / *Head of Function Legal and Administration/Monitoring Officer*

Mike Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau / *Chair of the Standards Committee*

Islwyn Jones, Is-gadeirydd Pwyllgor Safonau / *Vice Chair of the Standards Committee*

Leslie Lord, Aelod Lleyg y Pwyllgor Safonau / *Independent Member Standards Committee*

Cynghorydd Cymuned / *Community Councillor* John Roberts

This page is intentionally left blank

# PAPUR / ENCLOSURE F

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Y PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad** | **18 CHWEFROR 2013 A 5 MAWRTH 2013** |
| **Pwnc** | **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **SWYDDOG MONITRO** |
| **Swyddog Cyswllt** | **SWYDDOG MONITRO** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Mae angen i'r Pwyllgor Gwaith ystyried unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad a rhaid i'r Cyngor eu cymeradwyo.

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

Saith o newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad i ddod i rym ar unwaith ar ôl yr etholiad.

**B - Ystyriaethau**

Cyfuniad o:-

- Diwygiadau 1, 6 a 7 i gefnogi llywodraethu corfforaethol a
- Diwygiadau 2 i 5 i gynorthwyo Rheolwyr i reoli beichiau gwaith ar ôl yr etholiad

**C - Goblygiadau ac Effeithiau**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Ymgynghori gyda Swyddogion perthnasol a'r holl Aelodau ar ddiwygiadau 6 a 7 - Protocol Perthynas newydd ar gyfer Aelodau a Swyddogion a Phrotocol ar gyfer Wardiau Amlaelod ac ymgynghori gyda'r Swyddogion perthnasol yn Sgriwtini, Cynllunio, Trwyddedu, Archwilio a Chyllid mewn perthynas â diwygiadau 2, 3 a 4 yn y drefn honno.<br><br>Ymgynghori gyda'r Arweinydd a chyda'r Prif Weithredwr. |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| Ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2013:-<br><br>1. Gwneud hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn orfodol |

2. Gostwng nifer y Pwyllgorau Sgriwtini o 5 i 2
3. Gostwng nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (a'r Pwyllgor Trwyddedu) o 14 i 11
4. Gostwng nifer Aelodau'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Archwilio o 10 i 8
5. Gostwng nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Gwaith o 10 i 7 (yn cynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd)
6. Adolygu'r Protocol Perthynas diwygiedig ar gyfer Aelodau a Swyddogion
7. Mabwysiadu'r protocol ar gyfer Wardiau Amlaelod

**D - Argymhelliad**

Cefnogi'r 7 newid a argymhellir.

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad** | **Lynn Ball** |
| **Swydd** | **Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddol/ Swyddog Monitro** |
| **Dyddiad** | |

**Atodiadau:**

Papur 1 – Strwythur Pwyllgorau
Papur 2 – Protocol Perthynas Drafft ar gyfer Aelodau a Swyddogion
Papur 3 – Protocol Drafft ar gyfer Wardiau Amlaelod

**Papurau Cefndirol:**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i :** | Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir |
| **Dyddiad :** | 18 Chwefror 2013 a 5 Mawrth 2013 |
| **Pwnc :** | NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL |
| **Deilydd Portffolio :** | Y Cynghorydd John Chorlton |
| **Swyddog(ion) Arweiniol :** | Swyddog Monitro |
| **Rheswm am yr adroddiad:** | GWELLA'R FFORDD Y BYDD Y CYNGOR NEWYDD YN GWEITHIO AR ÔL 2 MAI 2013 |

**CYFLWYNIAD**

Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried unrhyw newidiadau Cyfansoddiadol ac, yn ogystal, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor.

Awgrymir gwneud saith o newidiadau. Yn fras, bwriedir gwella'r ffordd y bydd y Cyngor newydd yn gweithio ar ôl 2 Mai 2013, ond yn fwyaf arbennig i ystyried y pwysau gwaith corfforaethol ar nifer lai o Aelodau.

Y newidiadau a awgrymir yw :

**GWELLIANT 1 – HYFFORDDIANT I AELODAU**

Ar 31 Hydref 2012, penderfynodd y Pwyllgor Safonau argymell i'r Cyngor bod y Côd Ymddygiad yn cael ei newid fel bod hyfforddiant ar y Côd yn hanfodol yn y ffyrdd a ganlyn:

- Y byddai angen i'r Aelodau a etholwyd i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd yn ystod y 6 mis cyntaf o dderbyn y swydd;

- Bod rhaid i unrhyw Aelod sy'n dychwelyd ac nad oedd yn Gynghorydd Sir yn union cyn yr etholiad (h.y. heb barhad mewn swydd) fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd yn y chwe mis cyntaf o dderbyn y swydd.

- Bod yn rhaid i unrhyw Aelod sy'n dychwelyd, ac a oedd yn Gynghorydd Sir yn union cyn yr etholiad, fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd yn ystod ei gyfnod/chyfnod yn y swydd.

Pe bai'r Côd Ymddygiad statudol yn cael ei newid yn sylweddol (ac nid oes dim arwydd bod hyn yn cael ei ystyried) yna byddai angen i bob Aelod fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddi ar y Côd newydd yn ystod gweddill eu tymor yn y swydd.

**ARGYMHELLIAD**

Er lles llywodraethu corfforaethol da, sicrhau bod yr Aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r Côd Ymddygiad a'u helpu i ddelio gydag unrhyw gwynion fydd yn codi dan y Côd Ymddygiad ac argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Safonau.

**<u>GWELLIANT 2</u> – PWYLLGORAU SGRIWTINI**

Ynghlwm fel "Papur 1" y mae'r Strwythur Pwyllgorau sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Bydd hyn yn rhoi i Aelodau syniad o'u pwysau gwaith corfforaethol cyfredol. At hyn, bydd gan Aelodau rôl arweiniol o fewn eu wardiau eu hunain – wardiau a fydd yn fwy, yn ogystal â chyfrifoldebau i gyrff allanol.

I gydnabod y pwysau gwaith yn hyn o beth, awgrymir, yn dilyn yr etholiad, bod y pum Pwyllgor Sgriwtini presennol yn cael eu cwtogi i ddau.

**ARGYMHELLIAD**

- Yn dilyn yr etholiad ar 2 Mai 2013, bod nifer y Pwyllgorau Sgriwtini yn cael eu cwtogi o bump i ddau.

- Enwau'r ddau Bwyllgor Sgriwtini newydd fydd – "Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol" a'r "Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth".

- Bydd y pwerau galw i mewn cyfredol yn parhau ond bydd y pwerau hynny yn cael eu rhannu rhwng y ddau Bwyllgor Sgriwtini newydd, yn hytrach na chael eu gweithredu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn unig.

- Pe bai ansicrwydd ynglŷn â pha Bwyllgor Sgriwtini yw'r un mwyaf priodol i alw unrhyw fater arbennig i mewn iddo, bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Prif Weithredwr yn dilyn derbyn cyngor gan Swyddogion perthnasol.

- Mae'r Cyngor yn awdurdodi swyddogion i lunio cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau Sgriwtini newydd. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â Chadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini cyfredol, a'r Arweinyddion Grwpiau, yn ogystal â Swyddogion perthnasol. Bydd y pwyslais ar ganiatáu yn hytrach na rhagnodi, yn generig yn hytrach nac yn benodol; mewn geiriau eraill, mor hyblyg ag sy'n bosibl.

**<u>GWELLIANT 3</u> – PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION**

Ar hyn o bryd, mae'r 14 o aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (ac felly mae'n dilyn bod 14 o aelodau ar y Pwyllgor Trwyddedu hefyd) ac awgrymir bod y nifer yn cael ei ostwng i 11 o aelodau yn dilyn yr etholiad.

**ARGYMHELLIAD**

- Yn dilyn yr etholiad ar 2 Mai 2013, bydd nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn gostwng o 14 i 11.

- Wrth cydnabod bod yn rhaid i reolau cydbwysedd gwleidyddol gael blaenoriaeth bob amser, bydd yr Arweinyddion Grwpiau (a chyfatebol ar gyfer dyrannu seddau i Aelodau digyswllt penodol) yn gwneud pob ymdrech i enwebu un aelod o bob un o'r 11 ward aml- aelod newydd.

**<u>GWELLIANT 4</u> – PWYLLGOR ARCHWILIO**

Ar hyn o bryd, mae 10 o Gynghorwyr Sir ar y Pwyllgor Archwilio a dau Aelod lleyg. Awgrymir, yn dilyn yr etholiad, bod y nifer yn gostwng i 8 o Aelodau Cyngor Sir a 2 Aelod lleyg.

**ARGYMHELLIAD**

Ar ôl Mai 2013, bod nifer Aelodau'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Archwilio yn gostwng o 10 i 8.

**<u>GWELLIANT 5</u> – Y PWYLLGOR GWAITH**

Gall y Cyngor gael Pwyllgor Gwaith ac arno ddim rhagor na 10 Aelod; i gynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.

Fodd bynnag, gan gofio am yr angen i gael llai o Aelodau i ymgymryd â swyddogaethau corfforaethol eraill, awgrymir bod nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor Gwaith yn cael ei ostwng i 7; i gynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.

**ARGYMHELLIAD**

Mewn ymateb i amgylchiadau lleol, a chan dderbyn y disgresiwn statudol a ganiateir, bydd nifer Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gostwng o 10 i 7. Bydd y nifer hwn yn cynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.

**<u>GWELLIANT 6</u> – PROTOCOL PERTHYNAS AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION**

Mae'r Protocol cyfredol yn Rhan 5 y Cyfansoddiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ailddrafftio'r Protocol i'w wneud yn fyrrach ac yn haws i Aelodau a Swyddogion ei ddefnyddio. Nid oes newidiadau o bwys i'r egwyddorion yn y ddogfen wreiddiol. Anfonwyd y Protocol drafft newydd allan i Aelodau a Swyddogion i ymgynghori arno rhwng 11 Hydref 2012 a 27 Tachwedd 2012. Ni chafwyd unrhyw newidiadau o bwys i'r drafft o ganlyniad i'r ymgynghori.

Mae "Papur 2" sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn cynnwys y fersiwn derfynol a gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r Protocol diwygiedig erbyn Mai 2013 ar gyfer ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Safonau a derbyn Protocol newydd sydd ym Mhapur 2 yr adroddiad hwn yn lle'r Protocol cyfredol.

**<u>GWELLIANT 7</u> – PROTOCOL AR GYFER WARDIAU AMLAELOD**

O ystyried y newid i wardiau amlaelod, fe baratôdd y Pwyllgor Safonau brotocol drafft ar gyfer Wardiau Amlaelod – mae'r protocol ynghlwm fel "Papur 3" i'r adroddiad hwn.

Ymgynghorwyd gydag Aelodau a Swyddogion ar y ddogfen hon rhwng 17 Rhagfyr 2012 a 31 Ionawr 2013. Ni chafwyd unrhyw newidiadau mawr i'r drafft o ganlyniad i'r ymgynghori.


Mae'r Protocol wedi ei greu i helpu Aelodau a Swyddogion ddelio gyda heriau newydd y wardiau amlaelod ond fe'i lluniwyd hefyd i fod yn ddigon eang i ganiatáu i Aelodau ddatblygu eu model gweithio eu hunain yn unol ag amgylchiadau lleol.

**ARGYMHELLIAD**

- Bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r Protocol a luniwyd gan y Pwyllgor Safonau, i ddod i rym o Mai 2013.
- Bod y Cyngor yn penderfynu a fydd y Protocol Wardiau Amlaelod yn ddogfen annibynnol sy'n sefyll ar ei phen ei hun yn Rhan 5 y Cyfansoddiad ai peidio, neu a ddylid ei chynnwys yn y Protocol Perthynas Aelodau a Swyddogion, i greu un ddogfen. Roedd y Pwyllgor Safonau yn dymuno gweld un ddogfen, ond gofynnir i Aelodau ddewis yr opsiwn y maent yn ei ffafrio.

PAPUR / ENCLOSURE
1

# Cyngor Sir Ynys Môn – Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd – Cyn Mai 2013




*Gweler hefyd restr arall o Gyrff Allanol

ANM = Nifer Gyfartalog o Gyfarfodydd y flwyddyn

PAPUR / ENCLOSURE
2

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL AR GYFER Y BERTHYNAS RHWNG AELODAU A SWYDDOGION

## MYNEGAI


**1. Rhagarweiniad**
**2. Cofnodion**
**3. Rôl yr Aelodau**
**4. Rôl Swyddogion**
**5. Y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion: Cyffredinol**
**6. Y Cyngor fel Cyflogwr**
**7. Y Cadeirydd a Swyddogion**
**8. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a Swyddogion**
**9. Aelodau'r Pwyllgorau Sgriwtini a Swyddogion**
**10. Aelodau Pwyllgorau neu Is-Bwyllgorau eraill a Swyddogion**
**11. Grwpiau Gwleidyddol a Swyddogion**
**12. Aelodau Lleol a Swyddogion**
**13. Y Berthynas gyda'r Cyfryngau**
**14. Gohebiaeth**
**15. Defnyddio Adnoddau'r Cyngor**
**16. Torri'r Protocol hwn**


DRAFT

1. **RHAGARWEINIAD**

1.1 Mae'r Cyngor yn cydsynio â'r farn na all yr un awdurdod lleol weithredu'n effeithiol heb berthynas broffesiynol dda rhwng eu Haelodau a'u Swyddogion.

1.2 Pwrpas y Protocol hwn yw llywio Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn eu perthynas gyda'i gilydd; gyda'r nod o hyrwyddo'r safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus sydd raid wrthynt ar gyfer llywodraeth leol lwyddiannus.

1.3 Mae'r Protocol hwn yn ceisio hyrwyddo mwy o eglurder a sicrwydd, gan gynnig cyngor ac arweiniad cyffredinol.

1.4 Gall torri'r Protocol hwn olygu torri Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau neu'r Côd Ymddygiad ar gyfer Swyddogion.

1.5 Mae'r Protocol hefyd yn ceisio adlewyrchu'r egwyddorion sy'n sail ar gyfer y Codau Ymddygiad perthnasol ar gyfer Aelodau a Swyddogion. Nod cyffredin y Codau hyn yw gwella a chynnal uniondeb llywodraeth leol, gan fynnu felly ar safonau uchel iawn o ymddygiad personol.

2. **COFNODION**

2.1 Rhaid i Aelodau a Swyddogion lynu wrth y Protocol hwn bob amser pan fônt yn ymwneud â'i gilydd.

2.2 Rhaid i Aelodau a Swyddogion barchu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall bob amser. Rhaid iddynt ddangos parch, trwy lynu at safonau rhesymol o gwrteisi, a thrwy beidio â cheisio cymryd mantais annheg yn rhinwedd eu swyddogaethau.

2.3 Er na fedr Aelodau a Swyddogion weithio y naill heb y llall, mae eu cyfrifoldebau yn wahanol ac ar wahân. Mae Aelodau yn atebol i'r etholwyr gan wasanaethu dim ond cyhyd ag y pery eu cyfnod yn y swydd. Mae'r Swyddogion yn atebol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ac mae eu gwaith yn cynnwys rhoi cyngor i Aelodau (yn unigol ac ar y cyd) a chyflawni gwaith y Cyngor dan gyfarwyddwyd y Cyngor ac yn unol â'u cyfrifoldebau rheolaeth llinell.

2.4 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion. Mae'r ddau yn cynrychioli gwerth gorau. Mae'r Côd ar gyfer Aelodau yn dilyn y côd cenedlaethol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau. Y rhain yw:-

- Anhunanoldeb - gan wasanaethu'r budd cyhoeddus yn unig.
- Gonestrwydd ac uniondeb - cymryd yr holl gamau rhesymol i osgoi bwrw amheuaeth ar y rhain, peidio ag ymddwyn yn amhriodol.
- Gwrthrychedd - gwneud penderfyniadau yn ôl eu haeddiant.
- Atebolrwydd – i'r cyhoedd; bod yn agored i sgriwtini.
- agoredrwydd - rhoi eglurhad a rhesymau dros benderfyniadau.
- Barn bersonol – dod i'w casgliadau eu hunain a gweithredu ar y sail honno.
- Parch tuag at eraill - hyrwyddo cydraddoldeb; osgoi rhagfarnu, parchu eraill (Aelod/Aelod, yn ogystal ag Aelod/Swyddog).
- Dyletswydd i lynu wrth y gyfraith - peidio â gweithredu yn anghyfreithlon.
- Stiwardiaeth - sicrhau defnydd doeth o adnoddau'r Cyngor.
- Arweinyddiaeth - gweithredu mewn modd sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

2.5 Rhaid i Swyddogion lynu wrth Gôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Swyddogion ac, mewn rhai achosion, wrth eu Codau Ymddygiad Proffesiynol eu hunan hefyd.

2.6 Os bydd Aelod yn torri'r Protocol hwn, gallai hynny arwain at gŵyn i



DRAFT

Ombwdsmon Gwasanaethau Gyhoeddus Cymru (OGGC) os yw'n ymddangos bod y Protocol wedi ei dorri mewn modd sy'n golygu bod y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau wedi ei dorri hefyd. Gellir delio ag achosion eraill o dorri'r Protocol, sy'n disgyn y tu allan i awdurdodaeth OGGC, dan unrhyw Brotocol Hunanreoleiddio lleol. Gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn Swyddog sy'n torri'r Protocol.

## 3. RÔL YR AELODAU

3.1 Mae gan Aelodau nifer o rolau a chyfrifoldebau a rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer gwrthdaro a fedr godi rhwng eu swyddogaethau. Yn y sefyllfaoedd hyn, argymhellir bod Aelodau yn gofyn am gyngor cyd-aelodau blaenllaw, swyddogion perthnasol ac/neu'r Swyddog Monitro.

3.2 Gyda'i gilydd, Aelodau sy'n gwneud polisïau'r Cyngor; penderfynu ar gynlluniau strategol sy'n ffurfio'r fframwaith polisi a gosod cyllideb flynyddol y Cyngor.

3.3 Mae Aelodau hefyd yn cynrychioli cymuned ehangach Ynys Môn, gan weithredu fel arweinwyr yn y gymuned i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal; yn aml mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill neu fel cynrychiolwyr ar gyrff allanol.

3.4 Mae pob Aelod yn cynrychioli budd eu wardiau etholiadol a'u hetholwyr unigol ac yn eiriolwyr drostynt. Mae Aelodau yn cynrychioli'r Cyngor yn eu wardiau, gan ymateb i bryderon a materion lleol, cyfarfod gydag asiantaethau partner a gwasanaethu ar gyrff lleol.

3.5 Mae gan rai Aelodau swyddogaethau mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgorau Rheoleiddio neu Is-Bwyllgorau a Phanelau'r Cyngor.

3.6 Gall Aelodau'r Pwyllgor Gwaith hefyd fod â phwerau dirprwyol unigol, un ai'n gyffredinol, neu ar sail ad-hoc.

3.7 Gall Aelodau'r Pwyllgor Gwaith benderfynu materion o fewn eu portffolio o gyfrifoldebau ond Swyddogion fydd yn gyfrifol am weithredu eu penderfyniadau.

3.8 Mae gan Aelodau sy'n gwasanaethu ar Bwyllgorau neu Is-Bwyllgorau gyfrifoldebau ar y cyd, e.e. penderfynu ar faterion rheoleiddiol/lled-farnwrol (h.y. penderfyniadau sy'n cael effaith ar unwaith a sylweddol ar ymgeiswyr/gwrthwynebwyr unigol ac ati) ac nad ydynt, yn unol â'r gyfraith, yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Gwaith.

3.9 Fel gwleidyddion, gall Aelodau fynegi gwerthoedd a dyheadau grŵp neu blaid wleidyddol y maent yn perthyn iddi, ond gan gydnabod bod ganddynt ddyletswydd bob amser i weithredu er budd y cyhoedd yn eu swyddogaethau fel Aelodau.

3.10 Yn eu gwahanol swyddogaethau, a ddisgrifir ym mharagraffau 3.2 i 3.9, mae ymddygiad yr Aelodau yn gosod cywair a gwerthoedd craidd y Cyngor.



DRAFT

3.11 Trwy werthuso perfformiad, gosod targedau, a rheolaeth o ddydd i ddydd, mae Swyddogion yn derbyn eu cyfarwyddiadau gan eu rheolwyr llinell. Nid oes gan Aelodau awdurdod i gyfarwyddo Swyddogion ac eithrio:

- trwy'r broses ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau;
- gofyn am ddarpariaeth o adnoddau treuliadwy a ddarperir gan y Cyngor i'w defnyddio gan Aelodau;
- lle bo staff wedi eu neilltuo'n benodol i roi cefnogaeth i Aelod neu grŵp o Aelodau.

3.12 Nid oes gan Aelodau awdurdod i gychwyn nac i ardystio trafodion ariannol, nac i wneud contract ar ran y Cyngor.

3.13 Rhaid i Aelodau osgoi cymryd camau sydd yn anghyfreithlon, yn ariannol amhriodol neu'n debygol o fod yn gamweinyddu (h.y. yn groes i bolisi neu weithdrefnau). Dan y Côd Ymddygiad, mae gan Aelodau ddyletswydd, pan fônt yn gwneud penderfyniadau, i ystyried unrhyw gyngor a ddarparwyd gan y Swyddog Arweiniol ac yn arbennig y Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.

3.14 Rhaid i Aelodau barchu didueddrwydd y Swyddogion a pheidio â gwneud dim i beryglu hynny, e.e. trwy fynnu bod Swyddog yn newid ei gyngor/chyngor proffesiynol.

3.15 Mae gan Aelodau ddyletswydd i lynu wrth y gofynion a ddisgrifir yn eu Côd Ymddygiad.

## 4. <u>RÔL SWYDDOGION</u>

4.1 Mae Swyddogion yn gyfrifol am roi cyngor i Aelodau fel bod modd iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Wrth wneud hynny, bydd Swyddogion yn cymryd yr holl ffactorau perthnasol sydd ar gael i ystyriaeth.

4.2 Dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Cyngor (gan gynnwys, fel sy'n briodol, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau), mae Swyddogion yn rheoli ac yn darparu gwasanaethau'r Cyngor o fewn y fframwaith o gyfrifoldebau a ddirprwywyd iddynt. Mae hyn yn cynnwys rheoli gweithwyr a materion gweithredol yn effeithiol.

4.3 Mae dyletswydd ar Swyddogion i weithredu penderfyniadau'r Cyngor, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau sy'n gyfreithlon, ac sydd wedi ei gymeradwyo'n briodol yn unol â gofynion y gyfraith a Chyfansoddiad y Cyngor ac sydd wedi eu cofnodi yn briodol.

4.4 Mae gan Swyddogion ddyletswydd gyfreithiol a chontractyddol i fod yn ddiduedd. Rhaid iddynt sicrhau nad yw eu safbwyntiau personol yn dylanwadu ar eu cyngor a'u barn broffesiynol.



DRAFT

4.5 Rhaid i Swyddogion gynorthwyo a chynghori pob rhan o'r Cyngor. Rhaid iddynt bob amser weithredu hyd eithaf eu gallu er budd y Cyngor fel y mynegir ym mhenderfyniadau ffurfiol y Cyngor.

4.6 Rhaid i Swyddogion fod yn ymwybodol o faterion sy'n ddadleuol, neu sy'n debygol o fod yn ddadleuol, neu faterion sy'n wleidyddol sensitif, ac yn ymwybodol hefyd o'r goblygiadau i Aelodau, y cyfryngau neu garfannau eraill o'r cyhoedd.

4.7 Mae gan Swyddogion hawl i beidio cefnogi Aelodau mewn unrhyw swyddogaeth ac eithrio eu swyddogaethau fel Aelodau, ac i beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn gyson gyda'r Protocol hwn. Yn arbennig, mae cyfyngiad statudol ar ymwneud Swyddogion â gweithgareddau gwleidyddol. Gall gweithredu'n groes i'r cyfyngiad statudol arwain at gamau disgyblu.

## 5. <u>Y BERTHYNAS RHWNG AELODAU A SWYDDOGION: CYFFREDINOL</u>

5.1 Dylai ymddygiad Aelodau a Swyddogion ennyn parch a hyder rhwng y naill a'r llall.

5.2 Yr elfennau allweddol yw cydnabod a pharchu cyfrifoldebau'r naill a'r llall. Dylai'r rhain fod wedi eu hadlewyrchu yn ymddygiad ac agwedd y naill tuag at y llall, yn gyhoeddus ac yn breifat.

5.3 Anogir cyswllt anffurfiol a chydweithredol rhwng Aelodau a Swyddogion, ond gall adnabyddiaeth bersonol ddifrodi'r berthynas, fel y gallai cysylltiad teuluol neu gysylltiad busnes.

5.4 Dylai Aelodau a Swyddogion roi gwybod i'r Swyddog Monitro, neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, am unrhyw berthynas y gellir ei hystyried yn un sy'n cael dylanwad amhriodol ar eu gwaith yn eu swyddogaethau gwahanol. Gallai perthynas o'r fath hefyd gynnwys rhywun yr ydych wedi bod mewn anghydfod â nhw, neu rywun y gellir ei ystyried y byddai o fudd i chi ei roi dan anfantais, (yn debyg i ddiffiniad yr Ombwdsmon 'rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw' yn ei Ganllawiau ar y Côd Ymddygiad.

5.5 Yn ogystal ag osgoi amhriodoldeb gwirioneddol, dylai Aelodau a Swyddogion fod yn agored bob amser am eu cydberthynas i osgoi unrhyw reswm am amheuaeth neu unrhyw ganfyddiad o ymddygiad amhriodol. Lle datgelwyd perthynas bersonol, dylai'r unigolion dan sylw osgoi sefyllfa lle gellid yn rhesymol ganfod gwrthdrawiad. Yn benodol, rhaid i Aelod beidio ag eistedd ar unrhyw gorff, neu gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad, sy'n cael effaith uniongyrchol ar y Swyddog ar sail bersonol. Sut bynnag, mae amgylchiadau o'r fath hefyd yn debygol o fod yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu dan y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

5.6. Mae Swyddogion yn gwasanaethu'r Cyngor cyfan. Mae dyletswydd arnynt i weithredu penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor ac a awdurdodwyd yn

briodol.

5.7 Mae Swyddogion yn gweithio yn ôl cyfarwyddiadau eu rheolwyr llinell, ac nid aelodau unigol. Mae'n dilyn o hynny, er y bydd Swyddogion o'r fath bob amser yn ceisio cynorthwyo Aelodau, rhaid peidio â gofyn iddynt fynd y tu draw i'r awdurdod a roddwyd iddynt gan eu rheolwyr. Ac eithrio lle mae ymholiad yn cael ei wneud i ofyn am wybodaeth ffeithiol, sef gwybodaeth y mae gan yr Aelod hawl i'w chael, dylai Aelodau, fel arfer, gyfeirio unrhyw geisiadau a phryderon i Bennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol yn y lle cyntaf.

5.8 Bydd Swyddogion yn gwneud eu gorau i ymateb yn brydlon i ymholiadau gan Aelodau. Fodd bynnag, rhaid i'r ceisiadau iddynt fod yn rhesymol. Mae eu blaenoriaethau gwaith yn cael eu gosod a'u rheoli gan eu rheolwyr. Dylai Aelodau osgoi amharu ar waith Swyddogion trwy geisio gorfodi eu blaenoriaethau eu hunain. Dylai Swyddogion roi gwybod i'w rheolydd llinell am unrhyw bryderon o'r fath.

5.9 Bydd Aelodau yn ceisio ymateb yn brydlon i ymholiadau gan Swyddogion.

5.10 Mae gan staff hawl i godi materion gyda'u Haelod lleol fel dinasyddion y Sir. Fodd bynnag, ni chânt lobïo Aelodau ar faterion cyflogaeth bersonol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod Aelodau, fel cyflogwyr a gwneuthurwyr polisi, yn cael cyngor cytbwys ac unedig o fewn fframwaith trefnus. Rhaid i Aelodau wrthod ymateb i lobïo amhriodol gan staff a rhaid hysbysu'r Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol yn y fath achosion.

5.11 Dylai Aelodau a Swyddogion barchu amser hamdden y naill a'r llall (h.y. amser y tu allan i'r Cyngor).

## 6. <u>Y CYNGOR FEL CYFLOGWR</u>

6.1 Mae Swyddogion yn cael eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

6.2 Cyfyngir swyddogaethau Aelodau i:

- penodi i uwch swyddi penodol;
- penderfynu polisïau adnoddau dynol ac amodau cyflogaeth; a
- gwrando a phenderfynu apeliadau perthnasol.

6.3 Ni chaiff Aelodau weithredu y tu allan i'r swyddogaethau hyn.

6.4 Os ydynt yn cymryd rhan mewn proses ar gyfer penodi Swyddogion, dylai Aelodau:

- gofio bod dyletswydd statudol i benodi ar sail haeddiant yn unig;
- byth â chanfasio am gefnogaeth i ymgeisydd penodol;
- peidio â chymryd rhan, neu geisio dylanwadu ar y canlyniad, os oes



DRAFT

cyswllt personol agos rhyngddynt ac un o'r ymgeiswyr;

- peidio â chael eu dylanwadu gan ystyriaethau ac eithrio haeddiant neu addasrwydd ar gyfer y swydd; a
- peidio â ffafrio ymgeisydd penodol trwy roi gwybodaeth iddynt nad yw ar gael i ymgeiswyr eraill;
- glynu wrth ofynion y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

6.5 Ni ddylai Aelod eistedd ar banel apêl os yw'r apelydd yn ffrind, yn perthyn iddo/iddi, neu yn Swyddog y mae'r Aelod yn gweithio'n agos ag ef/hi neu wedi gweithio yn agos ag ef/hi.

## 7. CADEIRYDD A SWYDDOGION

Bydd Swyddogion yn parchu Cadeirydd y Cyngor ac yn darparu cefnogaeth briodol.

## 8. AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH A SWYDDOGION

8.1 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau yn unol â'r Cyfansoddiad ac ni fyddant yn cyfarwyddo staff fel arall. Bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith.

8.2 Mae gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth (yn ogystal â'r swyddogion statudol) hawl i gyflwyno papurau i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfanrwydd neu, lle mae'n berthnasol, i Aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith i'w hystyried cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

8.3 Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno ar ddulliau hwylus o gyswllt rheolaidd. Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol, bydd y Pwyllgor Gwaith yn gofyn am gyngor proffesiynol priodol gan gynnwys, yn ddieithriad, cyngor y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 ac ni fydd yn cyfarwyddo Swyddogion ynglŷn â sut i lunio argymhellion.

8.4 Cyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol a chanddynt oblygiadau ariannol, rhaid ymgynghori gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol/Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth/Gwasanaethau dan sylw. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y Swyddogion sy'n dal cyllidebau:

- yn ymwybodol o'r penderfyniad arfaethedig;
- yn cael cyfle i gynnig cyngor; a
- yn gallu awdurdodi'n briodol y trafodion ariannol sydd raid wrthynt i weithredu'r penderfyniadau.

8.5 Rhaid i aelod unigol o'r Pwyllgor Gwaith sy'n dymuno ysgrifennu neu gomisiynu adroddiad, neu sy'n dymuno gwneud penderfyniad ar fater o fewn

ei bortffolio/phortffolio, sicrhau ei fod/ei bod yn hysbysu'r Aelodau a'r Swyddogion eraill y mae angen iddynt wybod am y mater. Yn benodol, mae'n rhaid ymgynghori ag Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith ar faterion sy'n croestorri.

8.6 Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (un ai ar y cyd neu yn unigol) ddatgan eu rhesymau dros y penderfyniadau. Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniadau gynnwys y rhesymau.

8.7 Rhaid i Swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau yn unol â'u pwerau dirprwyol eu hunain ystyried a fyddai'n ddoeth rhoi gwybod i'r Aelod/Aelodau perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith am eu bwriadau, ymlaen llaw, pan fo'r mater y gwneir y penderfyniad yn ei gylch yn debygol o fod yn sensitif neu'n ddadleuol, neu gyda goblygiadau polisi ehangach.

## 9. <u>AELODAU'R PWYLLGORAU SGRIWTINI A SWYDDOGION</u>

9.1 Rhaid i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini gadw mewn cyswllt rheolaidd gyda Swyddogion Sgriwtini sy'n darparu'r brif gefnogaeth i'r Swyddogaeth Sgriwtini. Mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeiryddion, cyfrifoldeb y Swyddogion hynny fydd sicrhau bod y rheini sydd angen gwybod am faterion sy'n cael sylw, neu sy'n debygol o gael sylw yn y dyfodol, yn cael gwybod amdanynt.

9.2 Gall Pwyllgor Sgriwtini, neu Gadeirydd y Pwyllgor yn gweithredu ar ran y Pwyllgor, fynnu bod Swyddogion yn dod i gyfarfodydd Sgriwtini. Ni ddylai Aelodau ddisgwyl i Swyddogion Iau i wneud hynny, a dylai pob cais am bresenoldeb unrhyw Swyddog gael ei gyfeirio at y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol.

9.3 Wrth wneud cais i Swyddog fynychu, bydd rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini gymryd baich gwaith y Swyddogion i ystyriaeth.

9.4 Pan yn mynychu Pwyllgor Sgriwtini (neu Panelau Canlyniad Sgriwtini) dylai Swyddogion fod yn fodlon cyfiawnhau unrhyw gyngor y maent eisoes wedi ei roi ar y mater dan sylw, hyd yn oed pan na dderbyniwyd y cyngor hwnnw. Bydd gofyn i Swyddogion hefyd gyfiawnhau'r penderfyniadau y maent wedi eu gwneud yn unol â'u pwerau dirprwyol eu hunain, neu mewn amgylchiadau lle y maent wedi eu hawdurdodi'n briodol i gymryd penderfyniadau gweithredol.

9.5 Wrth roi gwybodaeth i Bwyllgorau Sgriwtini, neu Panelau Canlyniad, ni ddylid gofyn i Swyddogion am farn wleidyddol ac ni ddylent gynnig barn o'r fath chwaith.

9.6 Wrth holi Swyddogion mewn cyfarfodydd Sgriwtini, dylai Aelodau annerch Swyddogion gydag urddas a pharch a thrin eu hymatebion gyda chwrteisi. Ni ddylid gofyn iddynt am faterion o natur ddisgyblaethol.

9.7 Rhaid i Swyddogion barchu Aelodau yn y ffordd y maent yn ymateb i



DRAFT

gwestiynau'r Aelodau.

9.8 Rhaid i Sgriwtini ganolbwyntio ar adolygu polisïau ac ar berfformiad y Cyngor a'i Wasanaethau. Ni chaniateir trafod materion personol, fel perfformiad Swyddogion unigol, yn y fforymau hyn o dan unrhyw amgylchiadau. Yn y cyd-destun hwn, cyfeirir yr Aelodau at Adran 16 y Protocol hwn.

9.9 Os yw'n ffactor berthnasol, cyn galw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i mewn, dylai Aelodau Sgriwtini geisio cael cyngor yn fuan gan y Swyddog Adran 151, os byddant yn ystyried bod y penderfyniad yn groes i Fframwaith Cyllidebol y Cyngor, a chyngor gan y Swyddog Monitro os ydynt yn ystyried bod y penderfyniad yn groes i Fframwaith Polisi'r Cyngor.

## 10. AELODAU PWYLLGORAU NEU IS-BWYLLGORAU ERAILL A SWYDDOGION

10.1 Bydd y Swyddog sydd â chyfrifoldeb arweiniol yn trefnu cyfarfodydd anffurfiol yn rheolaidd gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgor ac Is-Bwyllgorau.

10.2 Mae gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth (yn cynnwys y swyddogion statudol) hawl i gyflwyno adroddiadau a rhoi cyngor i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau.

10.3 Rhaid i Aelodau Pwyllgor neu Is-Bwyllgor wneud penderfyniadau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor hwnnw, ac ni fyddant fel arall yn rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion weithredu.

10.4 Mewn rhai cyfarfodydd o Bwyllgorau neu Is-Bwyllgorau, efallai y bydd penderfyniad yn cael ei basio sy'n awdurdodi Swyddog a enwir i weithredu rhwng cyfarfodydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, y Swyddog ac nid y Cadeirydd sy'n gweithredu ac sy'n gyfrifol am hynny. Nid oes gan Gadeirydd unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran Pwyllgor neu Is-Bwyllgor ac ni ddylai ef/hi chwaith roi pwysau amhriodol ar y Swyddog.

## 11. GRWPIAU GWLEIDYDDOL A SWYDDOGION

11.1 Mae'n iawn i grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth gyfrannu i drafodaethau ar faterion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor. Mae gan Swyddogion hawl i wrthod ceisiadau o'r fath, ac fel arfer ni fyddant yn mynychu cyfarfod o grŵp gwleidyddol lle nad yw pawb sy'n bresennol yn Aelodau o'r Cyngor.

11.2 Ni fydd cefnogaeth gan Swyddogion yn ymestyn y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth ffeithiol neu gyngor proffesiynol mewn perthynas â materion o fusnes y Cyngor. Ni ddylai Swyddogion gynghori ar faterion busnes grŵp, ac felly ni ddylid disgwyl iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, neu rannau o gyfarfodydd, pan fo materion o'r fath yn cael eu trafod.



DRAFT

11.3 Nid oes gan gyfarfodydd grwpiau gwleidyddol y grym i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor, ac nid yw casgliadau y daethpwyd iddynt mewn cyfarfodydd o'r fath yn cyfrif fel penderfyniadau ffurfiol. Nid yw presenoldeb Swyddog yn rhoi unrhyw statws ffurfiol i gyfarfodydd o'r fath o safbwynt busnes y Cyngor ac ni ellir ei ddehongli fel pe bai'n gwneud hynny. Mewn achosion lle mae Swyddogion yn darparu gwybodaeth ffeithiol a chyngor i grŵp gwleidyddol mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes y Cyngor, nid yw hyn yn rhywbeth a wneir yn lle darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol a chyngor pan fo'r mater arbennig yn cael ei ystyried yn ffurfiol gan gorff perthnasol o'r Cyngor.

11.4 Ni ddylid tybio bod Swyddog yn cefnogi polisi neu safbwynt arbennig fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol dim ond oherwydd bod y Swyddog wedi mynychu neu wedi rhoi gwybodaeth i'r cyfarfod.

11.5 Rhaid i Swyddogion barchu cyfrinachedd trafodaethau unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol lle maent yn bresennol ac, oni bai y gofynnir yn benodol iddynt gan y grwp gwleidyddol, ni fyddant yn datgelu cynnwys trafodaethau o'r fath i grwp gwleidyddol arall, nac i unrhyw Aelod neu Aelodau. Ni fydd hyn yn rhwystro Swyddog rhag rhoi adborth i Swyddogion eraill ar sail "angen gwybod".

11.6 Wrth ddelio â grwpiau gwleidyddol, rhaid i'r Swyddogion drin pob grwp mewn dull teg a chyson.

11.7 Ni chaniateir i Aelodau wneud unrhyw beth sy'n peryglu, neu sy'n debygol o beryglu, didueddrwydd Swyddog.

11.8 Bydd y cyfnod amser y bydd Swyddog yn ei dreulio mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol yn cael ei reoli gan y grwp, ond fe all Swyddog adael ar unrhyw amser os yw'r Swyddog yn teimlo nad yw bellach yn briodol iddo aros yno.

11.9 Ni ddylai Swyddog sy'n derbyn gwahoddiad i gyfarfod o un grwp gwleidyddol wrthod gwahoddiad i roi cyngor i grwp arall ar yr un mater. Rhaid i'r Swyddog roi'r un cyngor i bob pwrpas, i bob grwp.

11.10 Ni fydd Swyddog sydd yn is na lefel Pennaeth Gwasanaeth yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod o grwp gwleidyddol, ond fe all y Swyddog a wahoddir enwebu Swyddog arall i fynychu ar ei ran.

11.11 Rhaid rhoi cyfle i Swyddog wirio sylwadau a chyngor a briodolir iddynt hwy mewn unrhyw gofnod ysgrifenedig o gyfarfod unrhyw grwp gwleidyddol.

11.12 Ni chaniateir i unrhyw Aelod gyfeirio'n gyhoeddus, neu mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, at gyngor neu wybodaeth a roddwyd gan Swyddogion mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol.

11.13 Mewn cyfarfodydd o grwp gwleidyddol lle nad yw rhai o'r rheiny sy'n bresennol yn Aelodau o'r Cyngor, rhaid bod yn ofalus i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â busnes y Cyngor. Nid yw'r sawl nad ydynt yn Aelodau yn gorfod glynu wrth Gôd Ymddygiad yr Aelodau. Nid

DRAFT

oes ganddynt yr un hawliau i gael at wybodaeth y Cyngor ag sydd gan Aelodau.

11.14 Rhaid i unrhyw achosion arbennig lle ceir anhawster neu ansicrwydd mewn perthynas â'r rhan hon o'r Protocol, gael eu trafod mor fuan ag sy'n bosibl gyda'r Prif Weithredwr a chydag arweinydd y grwp gwleidyddol perthnasol.

## 12. <u>AELODAU LLEOL A SWYDDOGION</u>

12.1 Er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith o ran cynrychioli eu wardiau, mae angen i Aelodau fod â gwybodaeth lawn ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu ward. Rhaid i Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'r angen i roi gwybodaeth i Aelodau lleol a thrwy hynny ganiatáu i'r Aelodau hynny gyfrannu tuag at y broses gwneud penderfyniadau a datblygu eu rôl gynrychioliadol.

12.2 Mae'r angen hwn yn arbennig o bwysig:

- yn ystod cyfnodau cychwynnol datblygu unrhyw bolisi, lle mae hynny'n ymarferol;
- mewn perthynas â materion gweithredol arwyddocaol neu sensitif;
- pryd bynnag yr ymgymerir ag unrhyw ffurf o ymgynghori cyhoeddus; ac
- yn ystod ymchwiliad Sgriwtini.

12.3 Rhaid i'r holl Aelodau lleol a effeithir gael eu trin yn gyfartal o ran y wybodaeth a roddir iddynt. Mae hyn yn cynnwys wardiau aml-Aelod ac mewn achosion lle mae materion yn effeithio ar fwy nag un ward.

12.4 Pan fydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod cyhoeddus, er mwyn ystyried mater lleol, rhaid gwahodd yr holl Aelodau sy'n cynrychioli'r ward/iau yr effeithir arni/arnynt i fynychu'r cyfarfod fel mater o drefn.

12.5 Pe bai Aelod lleol yn bwriadu trefnu cyfarfod cyhoeddus ar fater sy'n ymwneud â rhyw agwedd o waith y Cyngor, yna fe ddylai'r Aelod lleol ddweud wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Ar yr amod nad yw'r cyfarfod wedi cael ei drefnu ar sail plaid wleidyddol:

- fe all Swyddog fynychu, ond nid oes raid iddo wneud hynny, ac
- yn amodol ar y trefniadau angenrheidiol, fe all y cyfarfod gael ei gynnal yn un o adeiladau'r Cyngor.

12.6 Ni ddylid trefnu unrhyw gyfarfod o'r fath na'i gynnal yn union cyn etholiadau'r Cyngor.

12.7 Er bod rhoi cefnogaeth i waith ward yr Aelodau yn gyfreithlon, rhaid bod yn



DRAFT

ofalus os gofynnir i Swyddogion fynd gydag Aelodau i gymorthfeydd yn y ward. Mewn amgylchiadau o'r fath:

- rhaid i'r cymorthfeydd fod yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac
- ni ddylid gofyn i Swyddogion fynd gydag Aelodau i gymorthfeydd sy'n cael eu cynnal yn swyddfeydd neu eiddo grwpiau neu bleidiau gwleidyddol.

12.8 Ni ddylid gofyn byth i Swyddogion fynychu cyfarfodydd plaid wleidyddol yn y ward neu'r etholaeth.

12.9 Mae'n cael ei gydnabod y bydd rhai aelodau o staff y Cyngor (e.e. y rhai sy'n darparu cefnogaeth benodol i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith) yn derbyn a thrin negeseuon ar ran Aelodau ynghylch pethau nad ydynt yn ymwneud â'r Cyngor. Er y bydd y rhain yn aml yn ymwneud â rheoli dyddiadur, rhaid cymryd gofal i osgoi defnyddio adnoddau'r Cyngor i ddibenion preifat neu i ddibenion plaid wleidyddol.

12.10 Wrth geisio ymdrîn â chwestiynau neu bryderon etholwyr, ni ddylai Aelodau geisio cael rhoi sylw i'r mater yn gynt ond, yn hytrach, fe ddylent barchu gweithdrefnau'r Cyngor. Mae yna bwysau mawr ar amser Swyddogion. Efallai na fyddant yn gallu gwneud y gwaith y mae'r Aelodau ei angen yn y cyfnod amser y gofynnir amdano, ac efallai y byddent angen cael cyfarwyddiadau gan eu rheolwyr.

## 13. Y BERTHYNAS GYDA'R CYFRYNGAU

13.1 Rhaid i bob cyswllt ffurfiol gyda'r cyfryngau gael ei gynnal yn unol â **Phrotocol y Cyfryngau sydd wedi ei gynnwys fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu'r Cyngor (sydd ar gael ar wefan y Cyngor)**; a'r gyfraith ar gyhoeddusrwydd awdurdod lleol.

13.2 Yn eu hymwneud â'r cyfryngau, atgoffir yr Aelodau o'u hymrwymiadau yng nghyswllt cyfrinachedd yn unol â'r Côd Ymddygiad.

13.3 Bydd Swyddogion yn rhoi gwybod i Aelodau perthnasol ynghylch diddordeb y cyfryngau yng ngweithgareddau'r Cyngor, yn arbennig yng nghyswllt materion strategol neu faterion cynhennus.

13.4 Dylai swyddogion y mae'r cyfryngau yn cysylltu â nhw ailgyfeirio ymholiadau i'r Uned Gyfathrebu.

13.5 Yn yr un modd, bydd Swyddogion yn dweud wrth Uned Gyfathrebu'r Cyngor am faterion sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r cyfryngau, gan mai'r uned honno yn aml yw pwynt cyswllt cyntaf y cyfryngau.

13.6 Os bydd Aelod yn cysylltu â'r cyfryngau ar unrhyw fater neu os bydd y cyfryngau yn cysylltu ag ef/hi, rhaid i'r Aelod:

- nodi ym mha gapasiti y mae ef/hi yn siarad (e.e. fel Aelod ward, yn bersonol, fel Aelod o'r Pwyllgor Gwaith, ar ran y Cyngor, neu ar ran grwp gwleidyddol);

- bod yn siŵr ynglŷn â'r hyn y mae ef/hi eisiau ei ddweud neu beidio ei ddweud;

- os bydd angen, a phob amser pan fydd ef/hi yn dymuno rhyddhau datganiad i'r wasg, dylid ceisio cymorth gan Uned Gyfathrebu'r Cyngor ac/neu Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, ac eithrio mewn perthynas â datganiad sydd yn wleidyddol ei natur ;

- ystyried y canlyniadau tebygol i'r Cyngor yn dilyn ei dd/datganiad;

- byth wneud ymrwymiad mewn perthynas â materion y gall trydydd partïon gyflwyno hawliadau yn eu cylch ac/neu sy'n debygol o fod yn fater yswiriant;

- ystyried a ddylid ymgynghori ag Aelodau perthnasol eraill;

- cymryd gofal arbennig yn yr hyn y mae ef/hi yn ei ddweud pan fo etholiadau lleol neu genedlaethol yn agosáu er mwyn osgoi rhoi'r argraff o fod yn ymgyrchu ar ran yr Aelod, oni bai fod rhywun yn cysylltu ag ef / hi fel ymgeisydd etholiadol neu un yn gweithredu ar ran plaid;

- mae pob cyfeiriad a wneir yn yr adran hon at y cyfryngau yn cynnwys y wasg, y cyfryngau darlledu a'r cyfryngau electronig/cymdeithasol.

## 14. GOHEBIAETH

14.1 Ni ddylid copïo gohebiaeth rhwng Aelod unigol a Swyddog i Aelod arall oni bai bod hynny'n fwriad penodol gan yr awdur a'i fod wedi datgan hynny neu wedi rhoi ei ganiatâd. Mewn achos lle mae gohebiaeth yn cael ei chopïo, fe ddylid gwneud hynny'n glir bob amser h.y. ni ddylid byth darparu copïau "dall".

14.2 Fe ddylai llythyrau swyddogol a ysgrifennir ar ran y Cyngor fel arfer fod yn enw'r Swyddog perthnasol. Efallai y bydd yn briodol mewn rhai amgylchiadau (e.e. sylwadau i Weinidog y Llywodraeth) i lythyrau ymddangos yn enw Aelod o'r Pwyllgor Gwaith neu Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini.

14.3 Fe all Cadeirydd gychwyn gohebiaeth yn ei enw ef/hi ei hun.

14.4 Ni ddylai llythyrau sy'n creu ymrwymiadau cyfreithiol y gellir eu gorfodi, neu sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, fyth gael eu hanfon yn enw Aelod.

14.5 Pan mae'n ysgrifennu fel unigolyn, fel Aelod ward, rhaid i Aelod wneud y ffaith honno yn glir.



DRAFT

15. **DEFNYDDIO ADNODDAU'R CYNGOR**

15.1 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau fel teipio, printio a llungopïo i Aelodau, a hefyd nwyddau fel papur ysgrifennu ac offer cyfrifiadurol, i'w helpu i wneud eu gwaith fel Aelodau o'r Cyngor. Telir am y nwyddau a'r gwasanaethau hyn o'r pwrs cyhoeddus. Ni ddylid eu defnyddio i ddibenion preifat nac ychwaith mewn cysylltiad â gweithgareddau plaid wleidyddol nac ar gyfer unrhyw ymgyrchoedd.

15.2 Rhaid i Aelodau sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor ei hun ynglŷn â defnyddio adnoddau o'r fath, yn arbennig:

- lle mae cyfleusterau yn cael eu darparu yng nghartrefi'r Aelodau ar gost y Cyngor;
- mewn perthynas ag unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt yn lleol e.e. taliadau am lungopïo preifat; ac
- ynglŷn â diogelwch TGCh.

15.3 Ni ddylai Aelodau roi pwysau ar staff i ddarparu adnoddau neu gefnogaeth, nad oes gan Swyddogion yr hawl i'w rhoi. Esiamplau o hyn yw:

- busnes sydd yn ymwneud yn gyfan gwbl a phlaid wleidyddol;
- gwaith mewn cysylltiad â chyfarfod plaid wleidyddol mewn ward neu etholaeth;
- ymgyrchu etholiadol;
- gwaith yn gysylltiedig â digwyddiad y bydd Aelod yn ei fynychu mewn capasiti arall yn hytrach nag fel Aelod o'r Cyngor;
- gohebiaeth bersonol a phreifat;
- gwaith mewn cysylltiad â chorff neu fudiad arall lle bo cyswllt yr Aelod yn rhywbeth sydd ar wahân i'w waith fel Aelod o'r Cyngor; a
- cefnogaeth i Aelod yn ei gapasiti ef/hi fel Cynghorydd awdurdod lleol arall.

16. **TORRI'R PROTOCOL HWN**

16.1 Rhaid defnyddio'r rhan hon o'r Protocol ochr yn ochr â pholisi'r Cyngor ar **"rannu pryderon"**; **sydd ar gael ar wefan y Cyngor**.

16.2 Dylai Aelodau neu Swyddogion sydd â chwestiynau ynglŷn â gweithredu neu



DRAFT

ddehongli unrhyw ran o'r Protocol hwn geisio cyfarwyddyd gan y Swyddog Monitro.

16.3 Rhaid i Aelod sy'n anhapus ynglŷn â'r camau a gymerwyd gan y Swyddog neu gyda'i ymddygiad:

- osgoi gwneud ymosodiadau personol neu gam-drin y Swyddog;
- sicrhau bod rhesymau cadarn dros wneud unrhyw feirniadaeth, a'i bod yn adeiladol;
- beidio â beirniadu yn gyhoeddus; a
- chrybwyll y pryder gyda'r Swyddog yn breifat.

16.4 Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r Swyddog yn briodol (e.e. oherwydd difrifoldeb y pryder) neu oni fu modd datrys y mater drwy drafodaeth, yna dylai'r Aelod grybwyll y mater gyda rheolwr y Swyddog neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

16.5 Pe bai Swyddog yn torri'r Protocol hwn mewn modd difrifol, fe allai hynny arwain at ymchwiliad o dan **weithdrefn ddisgyblu'r Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor.**

16.6 Rhaid i Swyddog sy'n credu y gall Aelod fod wedi gweithredu'n groes i'r Protocol hwn leisio ei bryder gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ac fe all ef / hi wedyn geisio cyngor gan y Swyddog Monitro fel y ffordd fwyaf priodol a chymesur o fynd i'r afael â'r pryder a leisiwyd.

DRAFT

PAPUR / ENCLOSURE
3

## 1. Y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion: Wardiau Amlaelod

### 1.1 Egwyddorion

- Mae'r holl aelodau wedi eu hethol yn ddemocrataidd i gynrychioli'r cyfan o'r ward amlaelod ac mae gan bob un ohonynt statws cyfartal yn y ward.
- Dylai Aelodau gytuno ymysg ei gilydd a ydynt yn dymuno gweithio gyda'i gilydd a sut y maent yn dymuno gwneud hynny.
- Nid rôl y Swyddogion yw dylanwadau ar a ddylai Aelodau weithio gyda'i gilydd a sut y dylent wneud hynny.
- Rôl y Swyddogion yw rheoli a chefnogi'r perthnasau hynny a'r wybodaeth a'r ffrydiau gwaith sy'n llifo ohonynt.

### 1.2 Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch aelodau wardiau

Rhaid darparu gwybodaeth ffeithiol ynghylch Aelodau wardiau i etholwyr a sefydliadau sydd eisiau cysylltu gydag Aelod lleol.

(a) Pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu gyda'r Cyngor yn gofyn am wybodaeth am Aelodau eu ward, rhoddir manylion cyswllt yr holl Aelodau yn nhrefn y wyddor ynghyd â'u cysylltiadau gwleidyddol.

(b) Os nad yw person wedi enwi Aelod penodol i ddelio gyda'u pryderon, dylai'r Swyddog sy'n ymwneud â'r mater ffonio neu anfon e-bost at yr etholwr i ofyn pa Aelod y maent yn dymuno iddo/iddi ddelio gyda'r ymholiad.

(c) Lle nad oes modd cael eglurhad ynghylch pa aelod y dylid cysylltu ag ef/hi, y dewis olaf pan fydd popeth arall wedi methu, yw anfon copi o'r ymholiad at holl Aelodau'r ward. Yn yr achos hwn, dylid dweud wrth yr aelod o'r cyhoedd y bydd pob Aelod ward yn cael copi o'r ymholiad a dylid rhoi gwybod i'r Aelodau.

### 1.3 Gweithgareddau neu bolisïau'r Cyngor sy'n cael effaith ar y ward

Mae rhannu gwybodaeth gydag Aelodau ynghylch gweithgareddau a pholisïau Cyngor sy'n cael effaith ar eu ward yn rhan allweddol o driniaeth gyfartal.

(a) Dylid rhoi gwybod i'r holl Aelodau mewn ward amlaelod am faterion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor ac sy'n cael effaith ar eu ward, a dylid sicrhau bod ganddynt fewnbwn i'r materion hynny.

(b) Pryd bynnag y bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu gan y Cyngor neu aelod i ystyried mater sy'n lleol i ward, neu ragor nag un o wardiau mewn rhan o'r Cyngor, dylid gwahodd holl aelodau'r ward fel arfer i ddod i'r cyfarfod.

(c) Pryd bynnag y bydd y Cyngor yn cynnal ymarfer ymgynghori ar fater sy'n lleol i un neu ragor o wardiau, dylai'r Swyddogion priodol, fel arfer, hysbysu Aelodau y ward o'r ymgynghoriad a gofyn am eu sylwadau ar y mater.

(ch) Dylid rhoi gwybod i holl Aelodau ward amlaelod am ddyletswyddau swyddogol uwch gynghorwyr gan gynnwys yr Arweinydd, Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgorau a Chadeirydd y Cyngor ac Is-Gadeirydd y Cyngor ynghyd ag ymweliadau swyddogol a drefnwyd i'r ward gan gynrychiolwyr etholedig eraill a phobl bwysig iawn. Cyfrifoldeb yr Uwch Gynghorwyr yw sicrhau fod Aelodau eraill

yn cael eu hysbysu o'u dyletswyddau swyddogol ac, mewn amgylchiadau arferol, dylid rhoi o leiaf 3 diwrnod o rybudd o ddyletswydd swyddogol.

(d) Yn achos ymweliad gan AS,AC,ASE, cynrychiolwyr Gweinidogol neu ymwelwyr pwysig eraill, y Swyddog sy'n gwneud y trefniadau ar gyfer yr ymweliad sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Aelodau Lleol.

**1.4 Swyddogion yn cyfathrebu a chyfarfod gyda thrigolion lleol.**

(a) Pan fo Swyddogion yn ysgrifennu at drigolion ynghylch materion o bwys cyffredinol mewn ardal, dylid anfon copïau at holl aelodau'r ward. Byddai enghreifftiau yn cynnwys mesurau arafu traffig, cylchoedd casglu gwastraff ac ati.

(b) Pan fo Swyddogion yn ysgrifennu at drigolion neu'n cyfarfod â hwy ynghylch materion sy'n cael effaith ar un aelwyd, ni roddir gwybod i'r aelodau lleol ac eithrio:

i. Pan fo Aelod wedi bod yn ymwneud â mater preifat sy'n cael effaith ar yr aelwyd honno, dylai'r Swyddog/Swyddogion perthnasol roi gwybod i'r Aelod am y datblygiadau hyd nes y bydd y mater wedi dod i ben, neu
ii. Pan fo Aelod wedi bod yn ymwneud â mater nad yw'n fater personol ac sy'n cael effaith ar fwy nag un aelwyd, dylai'r Swyddog/Swyddogion perthnasol roi gwybod i'r Aelod a'r holl Aelodau lleol eraill am unrhyw ddatblygiadau hyd nes y bydd y mater wedi ei ddatrys yn derfynol.

**1.5 Aelodau sy'n trefnu cyfarfodydd gyda Swyddogion y Cyngor**

Nid oes rhaid i Swyddogion wahodd aelodau eraill y ward yn otomatig i gyfarfodydd a drefnwyd gan Aelod unigol gyda'r Swyddog hwnnw, nac i roi gwybod iddynt am y fath cyfarfod, ac eithrio lle mae'r Aelod wedi gofyn fel arall.

**1.6 Ymgysylltiad Aelodau gyda grwpiau cynrychiolwyr lleol**

Gall hyn gynnwys, er enghraifft, cynghorau cymuned, grwpiau tenantiaid a thrigolion, fforymau lleol. Nid oes rheidrwydd ar Aelodau i fynychu'r cyfarfodydd hyn ac mae'n debygol y bydd ymwneud a chyfranogiad yr Aelodau yn amrywio. Mewn rhai wardiau, gall Aelodau ddewis rhannu'r baich gwaith hwn ar sail Plaid neu ar sail ddaearyddol. Bydd materion a fydd yn codi o'r cyfarfodydd hyn yn creu gwaith ar gyfer swyddogion a gallai beri dryswch/dyblygu os yw gwahanol aelodau yn mynd ar drywydd materion trwy wahanol sianelau sy'n wastraff o adnoddau'r Cyngor. Gwaethygir y dryswch os bydd y grŵp cynrychiolwyr lleol hefyd yn mynd ar drywydd yr un mater. Argymhellir felly y dylai Aelodau sy'n gweithio gyda grwpiau cynrychiolwyr lleol gydgysylltu, â'i gilydd, ar gyfer delio gyda materion o'r fath i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau'r Cyngor.

**1.7 Gohebiaeth gydag Aelodau**

(a) Os yw Aelod wedi ysgrifennu (neu wedi anfon e-bost) Swyddog yn gofyn am wybodaeth gan y Cyngor, bydd y Swyddog yn ymateb i'r Aelod cyn pen 15 diwrnod gwaith ac eithrio lle mae'r ymholiad yn arbennig o gymhleth, pryd y cydnabyddir yr

ohebiaeth cyn pen 5 niwrnod gwaith, yn esbonio pa Swyddog sy'n delio gyda'r ymholiad a pha bryd y darperir ateb llawn. Ni fydd y Swyddog yn datgelu gohebiaeth i Aelodau eraill yn y ward. Fodd bynnag, pan fo Aelod yn codi materion o bryder neu ddiddordeb cyffredinol i'r ward, bydd y Swyddog yn sicrhau bod yr Aelodau eraill yn y ward hefyd yn cael gwybod am unrhyw gamau a gymerir gan y Cyngor.

(b) Os bydd Aelodau yn gofyn am yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg ar unrhyw bwnc, yna bydd Swyddogion yn trin y fath geisiadau yn gyfartal ac yn rhoi ateb tebyg i bob Aelod.

### 1.8 Diogelu data a chyfrinachedd

Dylai Aelodau a Swyddogion fod yn ymwybodol o faterion diogelu data. Ni ellir ond darparu data personol i Aelod pan fo'n mynd ar drywydd achos unigol ar ran etholwyr sydd wedi rhoi eu caniatâd ysgrifenedig iddo/iddi wneud hynny. Ni ellir darparu data personol o'r fath i Aelodau eraill o fewn y ward ac eithrio lle rhoddwyd caniatâd gan yr etholydd.

### 1.9 Perthnasau rhwng Aelod

Mewn achosion lle mae lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng Aelodau mewn ward amlaelod, efallai y byddant yn dymuno gwneud cytundebau sydd ddim yn rhai cyfrwymol i fanteisio ar eu diddordebau perthnasol a'u harbenigedd ac i osgoi dyblygu. Nid yw sefydlu cytundebau o'r fath yn fater i Swyddogion ond, os sefydlir cytundebau o'r fath, byddai'n fuddiol rhoi gwybod amdanynt yn ehangach i gynorthwyo gyda datblygu arferion da yn yr holl wardiau amlaelod.

PAPUR / ENCLOSURE
FF

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | CYNGOR |
| **DYDDIAD:** | 5 MAWRTH 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | NEWID I'R POLISI INDEMNIADAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y PENNAETH SWYDDOGAETH CYFREITHIOL A GWEINYDDOL / SWYDDOG MONITRO |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I GYDYMFFURFIO AG ARGYMHELLIAD LLYWODRAETH CYMRU DYDDIEDIG 15 IONAWR 2013 |

1. **CYD-DESTUN**

1.1 Ar 9 Mehefin 2011 fe ddefnyddiodd y Cyngor ei ddisgresiwn i fabwysiadu Polisi Indemniadau. Mae'r Polisi yn cynnwys indemniad i Aelodau i amddiffyn achosion a ddygwyd gan yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru mewn cysylltiad â honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad.

1.2 Yr Is-Bwyllgor Indemniadau sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau am indemniad, sef Is-Bwyllgor y Cyngor, gyda phwerau llawn i weithredu.

1.3 Ers Mehefin 2011 mae'r Is-Bwyllgor Indemniadau wedi rhoi tri indemniad ac er nad yw'r Polisi yn cynnwys cap ariannol, mae'r Is-Bwyllgor hyd yn hyn wedi gosod cap o ddeng mil o bunnoedd ym mhob achos.

1.4 Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon bob amser wedi cael ei hadlewyrchu mewn Cynghorau eraill, a chanlyniad hynny fu i Lywodraeth Cymru fynegi pryderon mewn llythyr i'r Arweinydd, dyddiedig 15 Ionawr 2013. Mae copi ynghlwm ym **Mhapur 1**. Mae'r adrannau perthnasol wedi eu hamlygu.

1.5 Gofynnwyd i'n Harweinyddion Grwpiau am eu barn ynglŷn â chais Llywodraeth Cymru ac y maent o'r farn y dylid diwygio'r polisi cyfredol i gynnwys cap o ugain mil o bunnoedd mewn achosion sy'n ymwneud ag amddiffyn cwynion Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

1.6 Ym **Mhapur 2** fe geir copi o Benderfyniad y Cyngor ar 9 Mehefin 2011, gyda'r newidiadau a awgrymir wedi eu hamlygu.

1.7 Ym **Mhapur 3** fe geir copi o'r Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ar 9 Mehefin 2011, gyda'r newidiadau a awgrymir wedi eu hamlygu.

2. **ARGYMHELLIAD**

2.1 Bod y Cyngor yn diwygio ei Bolisi Indemniadau i osod uchafswm Indemniad o ugain mil o bunnoedd i amddiffyn gweithgareddau a ddygwyd gan yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru o dan y Côd Ymddygiad.

2.2 Bod uchafswm yr indemniad yn cael ei osod trwy gyfrwng y newidiadau a awgrymir ac a amlygir ym **Mhapurau 2 a 3**.

PAPUR / ENCLOSURE
1

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Minister for Llywodraeth Leol and Communities**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
At:
Arweinwyr, Cynghorau Sir a
Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Cadeiryddion, Awdurdodau Tân ac
Achub

Cadeiryddion, Awdurdodau
Parciau Cenedlaethol

15 Ionawr 2013

**FFRAMWAITH MOESEGOL LLYWODRAETH LEOL**

Ysgrifennaf i fynd ar drywydd agweddau ar Bapur Gwyn y llynedd sef 'Promoting Lleol Democracy' sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â gweithredu'r fframwaith moesegol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000").

Roedd y 'Rhaglen Lywodraethu', a gyhoeddwyd ym Medi 2011, yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r broses ar gyfer gwneud cwyn o dan god ymddygiad aelodau llywodraeth leol i sicrhau na chaiff ei defnyddio ond at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer.

Cyfleodd Papur Gwyn y llynedd ein barn bod y fframwaith presennol yng Nghymru, a seiliwyd ar set gyffredin o egwyddorion arweiniol a chod ymddygiad enghreifftiol statudol, yn darparu cydbwysedd priodol rhwng rhoi arweiniad i aelodau ar safonau ymddygiad a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yr ymdrinnir â chamymddygiad yn gyson ac yn briodol. Er hynny, credaf fod lle i arddel dull mwy lleol o ddatrys cwynion lefel isel, heb orfod troi yn syth at you rôl ymchwilio lawn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rôl a allai fod yn gostus o dan rai amgylchiadau.

Gyda hyn mewn golwg, croesawodd y Papur Gwyn y trafodaethau a oedd eisoes wedi digwydd ar yr egwyddor bod awdurdodau lleol yn mynd ati'n wirfoddol i fabwysiadu ymagwedd genedlaethol, gyffredin, at brosesau lleol anffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion aelod yn erbyn aelod a swyddog yn erbyn aelod. Nododd y Papur Gwyn fod Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld y prosesau hynny'n cael eu rhoi ar waith gan bob cyngor sirol a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@Cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

phob cyngor bwrdeistref sirol, gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub cyn gynted ag y byddai'n ymarferol yn dilyn etholiadau lleol y llynedd.

Croesawodd y Papur Gwyn hefyd drafodaethau sydd wedi digwydd ar gyflwyno cap gwirfoddol o £20,000 ar lefel yr indemniad a gynigir gan awdurdodau i aelodau sy'n destun achos camymddygiad o dan Ddeddf 2000. Mae pwerau'r Awdurdodau i ddarparu indemniadau yn deillio o Orchymyn 'Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006'. Byddai'r pwerau hyn yn eu galluogi i osod terfyn o'r fath ac, unwaith eto, nododd y Papur Gwyn fod Llywodraeth Cymru'n dymuno gweld hwn yn cael ei roi ar waith yn fuan ar ôl etholiadau'r llynedd.

Caf ar ddeall bod rhai awdurdodau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion hyn. Er hynny, rwyf yn pryderu nad yw pob awdurdod o bosibl wedi gwneud cynnydd a thrwy'r llythyr hwn, hoffwn bwysleisio i'r rhai sydd heb wneud hynny eto faint o bwys yr wyf yn ei roi ar fwrw ymlaen â hyn.

Er mwyn i mi gael darlun cyflawn o'r sefyllfa bresennol ledled Cymru, hoffwn ofyn i chi adrodd yn ôl i mi ar ba gamau y mae eich awdurdod wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd (gydag amserlenni) i gyflwyno proses ddatrys leol ac i fabwysiadu'r cap gwirfoddol ar indemniadau ar gyfer achosion cod ymddygiad aelodau. Dylid anfon yr wybodaeth hon trwy e-bost erbyn diwedd Chwefror at: CorrespondenceMail-CS@Cymru.GSI.Gov.UK.

I hwyluso cyflwyno prosesau datrys lleol, rwyf yn bwriadu dileu'r rhwymedigaeth ar aelodau a gynhwysir ym mharagraff 6(1)(c) o'r cod ymddygiad enghreifftiol i roi gwybod am achosion posibl o dorri'r cod i'r Ombwdsmon. Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y bydd yn delio ag achosion lefel isel o dorri'r cod a wneir i'w swyddfa ac ni fydd y rhwymedigaeth hon, o reidrwydd, yn peri oedi o ran cyflwyno prosesau ddatrys lleol lle mae hyn heb gael ei wneud eto.

Yn ogystal â dileu'r rhwymedigaeth i roi gwybod am dorri'r cod i'r Ombwdsmon, rwyf yn bwriadu mynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ddehongli paragraff 10(2)(b) trwy ddileu hyn o'r cod enghreifftiol. Byddai angen o hyd i aelodau sy'n gwneud penderfyniadau, p'un ai trwy weithredu ar y cyd neu yn unigol, yn ôl paragraff 8 o'r cod, weithredu yn wrthrychol ac er lles y cyhoedd wrth wneud hynny. Rwyf o'r farn, felly, y gellir dileu paragraff 10(2)(b) heb amharu ar y cod.

Hefyd, mewn perthynas â'r cod, byddwch yn ymwybodol o ddyfarniad yr Uchel Lys y llynedd - *'R (Calver) v Panel Arfarnu Cymru'* - mewn perthynas â'r gofyniad ym mharagraff 4(b) o'r cod i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth i eraill. Mae'r Ombwdsmon wedi diwygio ei ganllawiau i gymryd y dyfarniad i ystyriaeth, ond rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried a oes angen unrhyw i'r cod gael ei addasu.

Wrth ysgrifennu, nodaf gyda phryder fod yr Ombwdsmon wedi barnu unwaith eto bod angen cyfeirio unwaith eto yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf at nifer y cwynion aelod yn erbyn aelod y gellid barnu eu bod yn flinderus. Ni allai paragraff 6(1)(d) o'r cod fod yn gliriach wrth fynnu bod rhaid i aelodau beidio â gwneud cwynion gwacsaw, maleisus neu flinderus yn erbyn aelodau eraill neu yn erbyn unrhyw un sy'n gweithio i'w hawdurdod. Os nad eir i'r afael â'r gweithredoedd hynny, mae ganddynt y potensial i gronni yn y system ac i wyro adnoddau i ffwrdd o faterion pwysicach. Hoffwn ofyn bod lle blaenllaw yn cael ei roi i'r mater hwn pan drefnir hyfforddiant gloywi ar y cod ar gyfer aelodau.

Hefyd, byddwch wed gweld adroddiadau diweddar yn y cyfryngau am ddigwyddiadau anffodus sy'n deillio o'r defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y cod yn ei gwneud yn glir o dan ba amgylchiadau y cwmpesir defnyddio cyfryngau electronig a chymdeithasol gan y cod. Maes sy'n datblygu'n barhaus yw hwn ac

unwaith eto, credaf ei bod yn amserol annog yr aelodau i fanteisio ar yr hyfforddiant y mae'r awdurdodau'n ei ddarparu ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r anfanteision posibl i'w hosgoi.

Câi unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r agweddau hyn neu agweddau eraill ar y cod wrth ymateb yn unol â'r cais uchod eu croesawu yn fawr.

Yn olaf, hoffwn achub y cyfle hwn i grybwyll mater a godwyd gyda mi yn ddiweddar ynghylch cyhoeddi cofrestri o fuddiannau aelodau a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf 2000. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i gofrestri fod ar gael yn swyddfa'r awdurdod i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd ar bob awr resymol. Er hynny, mae dinasyddion yn disgwyl yn gynyddol gallu cael gafael ar wybodaeth am gynghorau a'u haelodau etholedig trwy'r rhyngrwyd. O ganlyniad, mae gennyf gydymdeimlad â'r farn a fynegwyd i mi y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi'r cofrestri hyn ar eu gwefannau yn ogystal er mwyn hwyluso mynediad iddynt ac i wella tryloywder. Rwy, felly, yn bwriadu cyflwyno gwelliant i Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) i roi effaith i hyn. Mae cyfle'n bodoli - a hynny o fewn amser cyfyngedig - i gyflwyno gwelliant o'r fath ond cyn gwneud hynny hoffwn groesawu unrhyw safbwyntiau sydd gennych ar y mater hwn.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Llywodraeth Leol and Communities

PAPUR / ENCLOSURE 2

## 3. INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

(a) Dywedwyd - Bod y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 12 Mai 2011, wedi penderfynu *"i gytuno mewn egwyddor ar hyn o bryd bod y Cyngor yn dymuno mabwysiadu'r pŵer i roi indemniadau fel y darperir ar gyfer hynny gan y Gorchymyn a bod adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y man."*

(b) Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol – Bod angen mabwysiadu polisi a gweithdrefn ar gyfer gwneud a phenderfynu ar geisiadau am indemniadau dan y Gorchymyn. Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu polisi arfaethedig, gweithdrefn a ffurf geiriad cyffredinol ar gyfer indemniad ac roedd y cyfan i'w gweld yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Fel a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol i'r Cyngor ar 12 Mai 2011, fe gynhaliwyd asesiad o'r effaith o ran cydraddoldebau ar y polisi a daethpwyd i'r canlyniad ei fod, yn gyffredinol, yn cael effaith gadarnhaol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr adroddiad yn cyfeirio at sefydlu Is-Bwyllgor ac arno o leiaf 3 aelod o'r Cyngor i benderfynu ar geisiadau am indemniadau. Fodd bynnag, wedi edrych ymhellach ar y ffigyrau, roedd dewisiadau pellach ar gael i'r aelodau yn y cyswllt hwn, sef Is-Bwyllgor ac arno 4 aelod yn cynnwys cynrychiolydd o bob un o'r grwpiau gwleidyddol neu Is-Bwyllgor o 5 aelod i gynnwys yn ychwanegol, un aelod rhydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad ac y dylai'r Is-Bwyllgor gynnwys 5 aelod a bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn cael eu heithrio fel aelodau'r Is-Bwyllgor.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant y dylai'r Is-Bwyllgor gynnwys 10 o aelodau a bod arno gydbwysedd gwleidyddol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y gallai Is-Bwyllgor ac arno 10 aelod gael effaith ar gydbwysedd gwleidyddol cyffredinol y Pwyllgorau ar draws y Cyngor ac y byddai'n fwy beichus o safbwynt gweinyddol.

Dywedodd aelod y gwnaed cwyn yn erbyn aelod o Gyngor Sir y Fflint ac nad oedd gan yr aelod dan sylw y modd i ymladd yr achos oherwydd y byddai'n costio oddeutu £250k. Derbyniodd yr aelod y taliad ond heb yr arian hwnnw, ni fyddai wedi gallu ennill yr achos. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd yn derbyn yr egwyddor a gyflwynwyd ac yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

Rhoddwyd i Mr. Alex Aldridge, Comisiynydd, y cyfle i annerch y Cyngor. Mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed, roedd yn dymuno egluro nad oedd Cyngor Sir y Fflint wedi talu'r swm y sonnir amdano i unigolyn. Roedd yr indemniad fel yr oedd yn sefyll yn ymwneud ag achos a aeth gerbron yr Ombwdsmon. Ar hyn o bryd roedd yr unigolyn yn Sir y Fflint yn disgwyl am ddyfarniad gan yr Ombwdsmon. Cafodd yr unigolyn hwnnw ei indemnio gan y Cyngor ar gyngor y Swyddog Monitro i ddod a chyfreithiwr i'w gynrychioli trwy'r broses ar y ddealltwriaeth glir y byddai rhaid iddynt ad-dalu'n llawn y costau i'r Cyngor petai'r achos yn colli. Roedd cyfyngiad llym hefyd ar y swm i'w wario. Roedd yr achos yn parhau. Yn Sir y Fflint, y Cyngor llawn wnaeth y penderfyniad yn seiliedig ar y cyngor a gafwyd gan y Swyddog Monitro.

Yn dilyn y datganiad uchod, tynnodd y cynigydd a'r eilydd eu gwelliant gwreiddiol o Is-Bwyllgor ac arno 10 aelodau a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant y dylai'r Cyngor hwn ddilyn esiampl Cyngor Sir y Fflint yn hyn o beth.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr ymddangosai o gyfraniadau gan rai aelodau nad oedd yr adroddiad wedi cael ei ddarllen na'i ddeall gan rai aelodau. Yn yr amgylchiadau hynny, rhaid cynghori'r aelodau hynny i ymatal rhag pleidleisio ar y mater.

Collwyd y gwelliant gan 20 bleidlais i 7 a phenderfynwyd derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad yn amodol ar sefydlu Is-Bwyllgor o 5 aelod fel y cyfeirir at hynny uchod.

Roedd y Cynghorydd Raymond Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi ymatal ei bleidlais ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD**

- **Os yw polisi yswiriant cyfredol y Cyngor o bosib, yn cynnig diogelwch ar gyfer y mater y gellir ei indemnio o dan delerau'r Gorchymyn, yna bydd indemniad ar gyfer y mater hwnnw yn cael ei gynnig trwy yswiriant yn unig ac ar delerau ac amodau, cyfyngiadau a gostyngiadau polisi y gall yswirwyr y Cyngor fod eu hangen.**

- **Lle nad yw polisi yswiriant presennol y Cyngor yn diogelu mater y gellir ei indemnio o dan delerau'r Gorchymyn, yna bydd indemniad ar gyfer y mater hwnnw, o bosib, yn cael ei gynnig trwy wneud taliad ariannol ond yn amodol ar delerau ac amodau y penderfynir arnynt yn unol â'r polisi fel a nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn;**

- **Sefydlu Is-Bwyllgor i benderfynu ceisiadau am indemniadau fydd yn dod o fewn paragraff 4.1.2 uchod. Bydd yr Is-Bwyllgor yn cynnwys o leiaf dri aelod, bydd arno gydbwysedd gwleidyddol a bydd yn penodi Cadeirydd o blith ei Aelodau. Dirprwyir i'r Is-Bwyllgor yr holl hawliau i wneud penderfyniadau ar geisiadau a rhoddir grym iddo ddyrannu arian yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau *ac eithrio na fydd yr Is-Bwyllgor yn gallu caniatáu indemniad dros £20,000 i aelod sy'n amddiffyn unrhyw gwyn yn ei erbyn am gamymddwyn dan y Côd Ymddygiad*. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cynghori'r Is-Bwyllgor yn ystod ei drafodaethau fel y bydd angen.**

- **Mabwysiadu'r ffurf arfaethedig o eiriad ar gyfer indemniad, y polisi a'r weithdrefn ar gyfer delio gyda cheisiadau am indemniadau fel a nodir yn yr adroddiad i'r atodiad hwn.**

PAPUR / ENCLOSURE
3

## Y POLISI A'R WEITHDREFN AR GYFER INDEMNIADAU

**Materion yn ymwneud â Cheisiadau ar gyfer Indemniadau a Phenderfynu arnynt yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau i Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006**

**A. Gweithdrefn**

1.1 Defnyddir y weithdrefn hon pan fo Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") yn derbyn cais ("y Cais") gan Aelod neu Swyddog o'r Cyngor ("yr Ymgeisydd") am indemniad yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau i Aelodau a Swyddogion)(Cymru) 2006 ("y Gorchymyn") gyda'r Cyngor wedi mabwysiadu pwerau'r Gorchymyn hwnnw trwy benderfyniad dyddiedig 12 Mai 2011.

1.2 Lle rhoddir indemniad bydd yn cyd-fynd â gofynion a chyfyngiadau'r Gorchymyn sy'n rhoi'r hawl i roi indemniad.

**2. Y Cais**

2.1 Fe all y Cais am indemniad osod allan unrhyw faterion y mae'r Ymgeisydd yn eu dymuno ond rhaid iddo gydymffurfio gyda'r anghenion lleiaf canlynol (lle bo'n berthnasol i'r Cais).

2.1.1 Rhaid iddo fod yn ysgrifenedig ac wedi'i gyfeirio i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor.

2.1.2 Rhaid iddo fod wedi'i arwyddo gan neu ar ran yr Ymgeisydd.

2.1.3 Rhaid iddo nodi'r swm y ceisir yr indemniad amdano.

2.1.4 Rhaid nodi enw a chyfeiriad y Cyfreithiwr gyflogwyd gan yr Ymgeisydd yn y mater lle ceisir cael indemniad ("y Mater"). Rhaid rhoi enw'r Cyfreithiwr unigol sy'n delio â'r mater ynghyd ag unrhyw berson arall sy'n ennill ffi ac a fydd yn delio gyda'r mater ynghyd â'u cyfraddau costau yn ôl yr awr neu ffi a gytunwyd a chrynodeb o'u profiad ym maes gwaith y Mater.

2.1.5 Nodi unrhyw fargyfreithiwr a gyflogwyd gan yr Ymgeisydd yn y Mater ynghyd â'r cyfraddau fesul awr y cytunwyd arnynt neu'r ffi briff y cytunwyd arni i'w cyflogi. At hyn, rhaid rhoi manylion am brofiad y bargyfreithiwr ym maes gwaith y Mater.

2.1.6 Nodi unrhyw dyst arbenigol neu unrhyw dyst arall y bydd yr Ymgeisydd yn talu ei g/chostau wrth ddelio gyda'r Mater ynghyd â manylion am y costau hyn yn ôl cyfraddau fesul awr, ffi gytunedig neu amcangyfrif o'r costau fel bydd yr achos.

2.1.7 Rhoi rhyw syniad o gyfanswm y costau tebygol i'r Ymgeisydd wrth ddelio gyda'r Mater.

2.1.8 darparu manylion yr achos o blaid ac yn erbyn yr Ymgeisydd fel y gellir gwneud asesiad rhesymol o rinweddau'r mater cyn penderfynu ar y Cais.

2.1.9 rhoi sylw i'r materion hynny yn y Gorchymyn sy'n rhwystro neu'n cyfyngu rhoi indemniad, gan wneud hynny'n ddigon manwl fel y gall y Cyngor fodloni ei hun bod caniatáu indemniad yn disgyn o fewn y pwerau a roddir gan y Gorchymyn.

2.2 Er gwaethaf yr uchod, gall y Cyngor (yn gweithredu yn y lle cyntaf trwy ei Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol) ofyn am ragor o wybodaeth ar y mater gan yr Ymgeisydd os yw'n credu nad oes ganddo ddigon o wybodaeth i benderfynu'n briodol ar y Cais yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn.

2.3 Ni roddir unrhyw indemniad mewn perthynas ag unrhyw gostau a gafodd yr Ymgeisydd cyn cyflwyno cais i'r Cyngor y mae'n rhaid iddo gydymffurfio gyda gofynion Rhan 2 yma.

2.4 Nid yw unrhyw benderfyniad ar Gais yn rhwystro'r Ymgeisydd rhag cymryd unrhyw gamau y gwêl yn ddoeth wrth roi sylw i'r mater, yn amodol ar unrhyw delerau y gellir rhoi indemniad arnynt.

3 Penderfynu'r Cais

3.1 Cyfrifoldeb yr Is-Bwyllgor a sefydlwyd gan y Cyngor llawn i'r pwrpas hwnnw fydd penderfynu ar y Cais.

3.2 Cynhelir cyfarfod o'r Is-Bwyllgor ("y Cyfarfod") cyn gynted ag y bo modd i benderfynu ar y cais ar ôl derbyn Cais sy'n cydymffurfio gyda gofynion paragraff 2 uchod. Os oes angen, cynhelir y cyfarfod yn breifat gyda'r wasg a'r cyhoedd wedi eu cau allan.

3.3 Yn y Cyfarfod bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno gan y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol ynghyd â chopi o'r Cais.

3.4 Mae'n bosib, os yw'r Ymgeisydd yn Aelod, y bydd ganddo ef (neu hi) ddiddordeb sy'n rhagfarnu a fydd yn golygu na chaiff ef (neu hi) fynychu'r cyfarfod. Gall yr ymgeisydd ystyried a gofyn am i'r Cais gael ei drin fel a ganlyn yr Is-Bwyllgor:-

3.4.1 fel Cais papur yn unig yn unig heb unrhyw sylwadau ar ran yr Ymgeisydd,

3.4.2 trwy gyflwyniad byr ar y Cais ar ran yr Ymgeisydd (er enghraifft gan eu cyfreithiwr) neu

3.4.3 trwy gyflwyniad byr gan yr Ymgeisydd ar yr amod, os oes gan yr Ymgeisydd ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn y Mater, ei fod/bod wedi cael caniatâd arbennig yn gyntaf gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor yn caniatáu iddo/iddi fynychu'r Cyfarfod a gwneud eu sylwadau yn unol â thelerau unrhyw ganiatâd o'r fath.

3.5 Os yw'r Ymgeisydd yn gofyn am yr hawl i wneud cyflwyniad (un ai ei hun neu gan gynrychiolydd) yn y Cyfarfod bydd raid dilyn y drefn isod:

3.5.1 Cyflwynir yr adroddiad ysgrifenedig i'r Cyfarfod,

3.5.2 Rhoddir caniatâd i'r Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd wneud cyflwyniad byr i gefnogi'r Cais,

3.5.3 Gall Aelodau (neu swyddog) ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu i gynrychiolydd yr Ymgeisydd a gellir eu hateb,

3.5.4 Gall yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd wneud datganiad byr i gloi,

3.5.5 Bydd Aelodau yn trafod y cais yn absenoldeb yr Ymgeisydd a'r cynrychiolydd,

3.5.6 Bydd Aelodau yn penderfynu ar y cais (yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 3.7 isod) gyda golwg ar unrhyw fater, cyfyngiad neu amod sy'n codi o'r Gorchymyn neu o'r Polisi hwn ac a all fod yn berthnasol i amgylchiadau'r Cais.

3.5.7 Bydd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd yn derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r penderfyniad a wnaed cyn gynted ag y bo modd.

3.6 Ar yr amod bod yr Is-Bwyllgor yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar y cais, yna bydd yn penderfynu'r cais. Bydd raid cefnogi unrhyw benderfyniad gyda rhesymau a bydd raid cofnodi'r rhesymau hynny.

3.7 Os yw'r Is-Bwyllgor yn credu bod angen rhagor o wybodaeth cyn y gall benderfynu ar y Cais, bydd yn ceisio cael y wybodaeth honno gan yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd yn y Cyfarfod. Onid yw'r wybodaeth honno ar gael yn ystod y Cyfarfod, bydd yr Is-Bwyllgor yn gohirio'r cyfarfod wedi iddo nodi a chofnodi'r wybodaeth sydd raid wrthi. Ailgynhelir y Cyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

## B. <u>Amodau a Chyfyngiadau ar Delerau unrhyw Indemniad a Roddir</u>

4.1 Bydd gan yr Is-Bwyllgor ddisgresiwn llwyr ynghylch telerau, natur, hyd ac/neu gyfyngiadau a roddir ar unrhyw indemniad i'r Ymgeisydd ac eithrio y bydd unrhyw indemniad <u>a roddir i Aelod i amddiffyn honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad</u> yn destun cap o £20,000 <u>(ugain mil o bunnoedd)</u>. Bydd unrhyw indemniad a roddir yn amodol ar delerau neu gyfyngiadau fel y gwêl yr Is-Bwyllgor yn ddoeth, a chan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau pob mater unigol ac unrhyw gyngor a roddir gan y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol yn y Cyfarfod.

**Deleted:** i amddiffyn achos yn ei erbyn am gamymddwyn

4.2 Heb ragfarn i gyffredinolrwydd paragraff 4.1 uchod, gellir rhoi indemniad i'r Ymgeisydd yn amodol ar un neu ragor o'r cyfyngiadau isod:

4.2.1 Cap ar y swm ariannol a indemnir a bod y swm a delir yn cynnwys TAW,

4.2.2 Cyfyngiad ar gyfraddau a godir gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr fesul awr neu gyfraddau unrhyw berson arall y mae eu costau yn rhan o'r Cais,

4.2.3 Ni fydd symiau a indemnir ond yn cael eu talu i'r Ymgeisydd mewn rhandaliadau ariannol penodol, yn unol â meini prawf neu amodau a osodwyd gan yr Is-Bwyllgor fel rhan o'r penderfyniad ar y Mater,

4.2.4 Dim ond rhai costau arbennig fydd yn cael eu hindemnio,

4.2.5 NI fydd indemniad yn cael ei dalu (neu ran o indemniad) ond ar ôl cyflwyno i'r Cyngor anfonebau gyda derbynebion ar gyfer costau a nodwyd yn y Cais,

4.2.6 Rhaid cael caniatâd neu gyngor ymlaen llaw gan berson penodol (fel y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol neu gwnsler annibynnol) neu rhaid i'r Ymgeisydd gymryd unrhyw gam a benodwyd mewn perthynas â'r Mater cyn y telir y cyfan neu ran neu gyfran o'r indemniad.

## C. <u>Telerau Cyffredinol yr Indemniad</u>

1. Yn amodol ar yr uchod ac unrhyw delerau, amodau neu gyfyngiadau a benderfynir neu a osodir mewn unrhyw achos penodol gan yr Is-Bwyllgor, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn indemnio pob aelod a swyddog o'r Cyngor yn erbyn hawliad, atebolrwydd neu golled ac/neu ddifrod mewn perthynas ag unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu gan unrhyw aelod neu swyddog a:-

(a) Mae wedi'i awdurdodi gan y Cyngor; neu

(b) Mae'n rhan o, neu'n codi o unrhyw bwerau a roddwyd neu ddyletswyddau a osodwyd ar yr aelod neu'r swyddog o ganlyniad i unrhyw swyddogaeth a weithredir gan yr aelod neu'r swyddog (p'un a ydyw'r aelod neu swyddog, wrth weithredu'r swyddogaeth honno, yn gwneud hynny yn rhinwedd ei swydd fel aelod neu swyddog o'r Cyngor)

(i) ar gais neu gyda chaniatâd diamwys y Cyngor; neu

(ii) i ddibenion y Cyngor

Ac eithrio na thelir costau amddiffyn hawliad o'r fath a gafwyd cyn bod Cais am indemniad yn llwyddiannus.

Heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr indemniad (uchod) mae'r indemniad yn ymestyn i gamau:-

(a) a gymerwyd dan bwerau dirprwyol;

(b) a gymerwyd yn bersonol dan unrhyw ddarpariaeth statudol benodol fel y Pennaeth Gwasanaeth Taledig, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro, Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997.

(c) a gymerwyd mewn Partneriaethau, trefniadau cydweithio anffurfiol, sefydliadau elusennol, cwmnïau (beth bynnag fo'u cyfansoddiad) pan fo'r aelod neu'r swyddog yn gwasanaethu fel cynrychiolydd y Cyngor ar y cyrff hyn.

(I bwrpas yr indemniad mae "aelod" yn cynnwys pobl annibynnol a chyfetholedig sy'n eistedd ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor).

**2. Amodau a Chyfyngiadau sy'n berthnasol i'r Indemniad**

**A. <u>Ewyllys Da</u>**

Rhaid i aelod neu swyddog sy'n dibynnu ar yr indemniad:-

(i) Credu bod y weithred, neu'r methiant i weithredu, dan sylw o fewn pwerau'r Cyngor
neu

(ii) Pan fo'r weithred neu'r methiant i weithredu yn golygu cyhoeddi neu awdurdodi unrhyw ddogfen ac ynddi ddatganiad ynghylch pwerau'r Cyngor perthnasol, neu unrhyw ddatganiad yn dweud y cymerwyd rhai camau neu y cyflawnwyd rhai gofynion, yn credu bod cynnwys y datganiad hwnnw yn gywir;
a
yn y naill achos neu'r llall, ei bod yn rhesymol i'r aelod neu'r swyddog gredu hynny ar y pryd pan y bu i'r aelod neu'r swyddog weithredu neu fethu gweithredu.

Bydd y Cyngor yn rhoi'r indemniad mewn perthynas â gweithred neu fethiant i weithredu os cesglir wedyn bod y weithred neu'r methiant i weithredu y tu draw i rym yr aelod neu'r swyddog dan sylw, ond dim ond i'r graddau bod yr aelod neu'r swyddog yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r diffyg gweithredu dan sylw o fewn grym yr aelod neu'r swyddog ar yr adeg pryd y bu i'r aelod neu'r swyddog fethu gweithredu.

**B. <u>Adennill costau</u>**

Os rhoddir indemniad i unrhyw aelod neu swyddog mewn perthynas ag amddiffyn unrhyw achos neu achosion troseddol sy'n honni y torrwyd y côd ymddygiad yna:-

(i) Mewn perthynas ag achos troseddol, os ceir yr aelod neu'r swyddog yn euog o drosedd, yna bydd raid ad-dalu i'r Cyngor neu i'r yswirwyr unrhyw symiau a wariwyd gan y Cyngor neu ei yswirwyr mewn perthynas â'r achos hwnnw.

(ii) Os yw'r achos yn ymwneud â honiad yn erbyn aelod o dorri'r cod ymddygiad:-

(a) Os cesglir bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r côd ymddygiad (neu os yw'r aelod wedi cyfaddef hynny) ac, o ganlyniad, mae'r aelod yn cael ei atal/hatal, ei atal/hatal yn rhannol neu ei (h)anghymwyso, yna bydd raid ad-dalu i'r Cyngor neu ei yswirwyr y symiau a wariwyd gan y Cyngor;

(b) Yn achos honiad ynghylch torri'r côd ymddygiad ac os cesglir bod aelod wedi methu a chydymffurfio gyda'r côd ymddygiad (neu wedi cyfaddef hynny) ac, o ganlyniad, os yw'r aelod yn cael cerydd neu'n cael rhyw gosb arall yn hytrach na'i atal/ hatal, ei atal/hatal yn rhannol neu anghymhwyso / hanghymwyso yna, os yw'r Pwyllgor Safonau yn credu bod hynny'n briodol, rhaid ad-dalu i'r Cyngor neu ei yswirwyr y symiau a wariwyd gan y Cyngor neu ei yswirwyr.

Os bydd angen gwneud ad-daliad bydd hyn yn cynnwys unrhyw TAW a dalwyd fel rhan o'r swm a indemniwyd.

**C. <u>Difenwi</u>**

Nid yw'r indemniad hwn yn ymestyn i aelod neu swyddog yn **<u>gwneud</u>** unrhyw honiad mewn perthynas â difenwad honedig yr aelod neu'r swyddog hwnnw.

**D. <u>Swyddog Canlyniadau</u>**

Nid yw'r indemniad hwn yn berthnasol i waith a swyddogaethau'r Swyddog Canlyniadau.

**E. <u>Egwyddorion Cyffredinol</u>**

(i) Bydd y Cyngor yn rhoi i'r aelod neu'r swyddog fynediad rhesymol a chymesur at weithwyr ac adnoddau'r Cyngor a chyfleusterau fel bod modd i'r swyddog unigol neu'r aelod unigon ymateb yn briodol i honiadau o atebolrwydd personol;

(ii) Bydd y Cyngor yn caniatáu cynrychiolaeth gyfreithiol i aelod neu swyddog ar wahân i ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor ei hun (ac/neu ymgynghorwyr cyfreithiol yr yswirwyr) lle gall diddordebau'r Cyngor a'r unigolyn wrthdaro neu mewn amgylchiadau eraill lle cytunwyd rhwng y Cyngor a'r swyddog unigol neu'r aelod unigon bod cynrychiolaeth gyfreithiol ar wahân yn briodol.

(iii) Ni fydd y Cyngor yn ceisio adennill gan unrhyw aelod neu swyddog unigol unrhyw golledion a gafodd y Cyngor o ganlyniad i weithredu neu fethiant i weithredu gan yr aelod neu'r swyddog dan sylw ac eithrio:-

(a) Lle nad oedd yr aelod neu'r swyddog dan sylw yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r methiant i weithredu dan sylw o fewn ei rym ar yr amser pryd digwyddodd y weithred neu'r diffyg gweithredu, neu

(b) Lle roedd y weithred neu'r methiant i weithredu yn dramgwydd troseddol.

PAPUR / ENCLOSURE
G

## Medwen Jones

| | |
|---|---|
| **From:** | Medwen Jones |
| **Sent:** | 26 February 2013 10:11 |
| **To:** | RPJED@anglesey.gov.uk; Bethan Jones; Gwynne Jones; Arthur Owen; Gwen Carrington; Mike Barton; Anwen Davies; Carys Edwards; Carys Emyr Edwards; John Fidoe; Anwen M. Hughes; 'J Huw. Jones (JHJCE@anglesey.gov.uk)'; 'J Huw. Jones (JHJCE@anglesey.gov.uk)'; Gwyn Parry (GXPED@anglesey.gov.uk); Einir W. Thomas; John Rees. Thomas; Dewi R. Williams; Dylan Williams; Shan Lloyd. Williams; Jim Woodcock; Gill Lewis; Lynn Ball; Clare J. Williams; John Chorlton; EufrynDavies; Lewis Davies; Jim Evans; Richard Dew; Cliff Everett; Fflur Hughes; Kenneth Hughes; Robert Ll Hughes; Trefor Lloyd Hughes; R Vaughan Hughes; William I Hughes; Aled M. Jones; Dylan Jones; Eric Jones; Gwilym Jones; Hywel Eifion Jones; O Glyn Jones; Raymon Jones; Robert Llewelyn Jones; Thomas H jones; Clive McGregor; Rhian Medi; Bryan Owen; John Victor Owen; Richard Owen; Bob Parry; Goronwy Parry; ARWEL ROBERTS; Eric Roberts; Gareth Winston Roberts; Peter Rogers; Elwyn Schofield; Ieuan Williams; Selwyn williams; Alun W. Mummery; Vaughan Hughes |
| **Cc:** | Michael Wilson; Islwyn Jones; Leslie Lord; Denise-Harris Edwards; Dilys Shaw; williamevansandsonsltd@hotmail.co.uk; drharrisedwards@yahoo.co.uk; John Roberts; 'hsb1@btinternet.com'; 'shw127@hotmail.co.uk' |
| **Subject:** | PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO / SELF REGULATION PROTOCOL |
| **Attachments:** | 165338 - PDF COPY CYM - Revised Protocol for Self Regulation - Suggested Principles.pdf; 165337 - PDF COPY ENG - Revised Protocol for Self Regulation - Suggested Principles.pdf |

Fel yr ydych yn gwybod, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu Protocol Hunan Reoleiddio i ddatrys anghydfodau bychan sy'n ymwneud ag Aelodau, gyda golwg ar osgoi iddynt gael eu cyfeirio i'r Ombwdsmon.

Fel rhan o'i Raglen Waith ar gyfer 2012/13 mae'r Pwyllgor Safonau wedi adolygu'r Protocol cyfredol, ac wedi rhoi argymhellion ymlaen ar gyfer newid.

Mae'r newidiadau a awgrymir wedi eu hymgorffori mewn cyfres o egwyddorion cyffredinol, ac y mae copi ohonynt ynghlwm.

Mae'r rhain wedi derbyn cytundeb yr Arweinyddion Grwpiau ond cyn i'r Pwyllgor Safonau ddechrau drafftio protocol newydd, byddent yn falch o dderbyn eich barn a'ch sylwadau, yn cynnwys unrhyw gynigion eraill.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau, byddwn yn ddiolchgar o'u derbyn, yn ysgrifenedig, erbyn diwedd mis Mawrth.

Llawer o ddiolch,

---

As you know, the County Council adopted a Self Regulation Protocol to resolve minor disputes involving Members, with a view to avoiding escalation of complaints to the Ombudsman.

As part of its Work Programme for 2012/13 the Standards Committee has reviewed the current Protocol, and put forward recommendations for change.

The suggested changes are embodied in a set of general principles, a copy of which is attached.

These have the agreement of the Group Leaders but, before the Standards Committee embarks on drafting a revised Protocol, they would be grateful for your comments and observations, including any alternative proposals.

If you have any comments, I would be glad to receive them, in writing, by the end of March.

Many thanks

Lynn
Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol/Swyddog Monitro
Head of Function Legal and Administration/Monitoring Officer
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council
Ffôn / Phone: 01248 752586
E-bost / E-mail: LBXCS@anglesey.gov.uk
Document: CC-016592-LB/165334

**Protocol Diwygiedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Hunanreoleiddiad**

**Egwyddorion a awgrymir:**

1. Newid yr enw i Protocol Datrysiad Lleol.

2. Cyfyngu'r Protocol i ddelio gyda pharagraffau (4)(b) a (6)(1) (d) y Côd, sef methiant honedig i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill a pheidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn Aelodau neu Swyddogion (copi o'r dyfyniadau ynghlwm).

3. Pwrpas y Protocol yw datrys materion a chymodi yn gyflym yn hytrach na chosbi.

4. Gall unrhyw Aelod wneud cwyn yn erbyn unrhyw Aelod arall neu gall unrhyw Swyddog wneud cwyn yn erbyn unrhyw Aelod.

5. Bydd unrhyw Aelod neu Swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol yn cyflwyno eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro ar ffurflen fer, safonol.

6. Rhaid cyflwyno unrhyw gŵyn o fewn 7 niwrnod gwaith o ddyddiad y digwyddiad neu o fewn 7 niwrnod gwaith o'r dyddiad y daeth y digwyddiad yn hysbys i'r achwynydd.

7. Bydd y Swyddog Monitro yn anfon copi o'r gwyn i'r Aelod y mae a wnelo'r cais ag ef/hi.

8. Bydd gan yr Aelod y mae a wnelo'r gŵyn ag ef/hi 7 niwrnod i anfon ateb i'r Swyddog Monitro.

9. Wedi derbyn unrhyw ateb, neu wedi i'r 7 niwrnod gwaith ar gyfer ateb fynd heibio, bydd y Swyddog Monitro'n trefnu Panel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried y gwyn ar y dyddiad cyntaf sy'n gyfleus.

10. Bydd y Panel yn cynnwys dau Aelod o'r Pwyllgor Safonau (yn eu tro, ac ni fydd yn cynnwys Cynghorwyr Cymuned).

11. Bydd y cyfarfod o'r Panel yn cael ei gynnal yn breifat a bydd unrhyw waith papur y bydd yn ei dderbyn neu'n ei greu yn cael ei gadw'n gyfrinachol (oni bai y bydd unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i'w ddatgelu, e.e. i'r Ombwdsmon; neu os bydd y mater yn dwysau).

12. Bydd y partïon dan sylw yn cael gwahoddiad i fynychu'r Panel a gallant ddod ag unrhyw dystion i'r cyfarfod y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

13. Bydd yr Arweinyddion Grŵp yn cael gwahoddiad a gallant fynychu os ydynt yn dymuno.

14. Bydd y Swyddog Monitro neu ei chynrychiolydd yn mynychu i gynghori'r Panel.

15. Ar ôl clywed gan y partïon ac unrhyw dystion, bydd y Panel yn mynegi barn ac yn gwneud argymhellion ar gyfer datrys y mater. Gall argymhellion o'r fath gynnwys cais i'r Arweinyddion Grŵp gymryd camau, a hynny mewn perthynas hefyd ag Aelodau nad ydynt yn perthyn i unrhyw Grŵp.

16. Cyflwynir adroddiadau ar ganlyniad pob Panel, ar ffurf ddienw, i gyfarfodydd chwarterol o'r Pwyllgor Safonau.

CC-016592-LB/164069

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu —

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi —

(a) cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a

(ch) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran.

5. Rhaid i chi —

(a) peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) peidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

6. (1) Rhaid i chi —

(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan

unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;
(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi —

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio—

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan—

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

**Ffurflen Cwyn ar gyfer y Protocol Hunanreoleiddiad**

**I:** Y Prif Weithredwr

**Oddiwrth:**

**Dyddiad:**

**Rydwyf I / Rydym Ni yn cadarnhau bod pob ymdrech uniongyrchol i ddatrys y gwyn a nodir isod wedi methu.**

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r gwyn** | |

| | |
|---|---|
| **Ym mhle a phryd y digwyddodd hyn** | |
| **A oes eraill ynghlwm a'r gwyn** | |

| | |
|---|---|
| **Beth ydych yn dymuno ei weld fel canlyniad** | |

Llofnod: ____________________________ Dyddiad:______________________

This page is intentionally left blank

PAPUR / ENCLOSURE
NG

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Y Pwyllgor Safonau, Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | Pwyllgor Safonau 13.03.13<br>Pwyllgor Gwaith 18.03.13<br>Cyngor Llawn --.04.13 |
| **Pwnc** | Gwneud y newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (Adran 4.6 y Cyfansoddiad) i baratoi am Wardiau Aml-Aelod wedi Etholiadau 2013 |
| **Deilydd Portffolio** | Y Cynghorydd Robert Lloyd Hughes |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Swyddog Cyswllt** | Robyn Jones (x2134) |

**Rheswm am yr adroddiad:**

1.1 Gwneud y newidiadau i'r Cyfansoddiad, adran 4.6: Rheolau Gweithdrefn Cynllunio, er mwyn cymryd i ystyriaeth y wardiau aml-aelod wedi etholiadau'r Cyngor Sir yn 2013.

1.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r newidiadau bwriededig a gofynnir i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad i wneud y newidiadau fel y danghosir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma. Ymgynghorir efo'r Pwyllgor Safonau ar y bwriad.

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

2.1 Bydd etholiadau'r Cyngor Sir yn 2013 yn creu 11 o wardiau aml-aelod.

2.2 Bydd y newid i wardiau aml-aelod yn cael effaith ar y Rheolau Gweithdrefn Cynllunio ("y Rheolau") yn rhan 4.6 o Gyfansoddiad y Cyngor.

2. Mae'r Rheolau wedi eu hadolygu i gymryd i ystyriaeth creu'r wardiau aml-aelod ac mae'r newidiadau a fwriedir wedi eu gosod allan a'u tracio yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.

## B – Ystyriaethau

3.1 Bwriad y newidiadau i'w i fod mor oddefol a sy'n bosib. Byddent yn caniatau unrhyw 'aelod lleol' dros ward newydd i alw i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gais cynllunio ar gyfer safle sydd wedi ei leoli o fewn y ward yna a byddent yn caniataui unrhyw aelod ar gyfer y ward yna i siarad fel aelod lleol o flaen

| |
|---|
| y Pwyllgor ar y cais sydd wedi ei alw i mewn.<br>3.2 Mae nifer o fân newidiadau eraill a rhai sy'n dilyn wedi eu gwneud hefyd fel y dangosir ar yr Atodiad sydd ynghlwm. |

| **C – Goblygiadau ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Dim sylwadau wedi eu derbyn |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae swyddog cyfreithiol y Pwyllgor yn gyd-awdur yr adroddiad ac mae ei sylwadau wedi ei fynegi ynddi |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | Dim yn berthnasol |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **5** | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | Dim yn berthnasol |
| **6** | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Ni fydd y newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **8** | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim sylwadau |
| **9** | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Mae'r mater wedi ei ddwyn i sylw aelodau etholedig drwy ohebiaeth ac mae'r adroddiad a'r Atodiad wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Adroddir ar lafar ar unrhyw sylwadau. |
| **10** | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| **11** | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | Dim yn berthnasol |

| CH – Crynodeb |
|---|
| 4.1 Mae'r Atodiad yn gosod allan y newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (rhan 4.6 o Gyfansoddiad y Cyngor) er mwyn cymryd ystyriaeth o'r wardiau aml-aelod yn dilyn etholiadau'r Cyngor sir yn 2013. |

| D – Argymhelliad |
|---|
| 5.1 Dyma'r argymhellion:<br><br>I'r Pwyllgor Gwaith:<br>5.2 Argymell i'r Cyngor llawn bod y newidiadau i'r Rheolau yng Ngyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiad i'r adroddiad yma yn cael eu gwneud.<br><br>I'r Cyngor llawn:<br>5.3 Gwneud y newidiadau i'r Rheolau yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, a<br>5.4 Dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) y grym i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn gweithredu penderfyniad y Cyngor. |

**Enw awdur yr adroddiad: Robyn W. Jones**
**Teitl Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Dyddiad: 22 Chwefror 2013**

| Atodiadau: |
|---|
| Copi o'r Rheolau yn dangos y newidiadau bwriedig. |

| Papurau Cefndirol: |
|---|
| Dim. |

## ATODIAD

**4.6 Rheolau Gweithdrefn Cynllunio**

Deleted: Materion

**Cynnwys**


**4.6.1 Cyflwyniad**

**4.6.2 Penderfynu ar geisiadau cynllunio**

**4.6.3 Trafodaethau rhagarweiniol (cyn gwneud penderfyniad) Swyddogion gydag Ymgeiswyr**

**4.6.4 Cynghorwyr yn lobïo ac yn cael eu lobïo**

**4.6.5 Trefniadau siarad ac eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.6 Cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud â chynigion datblygu**

**4.6.7 Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned**

**4.6.8 Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gynghorwyr**

**4.6.9 Cofrestru a datgan diddordeb**

**4.6.10 Cynghorwyr a Swyddogion yn cyflwyno cynigion datblygu**

**4.6.11 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu y cynllun datblygu**

**4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor**

**4.6.14 Ymddygiad Swyddogion**

**4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion**

**4.6.16 Ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.17 Anrhegion a lletygarwch**

**4.6.18 Hyfforddiant**

**Atodiad**

**4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd**


PL-16745-RWJ/165287

**4.6.20 Rôl Cadeirydd y Pwyllgor**

**4.6.21 Y Cyhoedd yn siarad**

PL-16745-RWJ/165287

4.6.1 **CYFLWYNIAD**

4.6.1.1 Un o ddyletswyddau pwysig y Cyngor Sir yw penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r rheolau hyn yn pennu sut y bydd y Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, yn delio â cheisiadau cynllunio ac maent yn berthnasol i Gynghorwyr a Swyddogion gan ddibynnu ar y cyd-destun.

4.6.1.2 Swyddogion Cynllunio, yn gweithredu ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, fydd yn penderfynu ar y rhan fwyaf o'r ceisiadau a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) fydd yn penderfynu ar bob cais arall. Mae'r rheolau sy'n pennu pa un ai Swyddogion ynteu'r Pwyllgor fydd yn penderfynu ar geisiadau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn. O'r achosion hynny lle gall y Pwyllgor wneud y penderfyniad, yr un mwyaf arwyddocaol yw lle y gall Cynghorydd lleol (sef unrhyw un sy'n cynrychioli'r ardal leol lle mae'r tir sy'n destun cais cynllunio) fynnu ar gyflwyno cais i'r Pwyllgor benderfynu arno (un a allai fel arall gael ei benderfynu gan Swyddogion). Yn yr achosion hyn, rhaid i'r cynghorydd lleol 'alw i mewn' yn ysgrifenedig gais o'r fath a gan gyfeirio'r cais galw i mewn at y Prif Swyddog Cynllunio o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod iddo/iddi am y cais. Yn achos y ceisiadau hynny a elwir yn rhai economaidd "gyda brys" caniateir 14 diwrnod yn unig i chi i'w trosglwyddo i'r Pwyllgor. Gall y cynghorydd lleol sydd wedi galw'r cais cynllunio i mewn dynnu'n ôl eu cais i alw penderfyniad i mewn ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor drwy roi gwybod i'r swyddog achos a chadarnhau'n ysgrifenedig bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

Deleted: ym mharagraff ......
Deleted: o
Deleted: y
Deleted: yr un

4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod ypenderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.

4.6.1.4 Un o amcanion allweddol y drefn gynllunio yw rheoli datblygiadau er lles y cyhoedd. Wrth gyflawni hyn, mae cynllunio o reidrwydd yn cael effaith ar fuddiannau tir ac eiddo, gwerth ariannol tiroedd ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn agored pan gânt effaith ar y buddiannau hyn a bod y penderfyniadau yn ddiduedd, yn seiliedig ar farn ddoeth ac wedi eu gwneud am resymau y mae modd eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses adael dim lle i awgrymu, gydag unrhyw gyfiawnhad, bod penderfyniad yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod yn deg.

4.6.2 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod raid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath

- ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol
- anwybyddu ystyriaethau amherthnasol neu rai y tu allan i'r maes cynllunio
- gweithredu'n ddiduedd, yn deg a pheidio ystyried unrhyw ystyriaethau gwleidyddol

PL-16745-RWJ/165287

4.6.2.2 Mae cyfraith cynllunio yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Statudol oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dangos fel arall. Mae'r pwyslais wrth benderfynu ar geisiadau ar drefn 'yn ôl cynllun'.

4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunioar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd.

4.6.2.4 Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio i ystyried sylwadau ddaw i olwg yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i ymgynghori gyda chyrff â diddordeb neu o ganlyniad i rybudd cyhoeddus neu hysbysu cymdogion. Wrth bwyso a mesur mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a pha bwysau i osod arnynt. Ni ddylai'r Pwyllgor ddod i gasgliad hyd oni fydd holl ffeithiau wedi'u cyflwyno yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.

4.6.2.5 Rhaid i Gynghorwyr beidio â gwneud ymrwymiad ynghylch unrhyw fater cynllunio cyn ei ystyried yn y Pwyllgor. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, y bydd ymgeiswyr, asiantiaid a gwrthwynebwyr o bryd i'w gilydd yn mynd i ben Cynghorwyr unigol ynghylch cynigion cynllunio. Amcan y rheolau hyn yw cynorthwyo Cynghorwyr i drin digwyddiadau o'r fath a chawsant eu llunio i sicrhau cadw cywirdeb y drefn benderfynu.

Deleted: au

Deleted: ar sut

4.6.2.6 Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neumewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.

Deleted:

4.6.3 **TRAFODAETHAU RHAGARWEINIOL (CYN GWNEUD PENDERFYNIAD) SWYDDOGION GYDAG YMGEISWYR**

4.6.3.1 Mewn unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio, eglurir bob amser ar y dechrau na fydd trafodaeth o'r fath :

- yn ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad penodol, a
- bod unrhyw sylwadau yn cael eu mynegi ar sail barn broffesiynol y Swyddog ar y pryd ond heb ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i unrhyw benderfyniad arbennig.

Deleted: rhwymo'r

Deleted: arbennig

4.6.3.2 Bydd unrhyw gyngor a roddir :

- yn gyson ac yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- yn ddiduedd a'r gorau y gall swyddog ei roddi dan yr amgylchiadau, a
- bydd yn ceisio dwyn sylw at unrhyw broblemau amlwg.

Deleted: , y

4.6.3.3 Ni chaiff Cynghorydd gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Swyddogion gydag ymgeiswyr ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais. Pan fo hynny'n digwydd, mae modd cyflwyno cwyn am y Cynghorydd i Swyddog Monitro'r Cyngor.

4.6.4 **CYNGHORWYR YN LOBÏO AC YN CAEL EU LOBÏO**

4.6.4.1 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor

PL-16745-RWJ/165287

(i) Mae ymgeiswyr, gwrthwynebwyr ac eraill â diddordeb yng nghanlyniad ceisiadau cynllunio yn debygol o gysylltu gyda Chynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor. Oherwydd natur led-farnwrol neu reoleiddiol penderfyniadau cynllunio, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ganiatáu i neb eu lobïo - pa un ai o blaid neu yn erbyn cais. Os digwydd hynny, dylent hysbysu'r person sy'n ceisio pwyso arnynt, os bydd iddynt drafod y cais gyda'r person hwnnw, y gall hynny eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad ar y cais. Yn lle hynny, dylid cynghori darpar lobïwyr i gysylltu gyda'u Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio.

(ii) Ni ddylai cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor drefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig cynllunio os ydynt am gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais yn ddiweddarach.

(iii) Wrth ystyried yr angen i wneud penderfyniadau'n ddiduedd, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ffafrio, na rhoi'r argraff o ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grwp nac ardal, na datgan cyn y cyfarfod pa ffordd y bwriadant bleidleisio. Byddai gwneud hynny heb gael yr holl wybodaeth a sylwadau perthnasol yn annheg a niweidiol. Os bydd Cynghorydd yn teimlo y byddai'r cyhoedd yn credu iddynt ddod i farn bendant ar y mater neu gais cynllunio cyn y cyfarfod, neu fod person â diddordeb wedi pwyso arnynt, ni ddylent gymryd rhan yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y mater. Nid yw hyn yn cael effaith ar eu hawl i annerch y Pwyllgor yn ôl darpariaeth adran 5.2 y rheolau hyn (4.6.5.2).

(iv) Pan fo'r Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn credu bod Cynghorydd wedi gwneud drwg i'w sefyllfa trwy fynegi barn bendant ar gais cyn i'r Pwyllgor benderfynu arno, bydd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn hysbysu'r Cynghorydd y byddai'n amhriodol iddo gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleideisio ar y cais. Gyda'r Cynghorydd, fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol - ond bydd yn wynebu sgriwtini o'r tu allan.

4.6.4.2 Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor

Ni ddylai ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor. Os oes rhywun yn cysylltu gyda'r Cynghorwyr hyn yna dylai'r Cynghorwyr roi gwybod i'r sawl sy'n lobïo y dylent un ai gysylltu gyda un o'u Cynghorwyr lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu gyda'r Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio. Os ydyw cynghorydd o'r fath yn cael ei lobïo yna ni ddylai lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni fydd â'r hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Deleted: '

Deleted: ydd

4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

(4.6.4.3.1 Mae gwahaniaethau i'r rheolau I sy'n ymddangos yn 4.6.4.1 (i) a 4.6.4.2 yng nghyswllt y Cynghorydd lleol, h.y. unrhyw un o'r Cynghorwyr y mae'r datblygiad arfaethedig yn eu ward.

Deleted: y

Deleted: dd

Deleted: i

(4.6.4.3.2) Os nad yw'r Cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor yna mae'n iawn i ymgeisydd, i wrthwynebydd neu unrhyw un arall â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio lobïo'r Cynghorydd lleol hwnnw. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn cael ei lobïo a chyda'r amod nad oes ganddo

ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr, yna bydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor a siarad yn y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni ddylai ef/hi ei hun lobïo, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor.

(4.6.4.3.3.) Os oes cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond **ni** fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd arall sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol.

(4.6.4.3.4.iv) Ni all y Cynghorwyr lleol gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor na chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os oes ganddynt ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr. Bydd hyn yn berthnasol - pa un a ydynt yn aelodau ai peidio o'r Pwyllgor. Os ydyw cynghorydd lleol yn cael ei hun yn y sefyllfa hon dylai gyfeirio unrhyw lobïwr at gynghorydd arall sydd ddim yn aelod o'r Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol.

4.6.4.4 Pan fo llythyrau hysbysu cymdogion yng nghyswllt cais cynllunio yn cael eu hanfon i eiddo heb fod yn yr un ward â safle'r cais yna gall Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r eiddo dan sylw siarad fel cynghorwyr lleol yn y Pwyllgor. Dim ond yr hawl i siarad yn y Pwyllgor a roddir dan y rheol hon ac nid yw'n rhoddi unrhyw hawliau eraill i'r cynghorydd dan sylw fel cynghorydd lleol.

## 4.6.5 TREFNIADAU SIARAD AC EISTEDD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr sydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor - pa un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent siarad â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo.

4.6.5.2 Bydd yr hawl i annerch y Pwyllgor yn berthnasol hefyd i aelodau o'r Pwyllgor (gan gynnwys cynghorydd lleol):

- sydd wedi cael ei lobïo, neu
- all fod eisoes wedi mynegi barn bendant ar gais, neu
- sydd wedi siarad ar y cais ar lefel Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned, neu

PL-16745-RWJ/165287

**Deleted:** ni chaiff fel unigolyn
**Deleted:** c yn
**Deleted:** nac yn
**Deleted:** c
**Deleted:** ydyw'r
**Deleted:** sy'n cynrychioli ward gyfagos
**Deleted:** ac
**Deleted:** ystyrir mai cynghorydd o'r fath fydd y cynghorydd lleol
**Deleted:** a'
**Deleted:** yrru
**Deleted:** sy'n cynrychioli ward gyffiniol
**Deleted:** ond
**Deleted:** heb fod ar y
**Deleted:** ystyrir bod cynghorydd o'r fath yn gynghorydd lleol
**Deleted:** gyrru
**Deleted:** y
**Deleted:** ydd
**Deleted:** ydd
**Deleted:** "
**Deleted:** yn
**Deleted:** gysylltu
**Deleted:** "
**Deleted:** yr
**Deleted:** y pwyswyd arnynt
**Deleted:** a hefyd bydd yn berthnasol i'r cynghorydd lleol
**Deleted:** 'r

- unrhyw gynghorydd sy'n cynrychioli ward arall fel y cyfeiriwyd at hynny yn 4.6.4.3(iii)(2).

  Fodd bynnag, os caiff yr hawl hon ei hymarfer, dylai'r cynghorwyr ar y Pwyllgor gydymffurfio â pharagraff 4.6.5.1 uchod pan fydd y mater arbennig yn cael ei ystyried. Ni allant gymryd rhan yn y penderfyniad a dylent ddatgan yn y cyfarfod pam nad ydynt yn cyfranogi yn y penderfyniad.

Deleted: c
Deleted: 'r
Deleted: gyffiniol
Deleted: u

4.6.5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal busnes y cyfarfod yn unol â'r Atodiad sydd ynghlwm.

## 4.6.6 CYFARFODYDD CYHOEDDUS YN YMWNEUD Â CHYNIGION DATBLYGU

4.6.6.1 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar faterion cynllunio fynychu cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â chynigion datblygu neu geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, onid yw'r cyfarfodydd hynny wedi eu trefnu gan yr Awdurdod, neu gyda'i gytundeb pendant. Gallai mynychu arwain at honiadau o ochri neu ragfarn o ran safbwynt arbennig. O'u cael yn y fath sefyllfa o fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan, neu gyda chydsyniad, yr Awdurdod, neu trwy ddamwain, yna dylai Swyddogion fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol, yn gwrando ar sylwadau ac yn osgoi rhoi barn ar fanteision neu anfanteision y cynnig.

4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath rhaid peidio â datgan unrhyw farn ar fanteision nac ar anfanteision cynnig.

## 4.6.7 CYNGHORWYR SY'N AELODAU O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION A HEFYD YN GYNGHORWYR TREF NEU GYMUNED

Dylai'r cynghorwyr hyn benderfynu pa beth y dymunant ei wneud yng nghyswllt pob cais cynllunio all gael ei ystyried gan Gyngor Tref neu Gymuned (neu bwyllgor neu is-bwyllgor ohono).Y dewis yw:-
**un ai** :

4.6.7.1 cymryd rhan yn nhrafodaeth y Cyngor Tref neu Gymuned ac yna, os dymunant, siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ôl y ddarpariaeth yn y Rheolau yma ond i beidio a chymryd rhan fel arall yn nhrafodaethau'r Pwyllgor na phleidleisio ar y cais, neu

Deleted: Rheol 5.4

4.6.7.2 peidio â chwarae rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor Tref neu Gymuned (a, gorau oll, peidio â bod yn yr ystafell pan fydd y mater yn cael ei drafod) ac yna gyfranogi'n llawn yn y Pwyllgor.

Deleted: c, o ddewis,

4.6.7.3 **Sylwer:** Mae gan y cynghorwyr hynny sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor ond sydd heb fod yn aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned hawliau, fel aelodau eraill o'r cyhoedd, i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus y Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn achosion o'r fath, sylwedyddion yn unig fydd y Cynghorwyr yng nghyfarfodydd y Cynghorau Tref neu Gymuned ac ni allant gymryd rhan ynddynt.

Deleted: chwarae

## 4.6.8 GOHEBIAETH Y MAE CYNGHORWYR YN EI DERBYN

Os bydd cynghorwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol oddi wrth bobl â diddordeb yng nghanlyniad cais cynllunio, bydd raid iddynt sicrhau fod copi yn cael ei anfon i'r Adain Rheoli Cynllunio. Yna bydd yr Adain yn gwneud y canlynol:

4.6.8.1 os bydd amser yn caniatáu, anfon copi at yr ymgeisydd neu ei asiant/hasiant er mwyn rhoi'r cyfle iddo/iddi ymateb;

4.6.8.2 rhoi copi o'r holl sylwadau ar y ffeil Gynllunio;ac

Deleted:

4.6.8.3 os bydd amser yn caniatáu, sicrhau fod yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

4.6.9 **COFRESTRU A DATGAN DIDDORDEB**

Mae'r Gyfraith a Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cynghorwyr a swyddogion ar y materion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n delio â cheisiadau cynllunio a rhaid eu dilyn bob amser.

Deleted: d

4.6.10 **CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1 Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gwr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Prif Weithredwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Deleted: Rheolwr-gyfarwyddwr

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.

4.6.10.3 Bydd Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog

Monitro'r Awdurdod.Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno cieisiadau, gymryd unrhyw rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglyn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw fod cais o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferol ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylai Swyddogion sy'n ymwneud â'r broses rheoli datblygu baratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys Aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n mynd ar ôl mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o brosesu'r cais hwnnw.

Deleted: dilyn

Deleted: ¶
¶
¶

4.6.11 **ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR**

4.6.11.1 Bydd adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys asesiad rhesymedig o'r cynnig ac argymhelliad gyda chyfiawnhad, ynghlwm wrth bob cais cynllunio sy'n mynd gerbron y Pwyllgor.

4.6.11.2 Bydd unrhyw faterion newydd sydd wedi codi rhwng adeg paratoi'r adroddiad a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno ar lafar a bydd cyfeiriadau at hynny yn y cofnodion.

4.6.11.3 Bydd ffeil pob cais cynllunio yn cynnwys adroddiad manwl ar ddigwyddiadau drwy gydol oes y cais; yn arbennig bydd yn cynnwys canlyniad cyfarfodydd neu sgyrsiau arwyddocaol ar y ffôn.

4.6.11.4 Bydd yr un egwyddorion o gadw cofnodion da hefyd yn cael eu dilyn gyda materion gorfodi. Bydd rheolwyr yn yr Adain Rheoli Datblygu yn goruchwylio'r broses o gadw cofnodiadau yn barhaus.

Deleted: i

4.6.12 **PENDERFYNU YN GROES I ARGYMHELLION SWYDDOGION**

4.6.12.1 Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad Swyddog, bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r Swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y Swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o reswm(rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad, gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad

4.6.12.2 Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd.

PL-16745-RWJ/165287

4.6.12.3 Pan fo Cynghorwyr eisiau ychwanegu neu newid amodau a argymhellwyd gan Swyddogion, dylid gwahodd y Swyddogion i lunio amodau a'u cyflwyno, i'w cymeradwyo, yn y cyfarfod dilynol oni bai fod y llunio yn rhwydd a bod modd cytuno arno yn y cyfarfod gwreiddiol.

4.6.12.4 Pan fo swyddogion cynllunio yn methu ag amddiffyn penderfyniadau o'r fath ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) byddant yn egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor cyn cymryd pleidlais derfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau o aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i fynychu unrhyw apêl ac egluro yn yr apêl benderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Y ddau hyn fel arfer fydd cynigydd ac eilydd y cynnig sy'n groes i argymhelliad y swyddog.

4.6.13 **APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR**

4.6.13.1 Bydd y swyddogion yn trefnu ac yn gyffredinol yn ymddangos fel tystion mewn apeliadau cynllunio ac mewn cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd raid penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

4.6.13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor ond ar yr un pryd, bydd yn cydymffurfio gyda chôd ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi.

4.6.13.3 Pan fo'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion a'r swyddogion eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor na fedrant amddiffyn penderfyniad o'r fath, bydd y swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar yr apêl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Y Cynghorwyr fydd yn gyfrifol wedyn am gyflwyno achos y Cyngor yn yr apêl.

4.6.14 **YMDDYGIAD SWYDDOGION**

4.6.14.1 Mae Côd Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) yn ganllaw i Swyddogion sy'n Gynllunwyr Trefol Siartredig. Bydd raid i'r holl Swyddogion, pa un a ydynt yn Aelodau o'r Sefydliad ai peidio, gadw at yr un egwyddorion sef –

(4.6.14.1.1 Gweithredu yn fedrus, yn ddidwyll ac yn gywir;

(4.6.14.1.2) Ymarfer eu barn broffesiynol annibynnol yn eofn ac yn ddiduedd hyd eithaf eu gallu a'u dealltwriaeth;

(4.6.12.1.3) Cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwyr, cleientiaid, cydweithwyr ac eraill gyda dyledus ofal ac ymroddiad yn unol â darpariaethau'r Côd uchod;

(4.6.12.1.4) Peidio â dwyn anfri ar y proffesiwn nac ar y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol;

(4.6.12.1.5) Peidio â datgelu na defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol yn ystod eu gwaith i'w mantais eu hunain na'r Awdurdod;

(4.6.14.1.6) Gwrthod pob disgownt, anrheg neu gomisiwn sy'n cael ei gynnig gan unrhyw drydydd person mewn perthynas â'u gwaith fel cynllunwyr proffesiynol.

4.6.15 **Y BERTHYNAS RHWNG CYNGHORWYR A SWYDDOGION**

4.6.15.1 Er mwyn creu perthynas broffesiynol gadarn rhwng Swyddogion a chynghorwyr, bydd raid i'r naill barchu a deall swyddogaethau'r llall yn y broses benderfynu.

4.6.15.2 Rhaid i gynghorwyr barchu cyngor swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor neu pan fônt yn delio gyda cheisiadau dirprwyol ac ni chânt bwyso ar swyddogion am argymhelliad neu benderfyniad arbennig. Dylai unrhyw swyddog sy'n ystyried bod hyn wedi digwydd ddelio gyda'r mater yn unol ag adran 5.3.4 y Cyfansoddiad hwn (Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol).

4.6.16 **YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.16.1 Mae protocol ar ymweliadau safle yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth y rheolau hyn.

4.6.17 **ANRHEGION A LLETYGARWCH**

4.6.17.1 Mae cyngor i gynghorwyr ar gofrestru anrhegion a lletygarwch yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a bydd raid glynu wrth y Côd.

4.6.17.2 Yn ystod gwneud eu gwaith, mae'n bosib y cynigir i Swyddogion letygarwch gan bobl â diddordeb mewn cynigion cynllunio. Rhaid i Swyddogion wrthod pob cynnig o'r fath. Onid oes modd osgoi derbyn lletygarwch, rhaid i Swyddogion sicrhau nag fyddant yn derbyn mwy na sydd raid a datgan ei dderbyn i'r Swyddog Monitro mor fuan ag y bo modd.

4.6.18 **HYFFORDDIANT**

4.6.18.1 Ni all yr un aelod ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion hyd oni fydd wedi mynychu hyfforddiant cynefino. Y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fydd o bryd i'w gilydd yn penderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant cynefino. Wedyn, cyflwynir hyfforddiant i ddiweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau – bydd hynny'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi sylw i newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i'r weithdrefn.

4.6.18.2 Sicrha Cynghorwyr eu bod yn mynychu o leiaf 3 achlysur hyfforddi dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cadw ar y blaen i'r materion cynllunio ac yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol yn y broses benderfynu. Bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu monitro a'u cyflwyno i'r Cyngor. Bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion sy'n methu â mynychu nifer benodol a sylfaenol o sesiynau hyfforddi yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor neu'n cael ei atal rhag

Deleted:

Deleted: ¶

Formatted: Indent: Left: 1.77 cm, First line: 0 cm

Deleted: cyflwyniadol

Deleted: ŵ

Deleted: flwyniadol

bod arno am gyfnod trwy bleidlais yn y Cyngor llawn pan gyflwynir i'r Cyngor adroddiad ar y cofnod mynychu.

**ATODIAD -**

4.6.19 **PROTOCOL AR GYFER YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.19.1 **MEINI PRAWF AR GYFER YMWELIADAU SAFLE**

4.6.19.1.1 Mae'n bwysig bod meini prawf yn cael eu sefydlu ar gyfer penderfynu pryd mae modd cyfiawnhau ymweliad â safle ac ystyried dull gweithredu ymweliadau o'r fath. Yn hyn o beth, dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

(i) Gall ymweliadau safle :

- oedi'r broses benderfynu, ac
- efallai arwain at apêl i'r 'Arolygiaeth Gynllunio' ar sail 'methu â phenderfynu';
- gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran ei darged 8 wythnos a pheri costau ychwanegol i'r Gwasanaeth ac efallai i'r ymgeis(-ydd/-wyr) fel ei gilydd.

(ii) Mae angen cysondeb wrth benderfynu ar ymweld â safle a sut i gynnal ymweliad o'r fath. Fel arall, gall adael yr Awdurdod yn agored i'r cyhuddiad fod ymweliadau safle yn fympwyol neu efallai yn ddyfais lobïo.

- (iii) Rhaid trefnu ymweliadau â safleoedd yn ofalus a'u mynychu yn dda a sefydlu'n glir ar y cychwyn cyntaf beth yw eu diben, eu ffurf a'u trefniadau a chadw at hynny wedyn.

- (iv) Rhaid osgoi ymweliadau â safleoedd onid yw'r manteision yn sylweddol. Dylai'r prawf 'mantais sylweddol' fod yn berthnasol ym mhob achos. Ni ddylai ymweliadau â safleoedd fod yn angenrheidiol onid yw'n anodd gweld a dirnad beth fydd effaith y datblygiad arfaethedig h.y. pan fo aneglurder y cais yn gwneud asesiad gweledol yn angenrheidiol.

- (v) Gall ymweliadau â safleoedd fod yn briodol i ystyried ceisiadau mawr, mwy cymhleth.

- (vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â safle cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y cais, yna dim ond yr aelodau hynny a aeth ar yr ymweliad swyddogol â'r safle fedr gymryd rhan a phleidleisio ar y cais pan fydd yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor.

Bydd cyfeiriad at argymhelliad swyddog i ymweld â safle yn ymddangos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.6.19.1.2 **Ni ddylid** ymweld â safle yn yr achosion canlynol:

Deleted: (i)

Formatted: Numbered + Level: 1 + Numbering Style: i, ii, iii, … + Start at: 1 + Alignment: Left + Aligned at: 2.33 cm + Indent at: 3.6 cm

Deleted: <#>¶
¶

Deleted: Bydd

Formatted: Font: Bold

PL-16745-RWJ/165287

- (i) I ystyried anghydfod ynghylch ffiniau neu rhwng cymdogion yn unig
- (ii) I ystyried gwrthwynebiadau ar sail cystadleuaeth.
- (iii) I ystyried gwrthwynebiadau a godwyd ar sail gostwng gwerth eiddo.
- (iv) I ystyried unrhyw faterion eraill sydd heb fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
- (v) Pan fo'r cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn y 12 mis cynt, onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

4.6.19.2 **CEISIADAU AM YMWELIADAU Â SAFLEOEDD**

I bwrpas sefydlu trefn strwythuredig i'r ymweliadau a safleoedd bydd raid glynu wrth y drefn ganlynol:-

4.6.19.2.1 Rhaid cyflwyno pob cais am ymweliad â safle yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Cynllunio / Rheolwr Rheoli Cynllunio erbyn 1.00pm ar y diwrnod gwaith olaf cyn Cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i unrhyw gais llafar ddaw cyn cyfarfod y Pwyllgor gael ei ddilyn gyda chais ysgrifenedig cyn i Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddechrau. Bydd y rheswm dros gynnal yr 'ymweliad safle' yn cael ei ddatgan yn eglur a'i gyflwyno felly i'r Pwyllgor Cynllunio.

Deleted: Pennaeth Rheoli Datblygu

4.6.19.2.2 Os bydd cais yn cael ei wneud am 'ymweliad safle' yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, unwaith eto, bydd y rhesymau dros gynnal yr ymweliad yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

Deleted: (ii)

4.6.19.3 **DULLIAU GWEITHREDU YN YSTOD YR YMWELIAD Â'R SAFLE**

4.6.19.3.1 Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr ymweliad â'r safle ond ni fydd yn cael bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad i gyflwyno unrhyw sylwadau.

Deleted: achos

4.6.19.3.2 Prif ddiben yr ymweliad â'r safle fydd i'r Swyddogion Cynllunio egluro'r materion cynllunio sy'n berthnasol i'r achos ac i'r cynghorwyr weld y safle.

Deleted: ynol

4.6.19.3.3) Ni fydd unrhyw drafodaeth yn ystod yr ymweliad â'r safle o ran rhinweddau'r cais. Rhaid peidio â defnyddio'r ymweliad â'r safle fel fforwm i drafodaethau.

4.6.19.3.4 Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fydd yn cynnal ac yn arwain yr ymweliad â'r safle. Os bydd naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol, bydd yr Aelodau yn cytuno ar Gadeirydd dros dro.

4.6.19.3.5 Bydd y Cadeirydd yn agor y Cyfarfod yn ffurfiol a nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.6.19.3.6 Gofynnir i'r swyddog cynllunio amlinellu'r cynnig a'r prif faterion.

4.6.19.3.7 Bydd y cynghorwyr yn edrych ar y safle, ar yr adeiladau perthnasol a'r cyffiniau yn ôl yr angen.

4.6.19.3.8 Bydd y cynghorwyr yn cael cyfle i godi cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar ffeithiau gyda'r swyddog cynllunio a/neu cynghorydd(-wyr) lleol.

4.6.19.3.9 Bydd cynghorwyr lleol y Ward y mae'r cais ynddi (os yn bresennol) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

Deleted: dd

Deleted: L

4.6.19.3.10 Cedwir nodiadau o'r cyfarfod ar y safle a chânt eu cofnodi felly yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pan fydd y cais yn cael ei drafod.

4.6.19.4 **ADOLYGU PENDERFYNIADAU'N RHEOLAIDD**

(i) Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio '*Building Quality*' yn argymell bod cynghorwyr yn ymweld â sampl o hawliau cynllunio sydd wedi eu gweithredu i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a, thrwy hynny, atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.

(ii) Dylid cynnal yr adolygiad yn flynyddol. Dylai gynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o gategorïau o ddatblygiad gan gynnwys ceisiadau y penderfynodd Swyddogion arnynt trwy bwerau dirprwyol.

4.6.20 **SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y PWYLLGOR A CHYNNAL BUSNES Y PWYLLGOR**

4.6.20.1 **Ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd**

4.6.20.1 (i) Bydd y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Ar yr un pryd, bydd y cynghorwyr yn ethol Is-Gadeirydd am yr un cyfnod neu hyd oni fydd y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn ymddiswyddo.

Deleted: Yr

(ii) Pan fo'r Cadeirydd yn absennol am y cyfan o gyfarfod y Pwyllgor neu am ran ohono, yna bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y Gadair. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd bydd y Pwyllgor yn dewis un o'u haelodau sy'n bresennol i fod yn Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu am ran ohono hyd oni fydd y Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd) yn dychwelyd.

4.6.20.2 **Cyfrifoldeb y Cadeirydd**

Y rhain fydd cyfrifoldebau'r Cadeirydd :

4.6.20.2.1 llywyddu yn y cyfarfodydd fel bod modd gwneud gwaith y Pwyllgor yn effeithiol gan roddi sylw priodol i hawliau'r Cynghorwyr, y swyddogion ac i fudd y gymuned yn gyffredinol.

4.6.20.2.2 sicrhau bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn briodol fel Fforwm i drafod materion cynllunio a gorchmynion statudol yn unig.

4.6.20.2.3 sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

4.6.20.2.4 cefnogi'r swyddogion cynllunio a chynrychiolydd y Swyddog Monitro i atgoffa'r aelodau ynglyn â'u dyletswydd i lynu wrth drafodaethau cynllunio gwirioneddol ac o bwys yn ystod y broses o wneud penderfyniad.

4.6.20.3 **Swyddogaeth Swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor**

4.6.20.3.1 Bydd y swyddogion yn rhoddi cyngor proffesiynol i'r Cadeirydd fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn y swydd.

4.6.20.3.2 Bydd y swyddogion yn darparu cyngor fel a ganlyn :

(i) yn y cyfarfodydd rhagarweiniol cyn y Pwyllgor er mwyn briffio'r Cadeirydd yn llawn ar faterion a allai godi yn y cyfarfodydd;

(ii) mewn unrhyw gyfarfodydd ar ôl y Pwyllgor (os oes gofyn).

(iii) yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo cwestiynau'n cael eu gofyn i'r Cadeirydd i bwrpas ymateb.

(iv) mewn unrhyw gyfarfod a elwir gan swyddogion i drafod materion sy'n berthnasol i bynciau 'cynllunio' neu i bynciau 'gorchmynion'.

4.6.20.4 **Cynnal Cyfarfodydd o'r Pwyllgor**

(4.6.20.4.1) Bydd pob eitem sydd ar y rhaglen i bwrpas trafodaeth neu wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan y Cadeirydd.

(4.6.20.4.2) Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cyflwyno'r eitem, bydd yn sicrhau cyfle i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem. Lle mae'r drefn siarad cyhoeddus yn berthnasol i gais penodol, bydd hyn yn digwydd cyn i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem.

(4.6.20.4.3) Yn gyntaf, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr lleol siarad yn dilyn adroddiad y swyddog. Ond gan ddibynnu ar a ydyw'r cynghorwyr lleol yn dymuno siarad o blaid yr eitem neu yn ei herbyn a chan ddibynnu ar a ydyw ar y Pwyllgor ai peidio.

(4.6.20.4.4) Wedyn bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr ymuno yn y drafodaeth yn y drefn honno sy'n cynrychioli dymuniad y cynghorwyr yn ôl dehongliad y Cadeirydd.

(4.6.20.4.5) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor a chyda darpariaethau perthnasol y Rheolau Gweithdrefn hyn.

(4.6.20.4.6) Bydd pob cynghorydd sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Ni fydd cynghorwyr yn cael gwneud areithiau a bydd raid iddynt annerch y Pwyllgor ar faterion 'cynllunio' (h.y. ystyriaethau cynllunio perthnasol) a 'gorchmynion' yn unig. Gall y Cadeirydd dorri ar draws Cynghorydd sy'n gwneud datganiadau ailadroddus neu rai amherthnasol.

Deleted: ydd

Deleted: ydd

(4.6.20.4.7)Pan fo raid i swyddogion ymateb i sylwadau neu i gwestiwn gan gynghorydd, yna bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddog yn cael cyfle i wneud hynny.

(4.6.20.4.8)Os ydyw'r Cadeirydd yn dymuno siarad fel cynghorydd lleol ar eitem benodol, yna bydd darpariaethau'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ef fel Cadeirydd yn union fel yr ymwnânt â'r holl gynghorwyr eraill.

(4.6.20.4.9)

(i) Ar ddiwedd y drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor bleidleisio ar y mater dan drafodaeth. Onid yw'r cynghorwyr yn anghytuno gydag argymhelliad y swyddog, byddant yn pleidleisio trwy godi dwylo.

(ii) Pan fo gwelliant yn cael ei gynnig a'i eilio yng nghyswllt argymhelliad swyddog, yna bydd raid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf.

(4.6.20.4.10) Bydd raid i'r holl gynghorwyr a'r holl swyddogion barchu swyddogaeth y Cadeirydd. Bydd arweiniad y Cadeirydd ar yr holl faterion trefn yn y Pwyllgor yn derfynol ac ni fydd modd trafod ei benderfyniad. Bydd y Cadeirydd, bob amser, yn sicrhau y bydd yr holl gynghorwyr, (gan gynnwys ef ei hun) a phob swyddog yn parchu'r protocol ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a sicrhau hefyd bod y cyngor a roddo'r swyddogion yn y Pwyllgor yn cael ei barchu.

Deleted: pob cynghorydd

### 4.6.21 Y Cyhoedd yn Siarad

Hawl i Siarad

4.6.21.1 Rhaid i'r cais cynllunio fod ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Os bydd y cais yn cael ei ohirio, ni fydd hawl i'r cyhoedd siarad os bydd cyfle wedi ei roi yn barod mewn Pwyllgor blaenorol lle cafodd y cais ei ystyried yn llawn.

4.6.21.2 Fe all y ddau ymgeisydd (neu eu hasiantiaid), a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiantiaid), siarad a does yna ddim meini prawf i'w bodloni ac eithrio cydymffurfio gyda gweithdrefn y Cyngor.

4.6.21.3 Fel arfer, dim ond un person sy'n cael siarad o blaid ac un person yn erbyn cais. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn defnyddio ei ddisgresiwn i adael un siaradwr arall i'r ddwy 'ochr'. Fel arfer, ni fydd yn gwneud hyn ond pan fydd ceisiadau mawr lle mae yna wahaniaeth barn o fewn un 'ochr' (e.e. dau yn siarad yn erbyn cais am siop fawr lle mae un yn cynrychioli barn y gwerthwyr a'r llall yn cynrychioli barn rhai sy'n byw gerllaw). Mewn achosion o'r fath bydd yr 'ochr' arall yn cael caniatâd i ddau siaradwr neu ddwywaith yr amser arferol os ydynt eisiau defnyddio'r amser hwnnw.

4.6.21.4 Rhaid i unrhyw un sydd eisiau siarad roi'r hawl i'r Cyngor gyflwyno'i enw a'i rif cyswllt i bobl eraill (o'r un farn) sydd eisiau siarad fel y gallant gytuno pwy sy'n mynd i siarad a pha bethau sydd angen eu dweud ac ati. Os na fyddant yn cytuno, y person cyntaf ofynnodd i'r Cyngor am gael siarad fydd yn cael ei ddewis fel arfer.

4.6.21.5 Rhaid cyflwyno cais am y cyfle i siarad i'r Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gynllunio cyn yr amser cau sy'n cael ei nodi yn y llythyr o rybudd sy'n cael ei anfon at ymgeiswyr a phobl sy'n byw yn ymyl safle'r cais.

Faint o amser i Siarad

4.6.21.6 Bydd y siaradwr yn cael siarad am hyd at 3 munud gerbron y Pwyllgor.

Lluniau ac ati

4.6.21.7 Does dim hawl gan y siaradwr rannu na dangos papurau yn y Pwyllgor. Rhaid i bob dim ar bapur fod wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn ystod y cyfnod statudol o roddi cyhoeddusrwydd i'r cais a byddant yn cael eu crynhoi yn adroddiad y Swyddog.

Deleted: i'r

Y Drefn

4.6.21.8 Mae'r drefn lle mae aelodau'r cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor yn cael ei ddisgrifio yn y dogfennau priodol.

This page is intentionally left blank

PAPUR / ENCLOSURE
H

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **13 Mawrth 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Protocol Cyfryngau Cymdeithasol Drafft** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Gofyn am sylwadau'r Pwyllgor Safonau a bod y Pwyllgor yn argymell y Polisi i'r Cyngor** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Huw Pierce Pritchard, Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Huw Pierce Pritchard** |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno Protocol Cyfryngau Cymdeithasol drafft ar gyfer Aelodau gyda'r bwriad o reoleiddio'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig wrth weithredu yn rhinwedd eu swydd neu yn breifat. Mae'r protocol hefyd yn ymwneud a 'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd mewn cyfarfodydd. Atodir y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol Drafft fel Atodiad 1.

## 2. Scôp

Bwriad y protocol ydy gosod allan yn glir sut y dylai Aelodau Etholedig ryngweithio gyda chyfryngau cymdeithasol fel Cynghorwyr ac fel unigolion preifat. Mae'r protocol hefyd yn ymwneud â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd sy'n mynd i gyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a chyfarfodydd pwyllgorau eraill. Mae'r protocol hefyd yn cyfeirio at hawl y Cyfryngau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yng nghyfarfodydd y Cyngor.

## 3. Cefndir

Mae'n bosib i gyfryngau cymdeithasol chwarae rhan bwysig yng ngweithrediad cymdeithas ddemocrataidd gan gynnig cyfleoedd positif i'r Cyngor a'i Aelodau Etholedig ymgysylltu gyda dinasyddion Môn. Yn ogystal, gall Aelodau Etholedig ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel ffordd effeithiol o ryngweithio gydag etholwyr ac i gefnogi democratiaeth leol. Mae cyfryngau cymdeithasol yn cyflwyno heriau a chyfleoedd i'r Cyngor

Cydnabyddir bod diffyg datganiad sefyllfa bendant ar ddefnydd cyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig a'r cyhoedd mewn cyfarfodydd wedi arwain at ansicrwydd o ran beth yw'r ymateb cywir ar gyfer materion fel ffilmio cyfarfodydd gan y cyhoedd.

Mae'r mater o ganiatáu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yng nghyfarfodydd y Cyngor gan newyddiadurwyr a'r cyhoedd yng Nghymru yn rhan o drafodaeth barhaus. Yn ddiweddar, mae'r "Daily Post" wedi trefnu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r mater yma.

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru , sy'n gefnogwr ers peth amser o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, wedi ysgrifennu yn ddiweddar at awdurdodau lleol Cymru yn nodi ei gefnogaeth ar gyfer gwella tryloywder gweithrediadau trwy hybu mynediad ar lein.

## 4. Protocol Cyfryngau Cymdeithasol

Gall defnydd anaddas o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig arwain at dorri'r Côd Ymddygiad. Felly, mae'n bwysig bod Aelodau Etholedig yn adnabod y risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r cyfryngau cymdeithasol a'u bod yn sicrhau nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd sy'n torri'r Cod Ymddygiad.

Bwriedir y bydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn rhoddi sylw i'r Protocol wrth edrych i mewn i honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad sy'n ymwneud a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

## 5. Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau gynnig sylwadau ar y protocol ac argymell bod y Cyngor yn ei fabwysiadu.

**1. Cyflwyniad**

**1.1 Diffinio cyfryngau cymdeithasol**

**1.1.1.** Term cyfunol yw cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir i ddisgrifio cyfryngau ar-lein sy'n cynnig ffyrdd hawdd i gyhoeddi cynnwys ar-lein a hefyd i hwyluso a chymryd rhan mewn sgyrsiau ar-lein, a all wahodd postio sylwadau neu gyfraniadau neu fel arall wahodd trafodaeth.

**1.1.2.** Gall cyfryngau cymdeithasol ymwneud â rhwydweithiau cymdeithasol (ee *Facebook)*; rhwydweithiau proffesiynol (ee *LinkedIn*); safleoedd cynnwys cymunedau (ee *Flickr* ac *Youtube*); blogiau (ee drwy safleoedd fel *Wordpress* a *Blogger*); safleoedd meicroflogio (ee *Twitter*). Gellir cael mynediad i gyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio amrywiaeth o offer digidol fel gliniaduron, ffonau deallus a llechen, y gellir eu defnyddio hefyd i ddal gwybodaeth glyweledol.

**1.2. Cwmpas**

**1.2.1.** Bwriadwyd y protocol hwn i nodi'n glir sut y dylai Aelodau Etholedig ryngweithio â chyfryngau cymdeithasol, fel Cynghorwyr Sir ac fel unigolion preifat. Mae'r protocol hefyd yn ymwneud â'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau eraill. Cydnabyddir bod y ffaith nad oes datganiad terfynol ar y sefyllfa ynglŷn â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd wedi arwain at rywfaint o ansicrwydd ar ran Cadeiryddion o safbwynt cynnig ymateb derbyniol i faterion megis ffilmio cyfarfodydd gan y cyhoedd. Y bwriad, felly, yw y bydd y Protocol yn darparu cyfarwyddyd ynghylch y defnydd a ganiateir o gyfryngau cymdeithasol i Gadeiryddion yn ystod cyfarfodydd.

**1.2.2.** Nid yw'r Protocol yn ymwneud â Swyddogion y Cyngor - mae polisïau TGCh ar wahân yn berthnasol iddynt hwy.

**1.2.3.** Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig wedi'i gynnwys dan ran 2.1 y Protocol. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig yn ystod cyfarfodydd yn cael ei drafod yn 2.1.5.

**1.2.4.** Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd yn dod dan ran 2.2 y Protocol.

**1.3. Cefndir**

**1.3.1.** Gall cyfryngau cymdeithasol chwarae rhan bwysig yng ngweithrediad cymdeithas ddemocrataidd drwy gynnig cyfleoedd cadarnhaol i'r Cyngor a'i Aelodau Etholedig ymgysylltu gyda dinasyddion Ynys Môn. Er enghraifft, gall cyfryngau cymdeithasol fod yn ffordd effeithlon a chost effeithiol i'r Cyngor gadw mewn cysylltiad â thrigolion a busnesau.

Gall Aelodau Etholedig hefyd wneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i ryngweithio ag etholwyr ac i gefnogi democratiaeth leol. Mae tystiolaeth y gall cyfryngau cymdeithasol, o'u defnyddio'n effeithiol, ymgysylltu â'r rhai na fyddent fel arall yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol neu yn rhyngweithio gyda'u Haelodau Etholedig.

**1.3.2.** Mae'n amlwg fod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol hefyd yn cyflwyno risgiau a heriau penodol i'r Cyngor a'i Aelodau Etholedig. Yn benodol, gall y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig o bosibl arwain at dorri'r Côd Ymddygiad. Felly, mae'n bwysig bod Aelodau Etholedig yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol a sicrhau nad ydynt yn eu defnyddio mewn ffordd sy'n torri'r Côd Ymddygiad.

**1.3.3.** Y bwriad yw y bydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn ystyried y Protocol wrth benderfynu ar honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad yn cynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

## 2. Cyfryngau Cymdeithasol a'r Cyngor

### 2.1. Defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig

**2.1.1.** Mae'n debygol y gall y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig gynnwys cymryd rhan mewn cyfryngau a noddir gan y Cyngor, megis Blog yr Arweinydd; defnydd a wneir mewn capasiti preifat, neu sy'n ymddangos yn breifat, drwy gyfrif preifat; cyfranogiad dienw gyda, neu gyfraniad i flogiau, fforymau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol eraill.

**2.1.2.** Mae Aelodau wedi eu hymrwymo i lynu wrth delerau ac amodau'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol unigol. Yn ogystal, dylai Aelodau gydnabod y gallai eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol ddod dan y Côd Ymddygiad, ac mae'n debygol y gallai unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r gyfraith a chytundebau defnyddwyr y safleoedd hyn dorri'r Côd Ymddygiad. Yn benodol, dylai Aelodau osgoi defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd sy'n awgrymu rhagfarn a rhagbenderfyniad.

2.1.3. Yn ogystal â materion sydd wedi'u cynnwys yn y Côd Ymddygiad, rhaid atgoffa Aelodau y gall eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol fod â goblygiadau dan y gyfraith gyffredinol, a all fod â chanlyniadau difrifol i Aelod Etholedig.

2.1.4. Awgrymir y gall yr anawsterau posibl sy'n deillio o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gael eu hosgoi os yw'r wybodaeth a gyhoeddir gan Aelodau yn wrthrychol, yn gytbwys, yn llawn gwybodaeth ac yn gywir. Gall effeithiau cyhoeddi gwybodaeth ar-lein fod yn rhai hirbarhaol, gan fod mynediad i gynnwys a gyhoeddir ar-lein yn hollbresennol, ac i bob pwrpas wedi ei gyhoeddi am byth.

2.1.5. Ni ddylai Aelodau ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd. Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys gwaharddiad ar wneud sylwadau ar y pryd ar unigolion neu faterion eraill a hefyd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd.

2.1.6. Yn ogystal, dylai Aelodau geisio osgoi rhoi'r argraff i eraill nad ydynt yn rhoi sylw llawn i weithgareddau'r cyfarfod. Gellid gwneud hyn drwy sicrhau fod dyfeisiau symudol yn cael eu defnyddio'n ddarbodus ac yn ddiffwdan yn ystod cyfarfodydd.

2.1.7. Dylai Aelodau osgoi defnyddio dyfeisiau symudol i anfon neu i dderbyn gwybodaeth nad yw'n gysylltiedig â'r materion dan ystyriaeth yn y cyfarfod. Dylai'r defnydd a wneir o ddyfeisiau symudol i anfon neu dderbyn negeseuon preifat neu anfon e-bost yn ystod cyfarfodydd fod yn rhesymol ac yn synhwyrol. Dylai Cadeiryddion geryddu unrhyw Aelod y mae ei ddefnydd o ddyfeisiau symudol yn ystod cyfarfodydd yn cael ei ystyried yn ormodol.

DRAFT

2.1.8. Bydd y paragraffau canlynol o'r Côd Ymddygiad yn berthnasol i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ac ymddygiad arall ar-lein. Mae hawliau Aelodau dan Erthyglau 8 a 10 (Atodlen 1) Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi cael eu hystyried.

2.1.8.1. Mae paragraff 5.4(a) "*cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd*";

Dylai'r Aelodau sicrhau nad yw eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn torri egwyddorion cydraddoldeb y Cyngor. Bydd datganiadau gwahaniaethol hefyd yn debygol o fod yn anghyfreithlon

2.1.8.2. Paragraff 5.4 (b) "*dangos parch ac ystyriaeth at* eraill";

Dylai Aelodau fod yn ymwybodol nad yw sylwadau gwleidyddol a mynegi safbwyntiau a dadleuon gwleidyddol yn cael eu llesteirio gan y Côd Ymddygiad, ond ei bod yn debygol y gallai sylwadau personol a anelir at unigolyn gael eu gweld fel rhywbeth amharchus a allai olygu torri'r Côd.

Atgoffir yr Aelodau y gallai eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol arwain at enllibio unigolyn arall. Mae hyn yn berthnasol hefyd os yw Aelod sydd â safle cyfryngau cymdeithasol personol yn caniatáu i unrhyw unigolyn gyhoeddi cynnwys enllibus arno.

2.1.8.3. Paragraff 5.4 (c ) "*peidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu ar unrhyw berson*"

Dylai Aelodau fod yn ofalus pan yn gwneud sylwadau personol am unigolion ac ni ddylid byth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i adolygu a thrafod perfformiad staff y Cyngor. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ddefnydd dienw o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau sy'n cael ei ystyried yn fwlio neu yn aflonyddu ar unrhyw berson.

Dylai Aelodau sy'n cynnal blog neu safle rhwydweithio (fel *Twitter*) fod yn ymwybodol y gallai sylwadau eraill ar y safleoedd hynny gael eu priodoli i'r Aelod drwy gysylltiad. Dylai Aelodau sicrhau bod sylwadau difenwol neu anweddus yn cael eu tynnu oddi ar eu safleoedd personol.

2.1.8.4. Paragraff 5.5 (a) "*datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb dderbyn caniatâd penodol person a awdurdodwyd i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai fod y gyfraith yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny"*

Dylai Aelodau fod yn sicr bob amser nad yw gwybodaeth y maent yn ei thrafod neu'n ei datgelu ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn wybodaeth gyfrinachol a'i bod yn briodol i wneud hynny. Dylai Aelodau gofio fod y wybodaeth a roddir ar wefan, boed yn ddienw neu beidio, ac na ellid bod wedi ei chael ond gan Aelod, yn debygol o ddisgyn o dan y Côd.

Ni ddylai Aelodau fyth gyhoeddi data personol unigolion ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998.

DRAFT

Dylai Aelodau osgoi torri hawlfraint drwy gyhoeddi delweddau neu destun ar safle cyfryngau cymdeithasol sydd yn eiddo deallusol rhywun arall.

2.1.8.5. Paragraff 10 (2)(c )(1) Diddordeb personol: "*neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi*"

Defnyddir termau amrywiol i ddiffinio cysylltiadau a chyfeillach ar amrywiol safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae'r termau hyn yn cynnwys 'ffrindiau' (*Facebook*) a 'dilynwyr' (*Twitter*) . Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol y gallai unrhyw berson y maent yn ei gynnwys fel cyswllt ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol gael eu hystyried at ddibenion y Côd Ymddygiad fel cyswllt personol agos. Dylai Aelodau fod yn ofalus nad yw eu defnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r argraff bod gwrthdaro o ran buddiannau. Byddai'n ddoeth i Aelodau, wrth greu eu cynnwys eu hunain ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, geisio pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng cynnwys busnes a thudalennau sy'n cynnwys deunydd personol.

2.1.8.6. Paragraff 12 (1) Diddordebau sy'n rhagfarnu: *"… y byddai aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am y ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol eu bod mor arwyddocaol fel y byddant yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd".*

Dylai Aelodau fod yn ofalus nad yw eu defnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r argraff bod ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater.

2.1.9. Mae Aelodau Etholedig wedi eu hymrwymo i'r Côd Ymddygiad os ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynnal busnes y Cyngor neu yn cynrycholi'r Cyngor. Fodd bynnag, gallai Aelod Etholedig fod yn agored i honiadau ei fod ef/hi wedi torri'r Côd Ymddygiad os yw'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol yn amhriodol ac nad yw ef/hi yn cynnal busnes swyddogol, ond dim ond yn hawlio neu'n rhoi'r argraff ei fod ef/hi yn gweithredu yn swyddogol.

2.1.10. Gall defnydd dienw o'r cyfryngau cymdeithasol gan Aelodau hefyd arwain at dorri'r Côd lle gellir dangos bod Aelod wedi llwytho i fyny gynnwys y safle a'i fod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd.

**2.1.11.** Er mwyn penderfynu a yw Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd, byddai angen ystyried cyd-destun defnydd Aelod o gyfryngau cymdeithasol, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau megis:

a. Proffil cyhoeddus Aelod, a all arwain at dybiaeth resymol fod yr Aelod yn gweithredu fel Cynghorydd Sir;
b. Y gosodiadau preifatrwydd ar y safle cyfryngau cymdeithasol neu blog. Cyfrifoldeb yr Aelod yw sicrhau bod gosodiadau preifatrwydd priodol yn eu lle. Os gall etholwyr gael mynediad i sylwadau a wnaed gan yr Aelod, fe allant dybio'n rhesymol bod yr Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd.

DRAFT

c. Dylai Aelodau geisio galluogi defnyddwyr eraill y cyfryngau cymdeithasol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth dros statws swyddogol, neu fel arall, cyfraniadau'r Aelod.

2.1.12. Dylai Aelodau osgoi trafod busnes y Cyngor ar safle cyfryngau cymdeithasol personol, neu wneud sylwadau am eraill. Nid yw’n ddigonol i Aelodau wedyn hawlio fod unrhyw sylwadau y ceir anghydfod yn eu cylch wedi eu gwneud yn breifat.

**2.2. Y cyhoedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd y Cyngor**

**2.2.1.** Mae’r Cyngor yn cydnabod y newid diwylliannol tuag at ganiatáu’r defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn bywyd cyhoeddus. Bydd y Cyngor felly yn caniatáu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd yn ystod ei gyfarfodydd ar yr amod nad yw’r defnydd yn tynnu sylw ac nad yw’n amharu ar y cyfarfod. Nid yw’r Protocol yn effeithio ar ddyletswyddau’r Cadeirydd i sicrhau a chynnal trefn dda'r cyfarfod busnes.

**2.2.2.** Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i ofyn i aelodau o’r cyhoedd roi offer digidol i ffwrdd os yw ei weithrediadau yn ymyrryd â gweithrediad offer sain-weledol neu systemau eraill y Cyngor.

**2.2.3.** Mae’r Cyngor yn goddef y defnydd o gyfryngau digidol gan y cyhoedd, megis ffonau deallus, i ffilmio ei gyfarfodydd, ar yr amod nad yw’r defnydd yn tynnu sylwl ac nad yw’n amharu ar y cyfarfod. Cyfrifoldeb unrhyw aelod o’r cyhoedd yw gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn ffordd a fydd yn cydymffurfio â’r gyfraith

**2.2.4.** Pan fydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu ffilmio gan y cyfryngau efallai y bydd hynny’n cael ei ystyried yn rhywbeth sy’n tynnu sylw mwy ac sy’n tarfu mwy ar y cyfarfod a hynny oherwydd natur yr offer digidiol a ddefnyddir. Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i wrthod cais gan y cyfryngau i ffilmio cyfarfodydd, ond bydd yn caniatáu ffilmio cyn i unrhyw gyfarfod ddechrau drwy drefniant ymlaen llaw.

2.2.5. Ni ddylai offer digidol gynhyrchu unrhyw sŵn amlwg a allai darfu ar gyfarfodydd. Ni ddylai’r cyhoedd ateb galwadau ffôn yn ystod cyfarfodydd, gan fod hyn yn debygol o darfu ar y cyfarfod. Rhaid i Gadeiryddion roi cyngor i aelodau’r cyhoedd sy’n mynychu’r cyfarfodydd ynglŷn â’r angen i sicrhau bod eu hoffer digidol yn cael ei weithredu’n dawel.

DRAFT

# PAPUR / ENCLOSURE
I

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – EBRILL 2012 I MAI 2013

| | | AMSERLEN | ADNODDAU |
|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn cyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir cyfeiriadau | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig. | • Fel a phryd y derbynnir cyfeiriadau | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| 3. | Cymryd swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion a gyfyd dan Brotocol y Cyngor ar gyfer Hunanreoleiddio neu unrhyw gynllun olynol. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| 4. | Goruchwylio'r Cynllun Datblygu Aelodau, gan gynnwys:-<br><br>• Hyfforddiant parhaus ar gyfer y Pwyllgor Safonau<br>• Ystyried a pharatoi cwrs cynefino a hyfforddiant ar gyfer y Cynghorwyr a gânt eu hethol yn 2013<br>• Hyfforddiant i dargedu anghenion penodol y rheiny sy'n cael eu cosbi gan Banel Dyfarnu Cymru (PDC) neu'r Pwyllgor Safonau | <br><br>• Yn ôl yr angen<br>• Cyn Mai 2013<br><br>• Yn ôl yr angen | • Rheolydd AD<br>• CLILC<br>• Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol |
| 5. | Bod yn rhan o'r Gweithgor Datblygu Aelodau a derbyn adroddiadau ganddo. | • Chwarterol | • Rheolydd AD<br>• CLILC<br>• Swyddog Monitro |
| 6. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau | • Erbyn diwedd 2012 | • Swyddog Monitro |

CC-015794-LB/136867

| | | | |
|---|---|---|---|
| | drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chanllawiau wedyn os yw hynny'n briodol. | | • Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| 7. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chanllawiau wedyn os yw hynny'n briodol. | • Erbyn diwedd 2012 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| 8. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad a fyddai'n rhagfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro<br>• Prif Weithredwr |
| 9. | Cymryd rôl corf yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas â fersiynau drafft unrhyw ganllawiau/protocolau ac ati a gyhoeddir gan OGCC o ran y Côd Ymddygiad i Aelodau/Protocol ar gyfer Datrys Materion yn Lleol ac ati. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro |
| 10. | Yn dilyn ymgynghori gydag Aelodau, goruchwylio'r broses o gyhoeddi holl Ffurflenni Datgan Diddordeb yr Aelodau ar wefan y Cyngor a sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cyfleuster. | • Dyddiadau i'w cytuno gyda TGCh | • Pennaeth Gwasanaeth (TGCh)<br>• Swyddog Monitro |
| 11. | Yn amodol ar ymgynghori gydag Aelodau, gwneud argymhellion i fwy o wybodaeth gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor (gan gynnwys gwybodaeth ynghylch lwfansau, treuliau, cofnod mynychu ac oriau hyfforddiant). | • Cyn Mai 2013 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| 12. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2013 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| 13. | Argymell Protocol newydd ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau / Swyddogion. | • Cyn Mai 2013 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog |

This page is intentionally left blank